Y DRYSORFA.

Rhif. 720.] HYDREF, 1890. [Llyfr LX.

"EWCH I'R HOLL FYD."

Cynghor ar Ordeiniad nifer o Frodyr i'r Weinidogaeth.

(A draddodwyd yn Nghymdeithasfa Tregaron, Awst, 1890.)

GAN Y PARCH. WILLIAM POWELL, PENFRO.

Marc xvi. 15: "Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur."

Rhoddwyd y gorchymyn hwn i un ar ddeg o ddysgyblion Crist, y rhai a alwyd ganddo i fod yn apostolion. Y pryd hwn yr oedd Judas wedi myned "i'w le ei hun." Nid i'r fath un ag ydoedd efe y mae yr Arglwydd Iesu yn ymddiried y gwaith o bregethu yr efengyl, ond i'w ddysgyblion gwirioneddol.

I chwithau, anwyl frodyr, y peth sydd o'r pwys mwyaf, ac yn anhebgorol anghenrheidiol i bregethu yr efengyl, ydyw eich bod yn ddysgyblion o ran cyflwr a phrofiad; yn rhodio mewn cymdeithas â Christ, a duwioldeb amlwg yn nodweddu eich cymeriad. Dysgyblion gwirioneddol yn gyntaf dim. Fe fydd yr adeilad yn ofer os yw eich sylfaen ar y tywod. Ac wrthych y dywedir, "Ni hebryngais i y prophwydi hyn, eto hwy a redasant: ni leferais wrthynt, er hyny hwy a brophwydasant." Ond yr ydym yn gobeithio am danoch chwi bethau gwell. Mae'r eglwysi, y Cyfarfod Misol, y Gymanfa, yn cymeryd yn ganiataol eich bod yn ddynion Duw; ac yr ydym yn gobeithio na chawn ein siomi yn yr un o honoch yn y dyfodol. Bydd llwyddiant neu aflwyddiant crefydd yn yr oes hon, a'r nesaf, yn dibynu i fesur mawr ar ba fath ddynion ydych. I fod yn offeiriaid cymeradwy dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd yn rhaid i Aaron a'i feibion olchi eu cnawd â dwfr glân cyn eu gwisgo â'r gwisgoedd sanctaidd. Wedi eu golchi yr oeddynt yn cael eu cysegru. Felly y mae yn anghenrheidiol i chwithau brofi "golchiad yr adenedigaeth ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân," i gael eich neillduo i waith y weinidogaeth. Cyn i'r prophwyd gael ei ddanfon â'i genadwri ddifrifol at y genedl, ehedodd ato un o'r seraphiaid, ac "yn ei law farworyn a gymerasai efe oddiar yr allor, ac a'i rhoes i gyffwrdd â'i enau, ac a ddywedodd wrtho, Wele, cyffyrddodd hwn â'th wefusau, ac ymadawodd dy anwiredd, a glanhawyd dy bechod." Ac y mae yn ofynol i chwithau brofi cyffyrddiad gwaed Iesu Grist â'ch calonau, yn eich glanhau oddiwrth eich pechodau, i fod yn genadau dros Dduw at ddynion. Heb adenedigaeth ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân, heb eich glanhâu oddiwrth eich pechodau, lladron ac ysbeilwyr fyddwch ac nid bugeiliaid. Heb dduwioldeb nis cyfrifir gan Dduw yn addas iddo ef ymddiried i chwi ei efengyl. Y mae crefydd wirioneddol yn anghenrheidiol tuag at i chwi gael eich hystyried gan ddynion, "megys gweinidogion i

Grist a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw." Hefyd i fod yn esiampl i'r ffyddloniaid—nid i'r byd yn unig, ond i'r duwiol—mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb; rhaid bod duwioldeb yn amlwg yn nodweddu ac yn perarogli eich *character;* ac felly yn gallu apelio at yr eglwysi: "Tystion ydych a Duw hefyd, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a diargyhoedd, yr ymddygasom yn eich mysg, y rhai ydych yn credu." Gyda golwg arnoch chwi yn bersonol, ymlaenaf peth, fel dynion duwiol y mae'r eglwysi yn clywed llef yn dywedyd, "Cyfod, eneinia ef, canys dyma efe." Ac felly yr un modd i chwi yn bersonol mae'r gorchymyn, "Ewch," yn cael ei roddi. Ac yr ydych chwithau yn sefyll yma heddyw yn ngwyneb y gynnulleidfa hon fel rhai wedi clywed y gorchymyn ac yn rhoddi ufudd-dod iddo.

'Pa fodd y deallwn,' meddwch, 'ein bod wedi ein galw i fyned?' o herwydd, "nid yw neb yn cymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw."

Mewn atebiad y dywedaf: *Awydd i fyned.* Parodrwydd meddwl megys eiddo y prophwyd, pan glywodd lef yr Arglwydd yn gofyn, "Pwy a anfonaf, a phwy a ä drosom ni? Yna y dywedais, Wele fi, anfon fi." Dywedir am ddynion sanctaidd Duw iddynt "lefaru megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân." Felly os i'r anrhydedd hwn y'ch galwyd, yr ydych yn gwybod am gynhyrfiad ysbryd "i chwennych swydd esgob."

Pan y mae Crist yn galw i waith y weinidogaeth, mae'r alwad yn amlygu ei hun mewn brys i ufuddhâu: "Efe a ddywedodd wrth Pedr ac Andreas ei frawd, Deuwch ar fy ol i, a mi a'ch gwnaf yn bysgodwyr dynion. A hwy yn y fan, gan adael y rhwydau, a'i canlynasant ef." "Ac wedi myned rhagddo oddiyno, efe a welodd ddau frodyr eraill, Iago fab Zebedëus, ac Ioan ei frawd, mewn llong gyda Zebedëus eu tad yn cyweirio eu rhwydau; ac a'u galwodd hwynt. Hwythau yn ebrwydd, gan adael y llong a'u tad, a'i canlynasant ef."

Hefyd y mae yn arwydd o'ch galwad, os ydych yn meddu *teimlad o'ch cyfrifoldeb.* Mae gwaith y weinidogaeth wedi ei ymddiried i chwi, ac am y gwaith hwn yr ydych yn gyfrifol i Dduw; ac ymhen ychydig amser, fe ddaw y gorchymyn, "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth." "A phob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw." Ac os ydych wedi eich galw i'r swydd hon fe fydd y syniad o'ch cyfrifoldeb yn eich difrifoli, a chwithau a lafuriwch dan ddylanwad y ffaith, "y geilw Duw chwi i'r farn am hyn oll." Os yn anffyddlawn, gwaed eneidiau eich gwrandawyr Duw a ofyn ar eich dwylaw. "Pan ddywedwyf wrth y drygionus, Gan farw y byddi farw; oni rybuddi ef, ac oni leferi i rybuddio y drygionus oddiwrth ei ddrwg ffordd fel y byddo byw; y drygionus hwn a fydd marw: ond ei waed ef a ofynaf fi ar dy law di." Ond os yn ffyddlawn y'ch ceir, dywedir wrthych, "Da, was da a ffyddlawn; buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Eto, os ydych wedi eich galw y mae *amcan genych i ogoneddu Duw.* Y mae yn ddyledswydd Gristionogol i wneuthur pob peth, hyd yn nod pethau cyffredin bywyd, er gogoniant i Dduw. "Pa un bynag gan hyny ai bwyta ai yfed, ai beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw." Pa faint mwy cymhwys pan yn pregethu yr efengyl, y dylech gadw mewn golwg ogoniant Duw? Ac yn hyn yn abl i ddyweyd fel yr Apostol, "Yr ydym yn llefaru, nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni. Canys nid ydym megys llawer

yn gwneuthur masnach o air Duw; eithr megys o burdeb, eithr megys o Dduw; yn ngwydd Duw yr ydym yn llefaru yn Nghrist:" ac "yn iawn gyfranu gair y gwirionedd."

Y mae *galwad yr eglwys* hefyd yn beth ag y gellwch edrych arno fel prawf o'ch galwad i bregethu. Wrth yr eglwys y dywedodd yr Ysbryd Glân, "Neillduwch i mi Barnabas a Saul i'r gwaith y gelwais hwynt iddo." Nid yn yr eglwys y mae y neillduad hwn yn dechreu, ond yn yr awydd a welir, a'r ysbryd a amlygir, a'r dyben mewn golwg yn yr ymgeisydd am y weinidogaeth. Pan y mae y pethau hyn yn ymddangos, mae'r eglwys yn cael ei chynhyrfu gan yr Ysbryd Glân i alw i'r gwaith o bregethu, ac yn clywed megys llef yn dywedyd, "Cyfod, eneinia ef, canys dyma efe."

Os ydych yn gwybod am awydd i fyned, ac yn teimlo eich cyfrifoldeb, ac os yw yn amcan genych i fod yn gymeradwy gan Dduw, ynghyd a derbyn galwad yr eglwys, chwi ellwch fod yn hyderus mai i chwi yn bersonol y mae y gorchymyn "Ewch." Ac yn brofiadol o'r gwirioneddau hyn, mae awdurdod Crist genych i bregethu. Mae'r hawl yn eich meddiant.

Yr Arglwydd Iesu i'r hwn "y rhoddwyd pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear," "Yr hwn sydd â'r llywodraeth ar ei ysgwydd," Efe sydd yn dywedyd "Ewch." Gyda ei awdurdod Ef chwi a fyddwch yn ymddangos yn y pulpud, a cher bron dynion, fel gweinidogion Duw; ac yn gallu defnyddio iaith yr Apostol, "Bod Duw yn Nghrist . . . wedi gosod ynom ni air y cymmod. Am hyny yr ydym ni yn genadau dros Grist, megys pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwom ni; yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymmoder chwi â Duw."

Mae'r awdurdod hon yn cael ei rhoddi *ynglyn â chymhwysderau*. Nid wrth bob dyn ieuanc duwiol y mae Crist yn dywedyd "Ewch." Nid i eneinio holl fechgyn Jesse yr aeth Samuel, ond Dafydd yn unig, am ei fod yn "wridgoch a theg yr olwg, a hardd o wedd." Yr oedd ynddo gymhwysderau meddyliol a naturiol i fod yn frenin; am hyny "Eneinia ef." Gofynai Nebuchodonosor, brenin Babilon, am "fechgyn, y rhai ni byddai ynddynt ddim gwrthuni, eithr yn dda yr olwg, a deallgar ymhob doethineb, ac yn gwybod gwybodaeth, ac yn deall cyfarwyddyd, a'r rhai y byddai grym ynddynt i sefyll yn llŷs y brenin, i'w dysgu ar lyfr, ac yn iaith y Caldeaid." Pa faint mwy y dylai y rhai sydd yn sefyll ac yn gwasanaethu yn llŷs Brenin y Brenhinoedd, ac Arglwydd yr Arglwyddi, feddu y cymhwysderau mwyaf? Ynglŷn â'r "Ewch" oddiar wefusau Crist, mae yn rhaid wrth gymhwysderau meddwl, a dysg i dreiddio i mewn i wirioneddau y Gair, a medr i gyhoeddi y genadwri, ac i alw y bobl at Grist. I wneyd Pabell y Cyfarfod fe geisiodd Duw ryw Bezaleel, ac a roddodd ynddo ddeall i fedru gwneuthur holl waith gwasanaeth y cysegr.

I gyflawni yr "Ewch" mae Duw yn rhoddi tafod y dysgedig i allu pregethu: "Yr hwn a'n *gwnaeth* ni yn weinidogion cymhwys y testament newydd." At y rhai sydd gymhwys i ddysgu eraill y mae'r "Ewch" yn myned.

Fe wna "Ewch" Crist eich gweinidogaeth *yn effeithiol*. Fe allai na fydd yr effaith yn ol eich dymuniad, nac fel yr oeddych yn dysgwyl, ond gellwch fod yn sicr am lwyddiant eich llafur; oblegid mae Duw wedi sicrhâu, "Canys fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrhâ y ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r bwytäwr; felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw allan o'm genau; ni ddychwel ataf yn wag, eithr efe a wna yr hyn *a fynwyf*, ac a lwydda yn y *peth* yr *anfonais* ef *o'i*

blegid." Bydd *gair Duw* o'ch genau chwithau yn sicr o fod yn fuddiol i'r saint, yn adeiladaeth i'r eglwys, ac hefyd yn allu Duw er iachawdwriaeth. O herwydd y mae genych ei addewid werthfawr, "Wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."

Yn ngrym yr "Ewch" y mae genych awdurdod i fyned "i'r *holl fyd*," "i'r holl greadigaeth." Pa le bynag yn y greadigaeth y byddo pechadur, ewch ato â'ch cenadwri. Ewch i'r holl fyd; i bawb o bob dosbarth, y gwreng a'r boneddig, yr ieuanc a'r hen, y moesol a'r anfoesol, y dysgedig a'r annysgedig. Peidiwch cyfyngu eich cenadwri i'r capelau. Nid yn ein lleoedd addoli y gwelir y lläws yn aml, ond ar hyd ein hystrydoedd, a'n caeau. Am hyny ewch allan "i heolydd ac ystrydoedd y ddinas, a dwg i mewn yma y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion. "Dos allan i'r prif-ffyrdd, a'r caeau, a chymhell hwynt i ddyfod i mewn fel y llanwer fy nhŷ." Ewch i'r mynyddoedd i edrych am y ddafad golledig; chwiliwch yn ddyfal am y dryll arian a gollwyd; ac ewch hyd yn nod i'r wlad bell ar ol yr afradlawn i'w ddwyn adref. Ac fel y dywedodd yr Ysbryd wrth Phylip, "Dos yn nês a glŷn wrth y cerbyd yma," felly y dywedaf finnau wrthych chwi, ewch yn agos at a glynwch wrth bersonau unigol gyda'r amcan i'w hennill i Grist. "Men love crowds, God loves individuals." Yr ydym yn cael yr Iesu ei hun yn rhoddi esiampl o ymdrech gyda phersonau unigol er eu cadwedigaeth.

"Ewch i'r holl fyd a *phregethwch.*" Ewch, ond nid i ddarlithio. Nid darlith ar y ser, neu ddaeareg, nac ar un o enwogion Cymru na Lloegr. Bydd galwad arnoch i ddarlithio yn achlysurol, fe allai, ac mewn rhai amgylchiadau fe fydd hyny yn anghenrheidiol ac yn fuddiol, ond cofiwch nid darlithio ar yr efengyl sydd eisieu. Pregethu mae Crist yn ei orchymyn. "Sermons and not lectures sinners need." Mae pregethu yn myned yn ddyfnach i'r enaid, yn effeithio yn fwy cyflawn ar yr holl ddyn na darlith. Esiampl Crist yn hyn yr ydych i ddilyn, "Ac Efe a ddywedodd wrthynt, Awn i'r trefydd nesaf, fel y gallwyf bregethu yno hefyd; canys i hyny y daethum i allan." "A'r Iesu a aeth allan o amgylch Galilea gan ddysgu yn eu synagogau, a phregethu efengyl y deyrnas." I hyn hefyd "Efe a ordeiniodd ddeuddeg fel y byddent gydag ef, ac fel y danfonai efe hwynt i bregethu." "Crist," meddai Paul, "a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl." Trwy bregethu darfu Ioan barotoi ffordd yr Arglwydd, a gwneyd yn uniawn ei lwybrau ef; a thrwy bregethu darfu yr Apostolion "fwrw cestyll a dychymygion i lawr, a phob uchder a'r sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, gan gaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist." Trwy bregethu y cyflawnir addewid yr Arglwydd Iesu tuag at y byd trwy'r oesoedd hyd y diwedd. "A'r efengyl hon am y deyrnas a bregethir trwy'r holl fyd, er tystiolaeth i'r holl genedloedd; ac yna y daw y diwedd." Trwy bregethu darfu Whitfield a Wesley gyffroi yr eglwysi yn Lloegr a'r byd, a throi miloedd "o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw." Trwy bregethu sefydlwyd ein Cyfundeb, a pha beth bynag yw ein dylanwad fel Corff crefyddol heddyw yn Nghymru yr ydym yn ddyledus am hyny, dan fendith Duw, i bregethu. Pregethwyr oedd Howell Harris, Daniel Rowlands, Ebenezer Morris, Ebenezer Richards, John Elias, a llawer eraill. Ac y mae y Cyfundeb yn parhau i chwanegu nerth, ac i gynnyddu mewn rhifedi, oblegid y lle mawr sydd yn cael ei roddi i bregethu yn ein plith. A'r gweinidog mwyaf poblogaidd yn Lloegr y dydd hwn, pregethwr ydyw. Pregethu y mae Spurgeon.

I bregethu, anghenrhaid yw i chwi *ddarllen a myfyrio.* "Glŷn wrth

ddarllen," meddai Paul yr henafgwr wrth y gweinidog ieuanc Timotheus. Rhaid i chwi gael llyfrgell, ond nid un fawr yn nifer y cyfrolau, ond un fawr o lyfrau â meddwl, a bywyd a nerth ynddynt i gynnyrchu meddyliau, ac i ysbrydoli eich enaid. Myfyriwch yn y fath lyfrau, ac ynddynt aroswch. Darllenwch hwy yn drwyadl, meistrolwch hwynt gydag egni. Yn hanes bywyd y Parch. John Elias y dywedir, "Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ond yr oedd yn feddyliwr mwy. Yr oedd ganddo chwaeth i ddewis llyfrau, a barn i'w pwyso. Yr hyn a welai ynddynt yn syniad da, a phwysig, a drafodid ganddo yn ei feddwl nes ei wneyd yn eiddo cyfiawn iddo ei hun." Byddwch chwithau yn ddiwyd yn hyn o waith ar hyd ac i ddiwedd eich oes, ac yn efrydwyr mawr, yn feddylwyr dwys, yn enwedig yn y gyfrol sanctaidd, y llyfr digymhar, llyfr y llyfrau, llyfr Duw. Defnyddiwch bob llyfr fel cymhorth i wasanaethu y llyfr hwn. Mae llawer o wirionedd yn yr hyn a ddywedodd un hen flaenor pan oeddwn gydag ef yn nghanol ryw rif mawr o lyfrau, "Mae y Bibl yn taflu goleuni mawr ar y llyfrau hyn, ond ychydig mae'r llyfrau hyn yn ei daflu o oleuni ar y Bibl."

I bregethu, fe fydd gorfodaeth arnoch i *fyw* yn *feunyddiol* ar y *gwirioneddau* yr ydych yn eu pregethu. Mae yn anghenrheidiol "bwyta y llyfr" i bregethu y llyfr. Rhaid i chwi ymborthi ar sylweddau yr efengyl er mwyn eu harddangos yn effeithiol i'ch gwrandawyr, a bydd yr Ysgrythyr ddwyfol hefyd yn *luxury* i'ch eneidiau, yn gystal ag yn ddefnydd eich ymborth ysbrydol.

I bregethu rhaid *gweithio*. Nid segurwyr ond gweithwyr mae pregethu yn galw am dano. Codi yn fore, a myned yn hwyr i gysgu. Gweithio gyda'r eglwys, a thros yr eglwys, gweithio mewn gwneyd ymweliadau bugeiliol, gyda'r plant a'r bobl ieuainc. Mae y geiriau hyn o eiddo awdwr diweddar, "Men make work, and work make men," yn gymhwysiadol yn arbenig at weinidogion yr efengyl. Gweddïwch, anwyl frodyr, mewn amser ac allan o amser, gan gredu "na fydd eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd."

I bregethu rhaid *gweddïo;* a gweddïo llawer, gweddïo bob amser, gweddïo am destyn, gweddïo am oleu ar yr adnod neu'r paragraph, gweddïo am allu i bregethu'r testyn, gweddïo ar yr Ysbryd Glân i gymhwyso y bregeth i gydwybodau'r gwrandawyr. "Rhaid gweddïo yn wastad, ac heb ddiffygio." Ië, ymdrechu mewn gweddi, yn ol esiampl Elias,—"mewn gweddi efe a weddïodd." Yn ol pob hanes, gweddïwyr mawr oedd pregethwyr ein gwlad ni. Gweddïwr mawr oedd eich Meistr chwi a minnau. "Ac wedi iddo ollwng y torfeydd ymaith, efe a esgynodd i'r mynydd wrtho ei hun i weddïo; ac wedi ei hwyrhâu hi, yr oedd efe yno yn unig." "A bu yn y dyddiau hyny, fyned o hono allan i'r mynydd i weddïo, a pharhau ar hyd y nos yn gweddïo Duw." Yn awr yn nerth eich gweddïau, yn ngoleuni y llyfr, yn y mwynhâd o ffrwyth eich myfyrdodau, "Ewch" i bregethu'r EFENGYL. Nid i ddyfeisio efengyl, na beirniadu yr efengyl; gan deimlo fel yr Apostol, "*Gwae* fi oni phregethwyf *yr efengyl.*"

Pregethwch yr efengyl yn ei chyflawnder, fel "efengyl Duw," "efengyl Iesu Grist," "efengyl gras," "efengyl gogoniant Crist," "efengyl ein hiachawdwriaeth," "efengyl tangnefedd," "efengyl dragywyddol," "efengyl y cymmod," sef bod "Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." Yr efengyl sydd "yn codi y tlawd o'r llwch, ac yn dyrchafu yr anghenus o'r domen, i'w osod gyda phendefigion, ïe, gyda phendefigion ei bobl." Hon yw yr efengyl y gelwir chwi i'w phregethu.

"The preacher must have a Gospel. The age needs it as much as the most burdened of its predecessors. In the midst of all its pomps and triumphs it is heavy laden, craving for the rest of Jesus," felly dywedodd y *British Weekly*. Pregethwch Grist fel na fyddo anghenrhaid ar eich gwrandawyr i "wylo" fel Mair, ac i ddywedyd, "am ddwyn o honynt hwy fy Arglwydd i ymaith, ac nis gwn pa le y dodasant ef." Pregethwch Grist yn ei Berson, a'r athrawiaethau rhyfeddol a ddadguddiwyd ganddo; ei fywyd perffaith o ufudd-dod; ei ddyoddefiadau, a'i angeu iawnol; ei adgyfodiad oddiwrth y meirw; ei eisteddiad ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd. Pregethwch efengyl Crist, ac felly ni chollwch eich gwrandawyr; ni wagheir eich capelau. Mae defodau, seremonïau, cydganiadau, gwisgoedd offeiriadol, a *phrocessions* yn *attraction* i'r bobl yn y dyddiau hyn, ac yn dylanwadu ar y lliaws. Ond os taflwch chwi eich eneidiau i mewn i'r efengyl a'i phregethu, y bobl a gasglant ynghyd, ac "a wrandawant yn ewyllysgar." Dyma'r unig attyniad sydd â chyflawnder bendith ynglŷn âg ef. Pregethwch yr efengyl, hyny yw, *pob peth* yr efengyl; holl gynghor Duw, yn ei holl gynnwysiad; heb orchudd, heb len, heb gelu dim. Pregethwch yr efengyl heb guddio dim, heb chwanegu dim, heb wyro dim, na chymysgu â dim arall. Pregethwch yr efengyl yn yr hon mae cariad anfeidrol a chyflawnder perffaith yn cydblethu; heb un ymgais i wahanu y naill oddiwrth y llall; nac i'w gosod yn erbyn eu gilydd, o herwydd

"Mae priodoliaethau 'r Duwdod
Yma yn cael eu cyflawn le,
Ei gyflawnder a'i wirionedd
A'i sancteiddrwydd perffaith E';
Y mae cariad a thrugaredd
A doethineb yma ynghyd,
Yn cael hyfryd ymhyfrydu
Yn achubiaeth f' enaid drud."

"I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y gras hwn, i efengylu ymysg y Cenedloedd anchwiliadwy olud Crist." Y mae genych olud, ïe, "anchwiliadwy olud," i'w bregethu. Anchwiliadwy olud o faddeuant i'r penaf o bechaduriaid; anchwiliadwy olud o gyflawnder i gyflawnhau yr annuwiol; anchwiliadwy olud o waed i lanhâu y ffieiddiaf o ddynolryw; anchwiliadwy olud o ras i gadw yr hai sydd yn credu i fywyd tragywyddol. I bregethu pob peth yr efengyl, bydd yn rhaid i chwi bregethu yn erbyn pob pechod; ond nid yn ol cyfarwyddyd y Negro i un gweinidog, "Preach much of free grace, sir; but for goodness' sake touch lightly on the commandments." Ond y mae gras a gorchymyn yn un yn yr efengyl. Bydd raid pregethu yn erbyn pechodau yr oes, nid bryntni yr oes sydd wedi myned heibio, ond annuwioldeb yr oes bresennol. Bydd galwad, ysywaeth, arnoch i bregethu yn erbyn pechodau yr eglwys: "Llefa â'th geg, nac arbed; dyrchafa dy lais fel udgorn, a mynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodau i dŷ Jacob." Bydded pob un o honoch yn abl i ddyweyd fel Micah, "Yn ddiau llawn wyf o rym gan Ysbryd yr Arglwydd, ac o farn a nerth i ddangos ei anwiredd i Jacob, a'i bechod i Israel." Hefyd troseddau eich gwrandawyr, a chamweddau y dref y byddwch yn cartrefu ynddi, ac anghrediniaeth ac anffyddiaeth ein gwlad. Pregethwch yn eofn o'r pulpud: "Na thwyller chwi; ni chaiff na godinebwyr, nac eilunaddolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwrywgydwyr, na lladron, na chybyddion, na meddwon, etifeddu teyrnas Dduw."

Wel, fy mrodyr, "Ewch" i bregethu yr efengyl hon yn ei holl gwmpas, yn ei lled, ac yn ei hŷd, yn ei dyfnder ac yn ei huchder. Pregethwch yr efengyl, gan gwbl ddibynu ar yr Ysbryd Glân, gan gredu

mai hyn yw gair yr Arglwydd atoch chwi fel at Zorobabel, mai "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd," y bydd llwyddiant ar eich gweinidogaeth. "Nid yw yr hwn sydd yn planu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrhau, ond Duw yr hwn sydd yn rhoi y cynnydd." "Nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain, eithr ein digonedd ni sydd o Dduw." Rhaid i'ch gwrandawyr glywed genych y gwirioneddau ynglŷn â'r testyn, "Y neb a gredo ac a fedyddir, a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir." Hefyd, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol, a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef." Pregethwch wirioneddau mawrion yr efengyl, nid i ddangos athrylith, ac i gael canmoliaeth. Er mwyn eneidiau eich gwrandawyr a'ch eneidiau eich hunain, peidiwch gwneyd y pulpud yn chwareufwrdd i ennill enwogrwydd. Edrychwch yn sobr ar y perygl y mae eich gwrandawyr ynddo! Edrychwch! y maent ar y traeth, a'r llanw yn eu hamgylchynu. Edrychwch! mae'r tŷ ar dân, a'r bobl ynddo. "Gwybyddwch y bydd i'r hwn a drôdd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angeu, a chuddio lliaws o bechodau." Byddwch o hyn allan yn y swydd oruchel a gogoneddus o fod yn genadon dros Grist. Yn awr, ewch i bregethu yr efengyl i *chwi eich hunain*, "rhag, wedi pregethu i eraill, fod eich hunain yn anghymeradwy." Sefwch o flaen eich pregeth, gwrandewch, cymhwyswch y bregeth atoch chwi eich hunain. Gofynwch, A ydwyf fi fy hun wedi gweled gogoniant y pethau yr ydwyf yn eu pregethu? a ydwyf wedi teimlo y gwirioneddau yr ydwyf wedi eu hysgrifenu? wedi profi yn fy enaid fy hun flas y bregeth? a ydwyf yn ymarfer yn fy mywyd beunyddiol yr hyn yr wyf yn cymhell fy ngwrandawyr i'w gwneuthur? Holed pob un o honoch eich hunain yn ngoleuni eich pregethau. Ewch, frodyr ieuainc, yn ngoreuon eich dyddiau, yn nghyflawnder eich nerth corfforol, yn ngrym eich yni eneidiol, i wasanaethu yr Arglwydd Crist.

"Cysegrwch heddyw flodau 'ch hoes
I'r Hwn fu farw ar y groes;
Mae mwy o bleser yn ei waith
Na dim a tedd y ddaear faith."

"Ewch," a minnau gyda chwi, a pharhewch i bregethu "efengyl gogoniant y bendigedig Dduw;" yr hon a ymddiriedwyd i chwi, "nid mewn geiriau denu, o ddoethineb dynol, ond yn eglurhad yr Ysbryd a nerth." "Ewch" i brif leoedd y dyrfa, yn nrysau y pyrth, sefwch yn heolydd y ddinas, a gwahoddwch, "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ïe, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian ac heb werth." Dywedir am yr hybarch Ebenezer Richards, "y byddai yn aml yn myned at y llafurwyr yn y caeau o gwmpas Tregaron, ar adeg gorphwys ganol dydd, ac yn eu casglu ynghyd i'w holi a'u hyfforddi yn mhethau y Bibl."

"Ewch" fel "esgobion, gan fod yn ddiargyhoedd, fel goruchwylwyr Duw; nid yn ddigllawn, nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr elwa; eithr yn llettygar, yn caru daioni, yn sanctaidd; yn dymherus, yn dal yn lew y gair ffyddlawn." "Ewch" i ddysgu eich gwrandawyr "i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd šydd yr awrhon." "I rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ymhob doethineb, fel y cyflwynoch bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." "Ewch!" Pregethwyr â "myn'd" ynddynt sydd eisieu ar Gymru yn y dyddiau hyn. Pregethwyr ar dân. Pregethwyr w di eu bedyddio "â'r

Ysbryd Glân ac â thân." Dywedir am Ioan ei fod yn "ganwyll yn llosgi" —yn llosgi pechodau ei wrandawyr trwy ei weinidogaeth. Byddwch chwithau fel yntau, ac fel tywysogion Judah, y rhai oeddynt fel aelwyd o dân yn y coed, ac fel ffagl dân mewn ysgub o wellt, i ysu ar y llaw ddehau ac ar yr aswy "anwireddau y bobl." Fel y dywedodd Spurgeon am John McNeil, "Wherever he goes he burns his way, and leaves a trail of fire behind him." "Ewch," yn iaith y pennillion, gan gredu

> "Nid y bregeth or-flodeuog
> Bortha enaid gwir newynog:
> Nid oes sylwedd yn y blodau
> I roi ymborth i eneidiau;
> Pregeth eglur, ysgrythyrol,
> Gyda dylanwadau nefol,
> Hon i enaid rydd fywioliaeth,
> Hon a haedda gymeradwyaeth."

Yn ddiweddaf oll, "Ewch," frodyr ieuainc, "a Duw pob gras, yr hwn a'ch galwodd i'w dragywyddol ogoniant trwy Grist Iesu, wedi i chwi ddyoddef ychydig, a'ch perffeithio chwi, a'ch cadarnhäo, a'ch sefydlo." "Bendithied yr Arglwydd chwi. A llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnoch, a thrugarhäed wrthych. Dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnoch, a rhodded i chwi dangnefedd." Ac iddo Ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

MR. DAVID DAVIES, LLANDINAM.

Gan y Parch. D. LLOYD JONES, M.A., *Llandinam.*

PENNOD II.

Y MAE addysg yn cael sylw neillduol yn ein hoes ni, a diau y gellir dyrchafu llawer ar y ddynoliaeth trwyddi, ond nis gellir creu ŷni meddyliol mewn enaid sydd yn amddifad o hono, mwy nag y gellir creu sylwedd, neu ŷni anianyddol, allan o ddim. Y cwbl a ellir ei wneyd yw caethiwo yr ŷni o fewn terfynau fel na byddo iddo ymwasgaru, a'i orfodi i redeg i ryw gyfeiriadau penodol, a pheri iddo weithredu â'i holl rym ar un peth, a thrwy hyn gynnyrchu effeithiau a fyddont yn tueddu i fod o ryw wasanaeth i ddyn. Gall addysg ddysgyblu cynneddfau yr enaid a'u dwyn i weithredu gyda rheoleidd-dra a dyfalbarhad, a thrwy hyn i raddau eu cryfhau, ond nis gall gynnyrchu canfyddiad cyflym, meddwl gafaelgar, ac amgyffrediad eang. Y mae y rhai hyn yn ansoddau meddyliol yn perthyn yn gynhenid i gyfansoddiad eneidiau dynion athrylithgar. Gall dyn sydd yn feddiannol arnynt, er bod yn amddifad o addysg foreuol, dra rhagori ar y rhai sydd hebddynt mewn ychydig flynyddoedd, er i'r rhai diweddaf gael pob mantais allanol i ennill yn yr ymdrechfa. Nis gall manteision addysgawl *eu creu*, na diffyg y cyfryw fanteision gadw y rhai sydd yn eu meddu i lawr ar yr un tir a dynion cyffredin. Gosoder hwy yn y safle a fyner, y maent yn rhwym yn ol natur pethau o ymddyrchafu. Yn ei anerchiad o flaen y cynnulliad gwyddonol Prydeinig y flwyddyn hon, rhydd Syr Frederick Abel ddesgrifiad byr ond tra chynnwysfawr o esgyniad cyflym un o'r dynion meddylgar hyn. "Isaac Milner, gwehydd a rhifofydd, wedi hyny, Senior Wrangler (yr Herlwr Hynaf), Smith's Prizeman, Jacksonian Professor, Llywydd Athrofa y Frenines, Is-ganghellydd Prifysgol Deon Carlisle, a Chymrawd tra enwog o'r Gymdeithas Freninol." Meddai Isaac Milner feddwl mor graff, cyflym, ac egnïol, fel y dringodd i fyny mewn ychydig amser o safle gwehydd i'r safle uchaf mewn gwybodaeth am ddeddfau meintoniaeth yn y deyrnas. Y mae rhai dynion yn meddu ar gyfaddasder meddyliol i ragori, a dylai pob cyfundrefn o addysg genedlaethol gynnwys yr hyn a eilw y Professor Huxley yn drefniant i ddal dynion o gymhwysderau neillduol *(capacity catchers)*, er mwyn sicrhau eu gwasaeth i gymdeithas.

Dyn oedd Mr. Davies yn gwbl ar ei ben ei hun o ran ei gymhwysderau meddyliol i drafod anturiaethau mawrion masnachol. Nid oedd yr amgylchiadau ymha rai y dygwyd ef i fyny ynddynt mewn un modd yn rhoddi esboniad boddhaol i ni ar achosion ei lwyddiant. Yn y flwydd-

yn 1848 yr oedd yn byw mewn ffarm o'r enw Ty'nymaen, ar yr ochr ddwyreiniol i ddyffryn Llandinam, i ba un y symudasai i fyw o'r Neuadd fach. Y pryd hwn y cylchoedd o fewn pa rai yr oedd yn cael *scope* i'w ŷni meddyliol oedd amaethyddiaeth a masnach. Credwn mai y ddiweddaf oedd yn dwyn mwyaf o ennill iddo, ond dangosodd ymlyniad mawr wrth y gyntaf, oblegid ymhen dwy flynedd, sef yn 1850, cymerodd ffarm arall lawer mwy o'r enw Gwernerin, yr hon sydd yn gorwedd ar ochr orllewinol y dyffryn, wrth ochr y bryn a elwir Cefn Carnedd. Yr oedd pen y bryn hwn yn cael ei orchuddio gynt gan hen amddiffynfeydd Prydeinig, ac y mae olion yr hen warchgloddiau a'r ffosydd yn ei amgylchynu yn awr. Arferai yr hen Brydeiniaid wneyd amddiffynfeydd o bridd, neu wersylloedd o geryg rhyddion, ar benau bryniau uchel, fel noddfeydd canolog a chyfleus i ba un y gallent hwy, eu gwragedd, a'u plant, ymneillduo pan fyddai y wlad yn cael ei goresgyn gan elynion. Yr oeddynt yn dra hoff o wneyd hyn yn agos i rydleoedd afonydd trwy ba rai yr arferent dramwy. Diau mai amddiffynfa fawr oedd yma, oblegid y mae olion pedair neu bump o ffosydd a gwerthyrau ar yr ystlys ogledd-orllewinol i'r bryn, ac y mae'r filwrfa hirgron hon yn 650 o latheni o hyd wrth 250 o led; ond nid oes dim o'r coed a'r basgwaith a safai unwaith ar ben y cloddiau pridd hyn yn awr yn aros. Dywed Tacitus i Caradog ddewis gwlad y Gordofigion, neu Ogledd Cymru, i wrthwynebu byddin Ostorius. Tybia rhai mai yma y cymerodd y frwydr rhyngddynt le, pryd y dadleua eraill dros Coxwell Knoll, ar derfyn Sir Henffordd, a'r lleill dros Fryn Breiddyn ar gŵr Sir Amwythig, fel maes yr ymladdfa. Yr oedd holl dueddfryd meddwl Mr. Davies yn rhedeg yn nghyfeiriad yr hyn oedd ymarferol, ac ni ddarfu i'r olion hyn erioed, hyd y gwyddom ni, gyffroi ei chwilfrydedd; ond pe buasai yn byw o 41 i 54 o.c., dan deyrnasiad yr ymerawdwr Claudius, diau genym y buasai ei ŷni a'i wroldeb yn ei wneyd ef yn un o'r rhai mwyaf egnïol ymysg ei gydwladwyr i godi ac amddiffyn yr hen warchgloddiau hyn. Nid oedd ganddo ef, pa fodd bynag, amser na thueddfryd i fyfyrio uwch ben olion gweithredoedd dynion arwrol gynt, gan mor llwyr yr oedd ei feddwl wedi ei lyncu gan y dymuniad i gyflawni gweithredoedd arwrol ei hunan. Gwneyd ffyrdd a marchnadoedd, codi pontydd, ac adeiladu rheilffyrdd i fod o wasanaeth i wlad heddychlawn mewn cyfnod llwyddiannus ar fasnach, oedd ei waith ef. Hyn a sugnai ei feddylfryd, ac i ddwyn oddiamgylch y pethau hyn y rhoddai lawn nerth ei feddwl ar waith. Pan yr oedd yn brysur wrth y gwaith o wneyd ffyrdd a phontydd yn ei sir enedigol, arweiniwyd ef gan ei orchwylion i ardal ger Llanfaircaereinion, lle y trigai Mr. Edward Jones, y Wern. Daeth yn gydnabyddus âg aelodau y teulu hwn, ac yn enwedig â'r ferch ieuengaf, Miss Margaret Jones, chwaer y Parch. Evan Jones, yn awr o Brynhafren, ac Edward Jones, Glanbano. Arweiniodd y gydnabyddiaeth hon i ymlyniad serchog, yr hwn a goronwyd yn bur fuan gan undeb priodasol. Unwyd hwy mewn glân briodas gan y Parch. Richard Jones, yn Nghapel Llanfaircaereinion, fis Mai, 1851. Gan fod Mrs. Davies yn awr yn ein mysg, nid gweddaidd a fyddai traethu llawer am ei rhagoriaethau, ond byddai yn anesgusodol ynom i beidio gwneyd yn hysbys y ffaith, na ddarfu i undeb priodasol erioed arwain i ganlyniadau mwy hapus. Cafodd Mr. Davies ynddi "ymgeledd gymhwys" yn llawn ystyr y gair. Y mae ei holl fywyd yn ymdrech gyson i weithredu yn ol y cyfarwyddyd Ysgrythyrol, "Yr un ffunud bydded y gwragedd yn ostyngedig i'w gŵr priod; fel od oes rhai heb gredu i'r gair, y galler trwy ymarweddiad y gwragedd eu hennill hwy heb y gair, wrth edrych ar eich ymarweddiad diwair chwi ynghyd ag ofn. Trwsiad y rhai bydded, nid yr un oddiallan, o blethiad gwallt, ac amgylch osodiad aur, neu wisgiad dillad; eithr bydded cuddiedig ddyn y galon, mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr." Yn ychwanegol at y rhinweddau gwerthfawr hyn, y noddwedd fwyaf arbenig yn nghymeriad Mrs. Davies o foreu ei hoes hyd yn awr yw ei hysbryd haelionus at achos crefydd. Perthynai hyn iddi cyn iddi

dd'od i gydnabyddiaeth â Mr. Davies, ac y mae'r teimlad hwn wedi parhau i'w llywodraethu yn rymus ar hyd ei hoes. Er mor rymus oedd teimladau dyngarol ei phriod, ni buasai yn ddichonadwy iddo barhau i gyfranu mor dywysogaidd at y fath lïosogrwydd o achosion daionus, oni buasai am y gefnogaeth gref a chynhes a gawsai i wneyd hyny ar yr aelwyd gartref. Yr oedd ffynnon gref o deimlad haelfrydig yn nghalon pob un o'r ddau, ac nid rhyfedd, wedi i'r ffrydiau ymuno â'u gilydd, iddynt gynnyrchu afon ddofn a llydan a edmygid gan bawb. Ymwasgarodd ei dyfroedd ymhob cyfeiriad, gan roddi adnewyddiad nerth i lawer "achos gwywedig."

CYFNOD Y RHEILFFYRDD.

Hyd amser ei ymsefydliad yn Gwernerin a dechrenad ei fywyd priodasol, y meusydd yr oedd wedi bod yn cael lle i'w ŷni i weithredu ynddynt oedd amaethyddiaeth, y gwaith o ddarparu coed yn estyll a'u gwerthu, ac yn ddiweddarach gwneyd ffyrdd a phontydd, y rhai a gymerai yn *gontracts* gan yr Arolygwr Sirol, Mr. Penson; ond tua'r amser hwn agorodd maes newydd o'i flaen. Clywodd fod Cwmni yn bwriadu gwneyd rheilffordd o Lanidloes i'r Drefnewydd, ac mai eu cynllun oedd ei gosod allan yn *gontracts* bychain. Gan ei fod wedi cael profiad wrth wneyd ffyrdd a phontydd, a chan ei fod yn amaethwr ar raddfa lled eang, ac yn meddu ar gorff cadarn a gwroldeb ac ŷni dihafal, teimlai awydd i ymgymeryd â'r holl anturiaeth fawr ei hunan. Cerddodd lawer gwaith trosodd ar hyd y tir dros ba un yr oedd y llinell i gael ei gwneyd, cyfrifodd y draul, ymgymerodd â'r gwaith, cwblhaodd ef, a llwyddodd i foddhau y Cwmni, a gwneyd elw sylweddol iddo ei hunan am ei lafur. Nid oedd yr un rheilffordd y pryd hwnw yn y rhan hon o Gymru, ac yr oedd amryw bethau yn gwneyd y gwaith hwn o eiddo Mr. Davies yn orchestwaith nas gallasai neb ond dyn uwchlaw y cyffredin mewn crafftder, medrusrwydd ac ŷni ei gyflawni. Y mae hŷd y rheilffordd hon yn 13 milldir. Cludwyd y defnyddiau tuag ati ar hyd y gamlas i'r Drefnewydd, oblegid nid oedd yr un rheilffordd yn cyrhaedd i un man nês i'r rhan hon o Gymru y pryd hwnw na Chroesoswallt, ac y mae y pellder yno yn 36 milldir. Ond wedi i'r *rails* gael eu gosod i lawr, nid oedd yn ddichonadwy d'od â'r pedair *engine* a'r cerbydau oedd i redeg ar hyd-ddi ar hyd y gamlas, ac felly bu raid eu dwyn ar feni (*waggons*) mawr wedi eu hadeiladu o bwrpas i'r perwyl hwn, ar hyd y ffordd fawr o Groesoswallt.

Torwyd y dywarchen gyntaf o'r tir ar lanerch ger Llanidloes gan W. H. Whalley, Ysw., ac olwynwyd y llwyth berfa cyntaf o'r pridd gan Mr. David Davies, yn mhresennoldeb oddeutu 10,000 o bobl, ar y 3ydd o Hydref, 1855. Wedi i gyfran helaeth o'r gwaith gael ei wneyd, bu yn rhaid i'r *contractor* ei adael heb ei orphen a myned at reilffordd arall, am nad oedd gan y Cwmni ar y pryd ddigon o adnoddau arianol i gario y gwaith ymlaen. Pa fodd bynag, mewn amser goresgynwyd yr holl anhawsderau, gorphenwyd y llinell, ac agorwyd hi. Cymerodd hyn le ar y dydd diweddaf (31ain) o Awst, 1859. Arferai Mr. Davies ymddwyn yn dra haelionus ar y cyfryw amgylchiadau, ac felly y tro hwn. Darparodd wledd ar y maes agored yn Llandinam i'r gweithwyr a thrigolion y wlad oddiamgylch, ac yr oedd yn bresennol yn cyfranogi o'r danteithion oddeutu mil o bersonau. Cymerodd trigolion y Dyffryn hefyd fantais ar yr amgylchiad i ddangos eu gwerthfawrogiad o'i lafur egnïol yntau trwy gyflwyno iddo ddysgl arian hardd (*silver salver*), ar yr hon y mae yn gerfiedig y geiriau a ganlyn:—

Cyflwynwyd
Y ddysgl arian hon, ynghyd a basged arian, i
David Davies, Ysw.,
Gan drigolion y parth hwnw o'r wlad, trwy yr hwn y mae Rheilffordd Llanidloes a'r Drefnewydd yn rhedeg, fel arwydd o'u cymeradwyaeth o'r *dull egnïol* ymha un y darfu iddo ef a
Mr. Savin
Adeiladu y llinell o reilffordd.
Medi 1af, 1859.

Gan mai hon oedd yr anturiaeth fawr gyntaf a gymerodd mewn llaw, a fod prif nodweddion ei gymeriad wedi d'od i'r golwg yn amlwg wrth ei gweithio allan, sef canfyddiad cyf-

lym, barn gywir, ỳni dihysbydd, gwroldeb mawr, a chalon haelionus, yr ydym wedi rhoddi lle arbenig iddo yn yr amlinelliad hwn o'i fywyd. Cofier nad oedd ond un reilffordd wedi ei gwneyd o'r blaen yn holl Ogledd Cymru.

Y mae dwy hen ddiareb ag y mae bywyd Mr. Davies yn wrthdystiad yn eu herbyn. Y gyntaf yw, "Os mynwch lywodraethu y byd yn dawel rhaid i chwi ei gadw yn llawn o ddifyrwch;" a'r llall, "Os mynwch lwyddo rhaid i chwi beidio bod yn rhy dda." Profodd ef mai y ffordd i gadw dynion yn dawel yw eu cadw yn llawn gwaith, ac mai yr unig ffordd i gyrhaedd gwir lwyddiant yw trwy gadw gorchymynion Duw.

YR ACHOSION SEISONIG YN NGOGLEDD CYMRU.

Gan R. Williams, Ysw., F.H.S., *Drefnewydd.*

(A gyhoeddir yn ol penderfyniad y Gymdeithasfa.)

Y mae Adroddiad y Gronfa Seisonig am 1889 sydd ger ein bron yn dwyn ar gof i ni fod y symudiad pwysig hwn bron wedi cwblhau ei faboed. Y mae bellach ugain mlynedd er pan ddechreuwyd ffurfio Cronfa flynyddol er sefydlu a chynnorthwyo eglwysi a chenadaeth Seisonig mewn cysylltiad â Methodistiaid Calfinaidd Gogledd Cymru. Wrth daflu golwg yn ol dros yr ysbaid hwn y mae genym lawer o achos i ddiolch a chymeryd cysur. Collwyd amryw frodyr anwyl, mae'n wir, a fu am flynyddau yn dwyn pwys y dydd a'r gwres; ond os yw yr Arglwydd yn claddu ambell i weithiwr, y mae yn dal i gario ymlaen ei waith. Gormod fuasai dysgwyl llwyddiant diball a difwlch. Os cafwyd rhai siomedigaethau, os parodd neilldual ambell i Reuben dipyn o ofal calon ar brydiau, ac os clwyfwyd yr achos rai troiau yn nhŷ ei garedigion, er hyn i gyd cysurwyd a chalonogwyd y Cyfeisteddfod gan brofion amlwg fod yr Arglwydd yn arddel mewn modd arbenig y rhan yma o'i waith.

Fe welir hyn wrth gymharu y Gronfa a'i gweithrediadau yn ei blynyddau boreuaf â'r hyn ydynt yn awr. Nid yw'r Adroddiad cyntaf wrth law, ond bymtheng mlynedd yn ol, sef yn 1874, swm y derbyniadau oedd £523 1s. 9½c.; yn 1889 cyrhaeddasant £1022 1s. 1c. Yn 1874 talwyd mewn *grants* i naw o eglwysi, £357 6s. 5c.; yn 1889, cynnorthwywyd un ar ddeg ar hugain o eglwysi â £1287 13s. 4c. Yn y cyfamser sefydlwyd achosion mewn oddeutu ugain o leoedd newyddion, y mwyafrif o ba rai sydd wedi bod yn dra llwyddiannus. Yn eu plith gallem enwi Llandudno, Wyddgrug, Caergybi, Pwllheli a Threffynnon.

Un o'r pethau pwysicaf a fu dan sylw Cyfeisteddfodau Cymdeithasfa'r Bala a Chymanfa Gyffredinol Liverpool eleni ydoedd nifer dirfawr esgeuluswyr moddion gras a chynnydd llygredigaethau yn ein trefydd Cymreig. Dywedid fod deng mil thriugain, sef dros hanner y boblog aeth yn Nghaerdydd, yn esgeuluswyr; ac y mae lle i ofni fod yr un peth yn wir, yn ol y boblogaeth, am lawer eraill o drefydd Cymru. Ai tybed fod Cymru, gwlad y breintiau mawr, eto yn ymsuddo i Baganiaeth? "Ennill yr esgeuluswyr hyn ac ysgubo i fyny aflendid ein trefydd," yn iaith yr Adroddiad, "ydyw amcan penaf y symudiad Saesoneg, ac nid mewn un modd darparu ar gyfer Saeson cyfoethog ein gwlad, ys dywedir gan rai gyda llawer o anwybodaeth am ei wir amcan a'r gwaith a wneir drwyddo." Pa un bynag ai er gwell neu er gwaeth y mae hyny, ffaith nas gellir ei hanwybyddu yw fod Saeson, Saesoneg a dulliau ac arferion Seisonig, yn dylifo fel llifeiriant tros Gymru. Os myn y Methodistiaid gadw ar y blaen fel y maent wedi gwneyd hyd yn hyn yn Nghymru, nid oes dim sy'n fwy amlwg nag y rhaid iddynt ymroi ati o ddifrif i ddarparu ar gyfer y chwyldroad dystaw hwn sy'n cymeryd lle yn ein gwlad. Ac er nad ydynt hwyrach wedi bod lawn mor effro gyda hyn ag y dylasent fod, dengys yr ystadegau a gyflwynir o flwyddyn i flwyddyn i'r Gymanfa Gyffredinol eu bod wedi ac yn gwneyd ymdrechion canmoladwy yn Nê a Gogledd Cymru. Fel engraifft nodedig o'r hyn a ellir ei wneyd, cofnodir yr hyn a wnaed yn y Wyddgrug o fewn y tair blynedp diweddaf: "Yr oedd yn addefedig yn y Wyddgrug 1200 o esgeuluswyr.

Cymerwyd y Town Hall am ardreth o bunt y Sabboth, a sicrhawyd y gweinidogion goreu yno am rai misoedd er cyffroi a denu yr esgeuluswyr i wrando. Rhanwyd y dref dan ofal chwïorydd crefyddol a zelog, y rhai a ymwelent yn wythnosol hyd y byddai modd â phob person a theulu esgeulusedig yn y dref i'w cymhell i ddyfod i wrando ac i'r Ysgol Sul. Y canlyniad i hyn oll ydyw fod o 300 i 500 yn gwrando yr efengyl yno bob Sabboth, a thua 250 yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol."

Gellir casglu oddiwrth hyn 'od cryn draul yn ofynol, weithiau am rai blynyddau, gyda sefydliad achos newydd. Tra y dangosir cymaint o haelioni a brwdfrydedd gyda Jubili y Genadaeth Dramor, gresyn fyddai esgeuluso symudiad cartrefol mor bwysig â hwn. Cydnabyddir fod yr Eglwysi Seisonig eu hunain yn gosod esiampl ragorol o haelioni. Dywed Adroddiad y Gymanfa Gyffredinol fod eu casgliadau at y weinidogaeth ar gyfartaledd yn bunt ar gyfer pob aelod eglwysig, tra nad ydynt yn yr holl eglwysi, Cymreig a Seisonig, ond 11s. 5c.; ac y mae eu casgliadau at bob achos yn £2 7s. 2c. ar gyfartaledd ar gyfer pob aelod, tra nad ydynt ond £1 7s. 1½c. ar gyfer pob aelod yn yr holl eglwysi, Cymreig a Seisonig, ac ar gyfer pob aelod yn yr eglwysi Cymreig yn unig yn £1 5s. 3c. Gwelir eu bod fel hyn yn dwyn ffrwyth da. Y maent hefyd yn ymeangu. A chymeryd y De a'r Gogledd gyda'u gilydd, nifer presennol holl eglwysi Seisonig y Cyfundeb yw 190 (cynnydd y llynedd o chwech); capeli, 201 (cynnydd, tri); aelodau, 11,440 (cynnydd, 730); gwrandawyr, 36,116 (cynnydd, 2030); casgliadau at y weinidogaeth, £11,508 (cynnydd, £119); ac at bob achosion, £27,263 (cynnydd, £1043).

Y mae'r Cynnadleddau Seisonig blynyddol wedi gwneyd gwasanaeth gwerthfawr i godi yr adran yma o waith y Cyfundeb i olwg y wlad, ac i ddyfnhau ysbryd cyfundebol yr eglwysi Seisonig, yn gystal a dwyseiddio eu bywyd crefyddol a'u symbylu i ymroddiad adnewyddol gyda gwaith yr Arglwydd. Ond y mae eto eisieu mwy o zel, ac hefyd fwy o undeb a chydweithrediad rhwng De a Gogledd mewn darparu gwasanaeth Seisonig lle mae mawr anghen am hyny, yn gystal a mabwysiadu moddion arbenig i feithrin brwdfrydedd at waith cenadol cartrefol. Annogwyd yn y Bala ar fod i'r eglwysi wahodd brawd neu frodyr i gynnal gwasanaeth cenadol arbenig *(mission)*, er mwyn cael gafael ar y boblogaeth esgeulusedig a'u dwyn dan ddylanwad yr efengyl; a chafwyd engreifftiau o lwyddiant neillduol yn dilyn y fath ymdrechion.

Y mae'r *Grants* a'r treuliadau eraill yn cynnyddu o flwyddyn i flwyddyn, fel y maent yn rhwym o wneyd fel y mae meusydd newyddion yn cael eu meddiannu; ond drwg genym weled nad yw haelioni y siroedd yn cynnyddu yn gyfatebol. Yn wir dengys rhai o honynt, sydd wedi bod yn nodedig am eu ffyddlondeb o'r dechreu, ychydig o leihad yn eu casgliadau. Yn Ngorllewin Meirionydd ceir lleihad o £25; yn Liverpool, £14; ac yn Nhrefaldwyn Uchaf, £9. Mae hyn yn fater sy'n gofyn sylw difrifol, a hyny yn ddioedi, onidê fe ddyoddefa amryw o'r eglwysi Seisonig mwyaf addawol. Er pan gyflwynwyd yr Adroddiad i'r Gymdeithasfa, collodd y Gronfa un o'i phrif gynnalwyr trwy farwolaeth y diweddar David Davies, Ysw., o Landinam. Coded yr Arglwydd eto rai o gyffelyb ysbryd âg ef o blith cyfoethogion ein gwlad!

Er mwyn rhoddi gwybodaeth eangach a chywirach i'n cynnulleidfaoedd am yr holl symudiad Seisonig, trefnwyd yn y Bala fod brawd yn cael ei anfon yn flynyddol i ymweled â phob Cyfarfod Misol a Henaduriaeth, ac â rhai o'r prif eglwysi, i osod yr achos hwn ger bron, ac i weled fod trefniadau priodol ynglŷn âg ef yn perthyn iddynt. Enwyd pedwar ar ddeg o frodyr i wneyd yr ymweliad hwn eleni.

Yn yr amser a aeth heibio y mae'r Methodistiaid wedi dangos y medrant ddeall arwyddion yr amserau, a chyfaddasu eu trefniadau i amgylchiadau cyfnewidiol yr oes. I hyn yn ddiau y rhaid priodoli, i fesur mawr, eu safle uchel yn Nghymru. A oes yn y Cyfundeb ddigon o yni a nerth i'w gario yn ddiogel trwy y cyfwng peryglus presennol—cyfwng graddol newidiad iaith y genedl? Hir, meddwn o galon, y parhao yr heniaith Gymraeg; ond y mae iachawdwriaeth eneidiau o fwy

pwys na'r iaith a siaradwn. Bydded i ni, gan hyny, fel corff o bobl, symud gyda'r achos pwysig hwn, os yn arafaidd a phwyllog yn ol ein harfer, eto yn egniol a phenderfynol. Felly yn unig y cyflawnwn yr ymddiriedaeth bwysig a osododd Duw ar ysgwyddau ein tadau ac a etifeddwyd genym ninnau, ac y llwyddwn i gadw a theilyngu'r flaenoriaeth ymhlith enwadau crefyddol Cymru.

NODWEDDION PAUL FEL DYN, CRISTION, A PHREGETHWR.

(*Parhad o tu dal.* 258.)

PENNOD III.

III. Paul fel Pregethwr.

Y mae yr apostol yn hawlio lle uchel dan y penawd hwn ar ei gymeriad. Sylwasom fod yr ystyriaeth o'i fod yn Gristion mor ddysglaer yn goron arno fel dyn. Drachefn gellir dyweyd fod ei sefyllfa fel Pregethwr yn anrhydedd arno fel dyn ac fel Cristion. Nid oes un ammheuaeth nad efe oedd y pregethwr enwocaf a fu ar y ddaear erioed, ac y mae yn bur debyg na welir eto yr un tebyg iddo. Y mae amryw bethau y gellir edrych arnynt fel yn gwneyd i fyny ei neillduolrwydd arbenig fel pregethwr. Yn un peth yr oedd wedi ei alw mewn modd neilldiol i'w swydd. Mae yr ystyriaeth hon yn meddu lle pwysig iawn bob amser yn y cysylltiad yma. Nid oes dim mor druenus a chwithig i feddwl am dano ag ydyw fod dyn yn gosod ei hun mewn swydd ag y mae i ymwneyd rhwng Duw a dynion, heb fod Duw ei hun wedi ei benodi. Yr ydym yn cael profion o hyn yn yr Hen Destament. O'r ochr arall, nid oes dim yn gosod mwy o anrhydedd ac urddas ar ddyn ag ydyw y cyfryw swydd, os wedi ei benodi gan Dduw iddi. Un o'r cyfryw ydoedd yr apostol Paul; fe ddaeth yr Arglwydd Iesu i lawr o'r nef yn bersonol i roddi galwad iddo. Yr oedd Paul hefyd wedi ei alw at waith neilldiol—fe roddwyd maes arbenig o'i flaen: "Dos ymaith, canys myfi a'th anfonaf ymhell at y Cenedloedd." Dyma y rhai yr oedd ef i ddwyn enw yr Arglwydd ger eu bron, ac i sefydlu crefydd Crist yn eu mysg. Sylwn yn awr ar rai o nodweddion Paul fel Pregethwr.

1. *Ei ymgysegriad llwyr i'w waith.* Mae yn dechreu ar unwaith, "ac yn ebrwydd yn y synagogau, efe a bregethodd Grist." Beth tybed a ddaeth o'r llythyrau oedd wedi ei gael oddiwrth yr archoffeiriad? Pregethu Crist oedd ei waith yn y synagogau, ac nid carcharu y dysgyblion. Mae yn dechreu ar ei waith yn "ebrwydd," heb golli dim amser; teimlai fod gormod o amser wedi ei golli o'r blaen. Wedi gweled ei gamsyniad teimlai fod anghenrhaid wedi ei osod arno, ac mai gwae ef oni phregethai yr efengyl. Nid peth bach oedd dechreu ar unwaith i amddiffyn achos yr oedd pawb yn gwybod ei fod ychydig amser yn ol yn amcanu ei ddyfetha. Mae yr apostol am i'r cyfnewidiad yn ei hanes fod yn eglur a digamsyniol. Mae achos gwirionedd yn bwysicach yn ei feddwl na dim oedd yn perthyn yn bersonol iddo ef. Nid dechreu yn frwd a diffodd a ddarfu iddo ychwaith, eithr "efe a gynnyddodd i fwyfwy o nerth." Nid pawb fedr ddechreu yn gryf a chynnyddu drachefn, ond gwnaeth Paul hyny. Dibynai ar yr Arglwydd am nerth, ac ni siomwyd ef. Yr oedd yr apostol yn barod i "dreulio ac ymdreulio" dros eneidiau; yr oedd yn barod nid yn unig i roddi ei eiddo, ond ei hunan hefyd, ei nerth a'i fywyd: "Ni a welsom yn dda gyfranu â chwi, nid yn unig efengyl Duw, ond ein heneidiau ein hunain hefyd, am eich bod yn anwyl genym."

2. *Ei wybodaeth a'i hyawdledd fel Pregethwr.* Yr oedd yn deall Iuddewiaeth Judea ac athroniaeth Groeg, ac yn meddu gwybodaeth eang ac eglur o ddirgelion efengyl Crist. Dynion diddysg mewn cymhariaeth oedd yr un apostol ar ddeg; nid oeddynt wedi cael manteision addysg yn eu dyddiau boreuol, a chyfrifid Galilea eu gwlad enedigol fel yn neilldiol am ei hanwybodaeth. Ond yr oedd Paul yn hyn yn gwahaniaethu. Fel y sylwyd, dygwyd ef i fyny mewn dinas enwog yn nghanol manteision i gasglu gwybodaeth. Mae yn ddiau fod a fyno y wybodaeth hon i raddau er ei wneuthur yr hyn ydoedd fel Pregethwr; fe'i sancteiddiwyd trwy y tywalltiad a gafodd o'r Yspryd Glan. Cyn dechreu ar ei waith yr ydym yn

cael iddo ymneillduo, fel Moses gynt, i Arabia, er mwyn cael hamdden i fyfyrio ar drefn yr efengyl, yr hon a ddadguddiwyd iddo gan Dduw, ac y mae yn bur debygol mai yma y tywynodd gwirioneddau mawrion yr efengyl i'w feddwl. Ganddo ef yr ydym yn cael gwirioneddau mawrion yr efengyl yn cael eu gweithio allan; yr oedd wedi cael ei ddonio uwchlaw ei frodyr i gyfleu dyfnion bethau Duw i'r byd. Nis gellir darllen ei epistolau heb deimlo dyfnder a threiddgarwch ei wybodaeth o drefn gras. Pe y meddylir am ei epistol at y Rhufeiniaid, y mae yr athrawiaethau a ddysgir ganddo yn uchel a dirgeledig; ac yn y pennodau cyntaf o'i epistol at yr Ephesiaid, y mae yn gollwng ei ddarllenwyr i mewn megys i gyfrinach yr Anfeidrol yn nhrefn yr efengyl. Yr oedd Paul yn bregethwr hyawdl hefyd. Yr oedd trigolion Lystra yn barod i'w gamgymeryd am y duw Mercurius, yr hwn yn ol eu syniad hwy oedd duw dysg a hyawdledd. Yr oedd neillduolrwydd yn y geiriau a ddefnyddid ganddo er gosod allan ei syniadau; maent bob amser o'r ystyr mwyaf grymus, ac yn cael eu pentyru ar eu gilydd. Nis gellir darllen y 15fed bennod o'r epistol cyntaf at y Corinthiaid, er esiampl, heb deimlo fod yr apostol ynddi yn ymddyrchafu i yni a gwres a hyawdledd tu hwnt i'r cyffredin, a bod ei holl natur dan ddylanwad y gwirioneddau gogoneddus a ddysgir ganddo ynddi. Yr oedd Paul yn ddigon o bregethwr i sefyll yn nghanol Areopagus Athen, ac y mae yr araeth a draddododd yn y lle pwysig hwn wedi tynu sylw y beirniaid galluocaf fel un o'r cynlluniau perffeithiaf o hyawdledd cysegredig. Y mae yn arddangos drwyddi yr addasrwydd llwyraf i'r amgylchiadau yr oedd ynddynt, ac i agweddau neillduol meddyliau y rhai a anerchid ganddo. Y mae y doethineb mwyaf yn cael ei ddangos ganddo yn y dull y mae yn cyflwyno ei hunan i sylw ei wrandawyr, ac yn y fantais y mae yn gymeryd ar yr hyn y cyfarfuasai âg ef yn eu dinas er seilio arno ystyr yr athrawiaeth oedd ganddo i'w dysgu iddynt. Y mae medrusrwydd anghyffredin yn dyfod i'r golwg yn y defnydd a wneir ganddo o ysgrifeniadau eu beirdd hwy eu hunain, ac yn enwedig yn y modd y mae yn troi hyny yn erbyn y lliaws eilunod yr oedd y ddinas yn ymroi iddynt. Mae yn ddiau pe buasai yr Atheniaid yn gadael iddo orphen ei araeth, y buasai yn eu harwain at Iesu Grist fel un teilwng o'u hymddiried, ac yn eu cymhell i droi oddiwrth bob gobaith arall ato Ef am iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol. Tystiolaeth Beza am dano ydoedd, "Wrth ystyried ansawdd a nodwedd ei ymadroddion, pan yn gosod allan ddirgeledigaethau Duw, nid oes fawredd cyffelyb yn Plato ei hun; pan yn llanw y meddwl âg ofn, nid oes y fath nerth a hyawdledd yn Demosthenes; ac yn olaf, nid wyf yn cael dull manylach o ddysgu yn Aristotle a Galen." Ond yr oedd y nodweddion hyn yn Paul wedi eu cysegru i Grist. "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Ac nid oedd efe yn llefaru doethineb y byd hwn, "eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw."

3. *Ei gydymdeimlad â'i wahanol wrandawyr.* Yr oedd efe i gyfarfod â gwrandawyr o wahanol deimladau, yn un rheswm am eu bod yn wahanol o ran cenedl. Yr oedd i gyfarfod â'r Iuddew yn gystal a'r Cenedlddyn, ac yr oedd efe wedi ei gymhwyso yn arbenig i gyfarfod â hwy. Wrth gymharu anerchiad Paul i'r Iuddewon yn Antiochia, ynghyd a'r anerchiadau eraill o'i eiddo a groniclir, y rhai a draddodwyd ganddo yn y synagogau Iuddewig; wrth gymharu y rhai hyn âg araeth Pedr yn Jerusalem, yr ydym yn cael fod Paul lawn mor gymhwys ag "apostol yr enwediad" ei hun i ymwneyd â'i gydwladwyr. Ond mor wahanol ydyw ymddygiad y ddau apostol urddasol hyn tuag at y Cenedloedd! Nid oes genym ond un anerchiad wedi ei chroniclo o eiddo Pedr i wrandawyr Cenedlig, sef yr hon a draddododd i Cornelius a'i gyfeillion. A pha fath ydyw nodwedd ac ansawdd y cyfryw? Y mae yn dechreu mewn ffurf esgusodol; nis gall agoryd ei bwnc priodol heb gael egluro yn gyntaf pa fodd y daeth i lenwi sefyllfa mor newydd; ac hyd yn nod pan wedi cyflawni hyn, y mae megys yn dal i deimlo ei fod ar dir newydd yn barhaus. Pan yn estyn Crist allan i'r Cenedloedd, nid ydyw

un amser yn ymestyn tu hwnt i'r pwynt Iuddewig mewn golwg, gan ei ddangos hyd yn nod iddynt hwy fel baich tystiolaeth y prophwydi i blant Israel, er ei fod wedi ei fwriadu i bawb. Y mae yn wir y rhaid fod Cornelius, fel proselyt i'r ffydd Iuddewig, yn fwy abl i gyfarfod â'r ffordd hon o bregethu Crist, eto y mae yn anmhosibl peidio canfod yr Iuddew yn y pregethwr ac yn y bregeth, trwy y naill a thrwy y llall. Yn awr cymharer hyn â dull Paul o anerch barbariaid Lycaonia ar y naill law, a Groegwyr Athen ar y llall, ac fe welir yn union fod y pregethwr yn pregethu i'r Cenedloedd ar dir y Cenedloedd; er wedi myfyrio ar yr Iuddewon a'u hiaith, eto y mae yma yn eu hosgoi gyda rhwyddineb a naturioldeb. Ceir ei fod mor gartrefol yn ei ymwneyd â'i gydwladwyr a phe buasai ei feddyliau yn hollol Iuddewig; o'r ochr arall, ceir ei fod yn ymwneyd â'i wrandäwyr Cenedlig megys Cenedl-ddyn. Y mae yn gosod allan yr efengyl iddynt hwy megys pe buasai ei hun yn Bagan dychweledig. Mae yr ystwythder meddwl yma pan yn ymwneyd â gwahanol bobl, a gallu i osod allan y gwirioneddau mwyaf goruchel mewn ffurfiau cyfaddas i wahanol feddyliau, yn cyfansoddi un nodwedd arbenig yn ei ragoriaeth ar ei gyd-apostolion. Cawn yr Apostol ei hun yn darlunio y nodwedd yma yn yr iaith fwyaf cymhellgar: "Mi a ymwnaethum i'r Iuddewon megys yn Iuddew, fel yr ennillwn yr Iuddewon; i'r rhai dan y ddeddf megys dan y ddeddf, fel yr ennillwn y rhai dan y ddeddf; i'r rhai diddeddf megys diddeddf (a minnau heb fod yn ddiddeddf i Dduw, ond dan y ddeddf i Grist), fel yr ennillwn y rhai diddeddf. Ymwnaethum i'r rhai gweiniaid megys yn wan, fel yr ennillwn y rhai gweiniaid; mi a ymwnaethum yn bob peth i bawb, fel y gallwn yn hollol gadw rhai."

4. *Y gallu oedd ganddo i gyfaddasu y gwirionedd i wahanol feddyliau.* Cawn olwg ar y nodwedd yma yn ei ymwneyd â phobl Thessalonica a Berea ar un llaw, ac â thrigolion Athen ar y llaw arall. Mae yn sefyll ar dir cyffredin gyda'r Iuddewon a'r proselytiaid Cenedlig yn Thessalonica, ac y mae gan hyny yn cymeryd Ysgrythyrau yr Hen Destament fel pwynt cychwynol; yna y mae yn sylfaenu y gosodiad mai un i ddyoddef ac i gael ei ddyrchafu, un i farw ac i adgyfodi, ydoedd y Messïah addawedig, ac fod yn rhaid mai Iesu o Nazareth, yr hwn yr oedd ef wedi dyfod i'w gyhoeddi, ydoedd y Crist, gan nad oedd neb ond efe yn ateb i'r cymeriad a osodwyd allan yn yr Hen Destament. Wedi bod yn anerch yn ol yr arddull yma am dri Sabboth yn olynol, yr oedd wedi argyhoeddi nid yn unig ei wrandawyr Iuddewig, ond hefyd dyrfa fawr o'r proselytiaid Groegaidd, ynghyd a rhai gwragedd o sefyllfa urddasol. Cymerwyd yr un cwrs drachefn yn Berea gyda'r un llwyddiant. Chwiliai y gwrandawyr yr Ysgrythyrau yn ddyddiol, er gweled a oedd y syniadau a'r gosodiadau a seilid arnynt yn gywir. Hyd yn nod yn Athen, "yn synagog yr Iuddewon," efe a ymresymodd rywbeth yn debyg i'w ddull yn y lleoedd blaenorol. Ond yn y farchnad ac yn yr Areopagus, mor wahanol ydyw ei fynediad ymlaen! Yno yr oedd i ymwneyd â'r meddyliau damcanol hyny, y rhai trwy eu doethineb nid oeddynt yn adnabod Duw. Pan yn ymwneyd â'r meddyliau hyn y mae yn gosod i lawr yn gyntaf wirioneddau hanfodol crefydd—personoliaeth Duw, perthynas y bydysawd âg ef, fel y mae yn waith ei ddwylaw ac yn cael ei ddal i fyny, ei brydferthu a'i fendithio ganddo ef; ymddibyniad hollol ei greaduriaid arno ef, er eu bod yn teimlo yn wahanol; eu hanghen am dano ef, a'u rhwymedigaeth i edrych arno ef fel eu prif ddaioni. Dengys hefyd y ffolineb a'r annuwioldeb o geisio gosod allan y Bôd gogoneddus hwn mewn llun gweledig o waith dwylaw dynion. Yna y mae yn myned ymlaen i ddangos fod Duw wedi cydymddwyn â'r driniaeth anneilwng oedd wedi ei gael gan y byd, yn unig o herwydd y tywyllwch oedd hyd yn hyn yn hofran dros feddyliau dynion, ond yn awr fod amser y goddefgarwch hwn wedi dyfod i ben gyda'r goleuni newydd oedd wedi gwawrio ar y byd trwy weinidogaeth a gweithredoedd, marwolaeth ac adgyfodiad Iesu Grist. Nad yw Duw am oddef y dyeithrwch hwn oddiwrtho ef ddim yn hwy, eithr y mae am gael dynolryw i edifarhau trwy y newyddion da hyn, ac i ddychwelyd ato ef oddiwrth

yr hwn yr oeddynt wedi crwydro mor bell ar gyfeiliorn, ac y bydd iddo ef, trwy y Gŵr a ordeiniodd Efe, eu barnu hwy mewn cyfiawnder. Dyma ydoedd cynnwys ei araeth nodedig, a phwy na chenfydd amrywiaeth meddwl yr Apostol pan yn trin y gwirionedd? Y gallu anghyffredin i gymhwyso yr un gwirioneddau i'r holl amrywiaeth gwrandawyr yr oedd efe i'w hanerch.

5. *Ei ofal neillduol am yr eglwysi.* Nid planu yn unig yr oedd Paul, ond yr oedd hefyd yn gofalu dros yr hyn yr oedd efe yn ei blanu; yr oedd yn hyfforddi yn gystal ag yn argyhoeddi. Gofalai am borthi y praidd, am eu cadw rhag myned ar gyfeiliorn, ac am gadw draw bob peth a dueddai i'w tarfu a'u haflonyddu. Un ffordd drwy ba un yr oedd yn gofalu am yr eglwysi ydoedd trwy ymweled â hwy. Pan ar ei deithiau byddai yn ymweled â'r holl eglwysi o fewn cyrhaedd, ac weithiau byddai yn myned allan o'i ffordd er mwyn cael eu gweled. Yn y bedwaredd bennod ar ddeg o'r Actau yr ydym yn cael hanes am dano yn dychwelyd drwy Lystra, Iconium ac Antiochia, yna trwy Pisidia i Pamphylia, a thrachefn trwy Perga i Attalia, "gan gadarnhau eneidiau y dysgyblion a'u cynghori i aros yn y ffydd." Mewn lle arall yr ydym yn cael ei hanes yn "tramwy trwy wlad Galatia a Phrygia, gan gadarnhau yr holl ddysgyblion." Nid gwaith ysgafn a hawdd ydoedd hwn pan ystyrir y fath nifer lïosog o eglwysi oedd dan ei ofal, ac hefyd fod yn aml ugeiniau o filldiroedd rhwng y naill eglwys a'r llall. Pan yr ystyrir fod y fath bellder rhwng yr eglwysi, ac hefyd yr anghyfleusdra i deithio y cyfryw bellder, yr ydym yn dyfod i'r penderfyniad nas gallasai ymweled yn fynych â hwy. Eto er nad oedd yn gallu bod yn bresennol gyda hwy ond anfynych o ran y corff, yr oedd ei feddwl yn wastad yn eu plith. Yr oedd yn gofalu am danynt yn wastad yn ei weddïau. Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, dywed fod Duw yn dyst "ei fod ef yn ddibaid yn gwneuthur coffa o honynt yn ei weddïau." Y mae yn plygu ei liniau dros yr Ephesiaid, gan erfyn am i Dduw eu bendithio. Yn gwneuthur coffa am y Philippiaid "bob amser ymhob deisyfiad o'i eiddo drostynt, gan wneuthur ei ddeisyfiad gyda llawenydd." Yr oedd yn diolch i Dduw gan weddïo dros y Colossiaid yn wastadol; a thrachefn yn gwneuthur coffa yn wastadol dros y Thessaloniaid yn ei weddïau. Llwybr arall a gymerai Paul i ofalu am yr eglwysi ydoedd drwy ysgrifenu atynt. Trwy ei lythyrau atynt yr oedd yn eu hyfforddi yn ngwirioneddau mawrion yr efengyl, ac yn eu gwylio rhag eu myned ar gyfeiliorn oddiwrth y gwirionedd. Os byddai anghen ceryddu, y mae yn gallu gweinyddu y cerydd heb beri iddynt ddigio, ac wedi ceryddu y mae ganddo y cynghorion mwyaf buddiol a phriodol i'w cael i'w lle, ynghyd a'r cysuron a'r gobeithion mwyaf dysglaer o'u blaen yn y dyfodol. Er fod y "gofal dros yr holl eglwysi" yn peri llawer o bryder iddo, eto fe fendithiodd yr Arglwydd y pryder a'r gofal hwn o eiddo yr Apostol er llwyddiant mawr i'w deyrnas yn y byd.

6. *Ei Ffyddlondeb.* Yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi gweled defnydd gwas ffyddlawn yn yr Apostol pan ei galwodd; fe'i cydnabyddodd yn un y gallasai ymddiried gweinidogaeth yr efengyl i'w ddwylaw, ac y mae yr Apostol yn teimlo yn ddiolchgar iddo am ei gyfrif yn un teilwng i gael ei dderbyn i'r gwasanaeth. "Ac yr ydwyf yn diolch i'r hwn a'm nerthodd I, sef Crist Iesu ein Harglwydd, am iddo fy nghyfrif yn ffyddlawn gan fy ngosod yn y weinidogaeth." Dyma ei brofiad bron ar derfyn ei yrfa. Ei ffyddlondeb yn ei waith ydoedd un o ammodau ei dderbyniad i'r gwaith, a thrwy nerth Duw fe gadwodd ei ffyddlondeb yn ddifwlch, fel y mae yn gallu edrych yn ol ar y rhedegfa gan ddywedyd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd." Mae yn ymwrthod â phob darnguddio yn mhregethiad yr efengyl, a buasai yn ei ystyried yn gyhuddiad pwysig pe buasai modd ei gyhuddo o hyny, ond y mae efe yn gallu tystio ei fod "yn lân oddiwrth waed pawb oll, canys nid ymatteliais rhag mynegi i chwi holl gynghor Duw." Mae pob cam yn ngyrfa Paul yn dyrchafu ein syniadau am ei ffyddlondeb. Wedi ei erlid yn Philippi, y mae yn pregethu yn Thessalonica, ac wedi ei erlid yn Thessalonica y mae yn pregethu yn Berea. Nid oedd cyfar-

fod rhwystrau yn effeithio dim ar nôd ei fywyd. Ei iaith oedd, "Nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu." Bu yn ffyddlawn i'w Feistr yn ninasoedd Asia ac yn ninasoedd Ewrop. Yr un oedd efe yn y carchar, yn y llŷs, yn y farchnad, ac yn yr Areopagus. Fe ddaliodd yn ddiwyro dan wawd yn y carchar ac yn y cyffion; do, bu ffyddlawn hyd angeu dros efengyl ei Arglwydd, yr Hwn a'i gwisgodd yn y diwedd â "choron cyfiawnder." Trwy fod yn ffyddlawn a phenderfynol yn ngwyneb ei holl rwystrau a'i ddyoddefiadau, cafodd bleser yn ei waith, a gadawodd argraff ar y byd a barha tra y bydd y byd yn bod.

Wrth derfynu, gellir dyweyd, po fwyaf a astudir ar fywyd, cymeriad ac ysgrifeniadau Paul, dyfnaf yn y byd fydd y parch a delir iddo, a mwyaf yn y byd fydd y diolchgarwch a gyflwynir i Awdwr pob daioni am roddi i'r eglwys ddysgawdwr mor ragorol i'w sefydlu a'i chadarnhau. Y mae y rhai sydd yn barnu Paul fel y barnant rhyw ddyn nodedig arall, yn addef yn unfrydol ei fod yn un o'r dynion penaf a mwyaf a fu ar y ddaear erioed; tra y mae y rhai a edrychant arno fel un wedi ei alw gan Iesu Grist a'i ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân i wneyd gwaith o bwysigrwydd digyffelyb, ymron yn ymgolli mewn syndod wrth feddwl am y doniau â pha rai y breintiwyd ef at y gwaith hwn, a'r ymroddiad â pha un y cyflawnwyd ef ganddo.

WILLIAM DAVIES.

Portmadoc.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch. R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

HYDREF 5ED. GEN. XV. 1—11. Y CYFAMMOD RHWNG YR ARGLWYDD AG ABRAM.

BYDDAI yn fuddiol i'r athraw, ar ol i'r wers hon gael ei darllen, ofyn ychydig o gwestiynau ar wers y Sul o'r blaen, am fod cysylltiad agos rhwng y ddwy. Fe gofir fod Abram wedi bod mewn rhyfel â phedwar o freninoedd ac wedi eu gorchfygu. Yr oedd efe felly wedi gwneyd pedwar o freninoedd yn elynion iddo, ac yr oedd gan y pedwar hyny lawer mwy o filwyr nag oedd gan Abram. Naturiol yw tybied fod Abram yn teimlo yn ofnus rhag y byddai i'r pedwar brenin gytuno â'u gilydd a dyfod ar ei ol gyda mwy o filwyr nag oedd ganddynt o'r blaen, a'i orchfygu, a'i ladd. I gyfarfod y teimlad hwn, dywed yr Arglwydd wrtho, "Nac ofna, myfi yw dy darian." Tarian ydoedd offeryn a ddefnyddid gan filwyr i amddiffyn eu hunain mewn rhyfel. Dygid ef ar y fraich aswy. Gwasanaethai i droi ymaith ergydion unrhyw arf dinystr oddiwrth y gelynion. Tarian Abram rhag ei elynion ydoedd yr Arglwydd. Dywedir hefyd yn ngwers y Sul o'r blaen, fod Abram wedi gwrthod y cyfoeth a gynnygiai brenin Sodom iddo pen. xiv. 21—23). Mae yr Arglwydd yn nechre y wers hon yn addaw iddo fwy o gyfoeth nag a allasai brenin Sodom ei roddi, trwy addaw ei Hunan. "Myfi ydyw dy wobr mawr iawn." Gelwir Abram yn y Bibl yn "gyfaill Duw." Y mae yr addewid a roddir iddo yn dangos ei fod ef felly mewn gwirionedd. Ac y mae gwaith Abram yn dyweyd ei feddwl mor rhwydd wrth yr Arglwydd, fel y gwna yn adn. 2, 3, yn dangos yr un peth. Yr oedd yr Arglwydd, fel y gwelsom yn y gwersi blaenorol, wedi addaw gwneyd Abram yn genedlaeth fawr. Yr oedd llawer o dywyllwch o amgylch yr addewid. Yr hyn oedd yn ei gwneyd yn dywyll iawn ydoedd y ffaith nad oedd gan Abram blant. Pa fodd felly y gallai fyned yn genedlaeth fawr? Y mae efe gan hyny yn gofyn am eglurhad gan yr Arglwydd. Ystyr debygol y geiriau "goruchwyliwr fy nhŷ" yw *etifedd fy nhŷ.* Golyga y gair "caethwas," *mab fy nhŷ.* Yr hyn a feddylir wrth "etifedd" yw *un yn dyfod i etifeddiaeth dyn arall ar ol ei farwolaeth.* Nid yw y desgrifiad a roddir o Eleazar fel "etifedd fy nhŷ," a "mab fy nhŷ," yn golygu ei fod wedi ei eni yn nhŷ Abram. Yn ol pob tebyg, caethwas wedi ei brynu gan Abram yn Damascus ar ei ffordd i Ganaan oedd Eleazar. Yr oedd Abram yn cael edrych arno fel tad gan yr holl deulu. Am hyny nid oes dim amhriodoldeb mewn galw y caethwas yn fab ei dŷ. Yr oedd Eleazar y gwas mwyaf cyfrifol oedd gan Abram, ac yn absen-

noldeb mab o'i eiddo ei hun yr oedd yn gweled mai efe a ddeuai i fewn i'w etifeddiaeth. Yn ei atebiad iddo, y mae yr Arglwydd yn rhoddi hysbysrwydd newydd i Abram am gynnwys yr addewid trwy ddyweyd mai nid estron, ond mab naturiol iddo, fyddai ei etifedd. Dyma y tro cyntaf i Abram gael gwybod hyn. Yn pen. xiii. 16, dywed yr Arglwydd wrtho y byddai ei had fel "llwch y ddaear." Y tro hwn dywed y byddai ei had fel y ser. Y mae y ddwy gymhariaeth yn cael eu defnyddio i ddangos y byddai ei had yn ddirifedi. Yn adn. 8 gofynai Abram am ryw arwydd y byddai iddo etifeddu y wlad. Nid am ei fod yn anghredu yr oedd yn gofyn (gwel adn. 6). Yn hytrach, yr oedd y wybodaeth y gofynai am dani yn cael ei rhoddi iddo fel gwobr ei ffydd. Yr awydd cryfaf oedd yn bosibl i Abram gael oedd trwy i'r Arglwydd roddi ffurf o gyfammod i'r addewid am y wlad. Byddai pob cyfammod, yn yr hen amser, yn cael ei gadarnhau trwy aberth, yr hwn a offrymid yn y dull canlynol:—Rhenid cyrff yr anifeiliaid yn eu hanner, y rhai a roddid ar ddwy allor wahanol, wedi eu cyfodi gyferbyn â'u gilydd; yna byddai y pleidiau, rhwng y rhai y gwneid y cyfammod, yn pasio trwy y gwagle rhwng y ddwy allor gyda darn o'r aberth ar bob ochr iddynt. Yr oedd y pleidiau, trwy y weithred hon, yn rhwymo eu hunain i'r cyfammod a'i holl delerau. Yn y diwedd, byddai yr aberth yn cael ei ddifa trwy dân. Y mae yr arferiad hwn yn egluro adn. 10. Holltodd Abram y creaduriaid yn eu canol, ac a roddodd bob rhan ar gyfer eu gilydd. Yn ngwers y Sul nesaf cawn weled fod yr Arglwydd, fel un o'r pleidiau yn y cyfammod, yn pasio rhwng y darnau (adn. 17). Fe gymerodd Abram bump o greaduriaid gwahanol. 1. Anner dair blwydd, h. y., buwch ieuanc dair blwydd oed. 2. Gafr. Creadur pedwar-troediog, lled debyg o ran ei ddull a'i faintioli i'r ddafad, yn orchuddiedig â blew yn lle gwlan. 3. Hwrdd. Y gwryw o'r defaid. 4. Turtur. Rhywogaeth o golomen. Geilw rhai hi yn Gymraeg yn *golomen goed*, neu *golomen fair*. 5. Cyw colomen. Un ieuanc o'r colomenod. Yr oedd y pump yn greaduriaid glân, sef yn rhai i'w defnyddio yn aberthau.

HYDREF 12FED. GEN. XV. 12—21. YR ARGLWYDD YN DYWEYD YCHWANEG ETO WRTH ABRAM.

Yr oedd y "tywyllni" y sonir yma am dano yn un goruwchnaturiol, oblegid *ar* fachludo, ac nid *wedi* machludo, yr oedd yr haul. Am hyny gweledigaeth oedd hon i Abram, ac nid breuddwyd. Y mae y wers yn cynnwys prophwydoliaethau am Abram a'i hiliogaeth. 1. Y mae adn. 13 yn cynnwys prophwydoliaeth am gaethiwed gwlad yr Aipht. Yn Exod. xii. 40, dywedir fod plant Israel wedi bod yn yr Aipht 430 mlynedd. Y mae y ffigyrau yno yn cael eu rhoddi yn fwy manwl. Gofyner ychydig o gwestiynau am eu caledi yn y wlad hono. 2. Rhagfynegir yn adn. 14 am y farn oedd i ddyfod ar yr Aiphtiaid, ac am ddyfodiad y genedl oddiwrthynt gyda chyfoeth mawr. Gellir galw sylw y dosbarth dan y pen hwn at blâau yr Aipht, a boddiad Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch. Am gyfoeth y genedl gwel Exod. xii. 35, 36. 3. Hysbysir yn adn. 15 y byddai i Abram farw yn dangnefeddus ac mewn oedran teg. 4. Nodir yr adeg y byddai i'r genedl ddychwelyd i Ganaan, a'r rheswm paham na fuasai eu dychweliad yn cymeryd lle yn gynt (adn. 16). Mae y gair Amoriaid yn cael ei ddefnyddio am y Canaaneaid yn gyffredinol yn adn. 16. Yr oedd y Canaaneaid i gael eu gyru o'r wlad fel cosbedigaeth am eu pechodau. Y mae yr ail ran o'r wers yn dechreu gydag adn. 17, lle y dywedir fod "lamp danllyd," yn y tywyllwch oedd yn dilyn machludiad yr haul, yn tramwyo rhwng "y darnau hyny." Wrth "y darnau" y meddylir rhanau yr aberth y cyfeirir atynt yn adn. 10. Yr oedd y lamp danllyd oedd yn tramwy rhwng y darnau yn gosod allan bresennoldeb yr Arglwydd fel plaid yn y cyfammod. Yr oedd y cyfammod trwy hyn yn cael ei gadarnhau gan yr Arglwydd. Y mae terfynau y wlad oedd yn cael ei rhoddi iddo yn y cyfammod yn cael eu nodi, sef o afon yr Aipht (y Nile) hyd afon Euphrates. Ond nid yw y terfynau yn cael eu nodi gyda manylder daearyddol, mwy nag y mae ystod arosiad y genedl yn yr Aipht (adn. 13) yn cael ei roddi gyda manylder rhifyddol. Ni chyrhaeddodd terfynau Canaan erioed yn hollol o'r Nile i'r Euphrates. Yn adn. 19—21 enwir y deg llwyth oedd yr adeg yma yn trigo yn y wlad. Yr oedd y Ceneaid yn byw yn mharthau mynyddig y rhan ddeheuol o honi. Trigai yr Hethiaid yn nghymydogaeth Hebron. Ganddynt hwy y prynodd Abram feddiant beddrod. Preswyliai yr Amoriaid ranau mynyddig Judea. Yr oedd pump o freninoedd arnynt (Jos. x. 5).

HYDREF 19EG. GEN. XVII. 1—8. YR ARGLWYDD YN DYWEYD YCHWANEG ETO O GYNNWYS YR ADDEWID WRTH ABRAM.

Nid yw pen. xvi. wedi cael ei nodi i'w

darllen yn y dosbarth. Ond y mae yn anghenrheidiol gwybod ychydig o hanes Ismael. Yr oedd yr Arglwydd, fel y gwelsom yn pen. xv., wedi hysbysu mai Abram fyddai tad yr etifedd, ond nid oedd wedi dyweyd pwy fyddai ei fam. Yr oedd Sarai gwraig Abram tua 75 oed, a chredai yn naturiol nad oedd hi i fod yn fam iddo. Am hyny hi a roddodd Agar ei morwyn yn wraig i Abram. Cyn geni plentyn iddi, darfu i Agar ffoi o dŷ Abram am fod Sarai yn flin wrthi. Ymddangosodd angel iddi wrth ffynnon ddwfr, a gorchymynodd iddi fyned yn ol, a bod yn forwyn ufudd i'w meistres. Dywedodd yr angel hefyd wrthi y byddai iddi gael mab, ac mai Ismael oedd ei enw i fod. Ystyr yr enw Ismael yw "Duw a wrendy." Efe oedd y cyntaf a gafodd ei enwi cyn ei enedigaeth. Dywed yr angel ymhellach, y byddai hâd Agar trwy Ismael yn ddirif, ac y mae lliosogrwydd yr hiliogaeth yn un o'r ffeithiau mwyaf adnabyddus. Dywed yr angel hefyd y byddai Ismael yn "ddyn gwyllt," h.y. yn ddyn anhawdd ei orchfygu a'i ffrwyno: "a'i law yn erbyn pawb;" h.y. yn hoff o ryfel ac yspeilio ar fôr a thir, yr hyn yw nodwedd yr Arabiaid mewn modd neillduol; "a llaw pawb yn ei erbyn yntau," sef yn cael ymosod arno a'i yspeilio gan bawb. "Ac efe a drig," &c. Yr ystyr yw, y byddai i'w hiliogaeth fod yn rhai rhydd ac annibynol yn mhresenoldeb cenedloedd eraill. Y mae sefyllfa yr Arabiaid, hiliogaeth Ismael, hyd heddyw yn gyflawniad o eiriau yr angel am danynt wrth Agar. Y maent wedi parhâu i gadw meddiant o'u gwlad, ac heb gael eu darostwng gan eu gelynion. Rhoddodd Agar enw ar y ffynnon yn ymyl yr hon y bu yr angel yn dyweyd y pethau rhyfedd hyn am Ismael. Yr enw yw Beer-lahai-roi. Golyga *ffynnon bywyd a gwelediad*, hyny yw, *lle y gwelir Duw a byw*. Yr oedd Agar yn rhyfeddu ei bod hi yn fyw ar ol gweled Duw. Pan anwyd Ismael yr oedd Abram yn 85 oed. Ymhen tair blynedd ar ddeg ar ol geni Ismael ymddangosodd yr Arglwydd i Abram. Rhoddir hanes yr ymddangosiad yn pen. xvii. Yr oedd Abram y pryd hwn yn gant ond un, ac Ismael yn dair ar ddeg oed. Dyma y bummed waith i'r Arglwydd ymddangos iddo. Byddai yn fuddiol i'r athraw holi ei ddosbarth am yr ymddangosiadau blaenorol, gan gadw golwg ar y lleoedd y cymerasant le, ynghyd a'r hysbysiadau newydd a roddid i Abram bob tro. Yn y wers hon dywedir fod ei enw i gael ei newid fel arwydd o'r safle newydd yr oedd yr addewidion yn ei ddwyn iddo. Ystyr yr enw Abram yw "tad dyrchafedig," ac ystyr yr enw Abraham yw "tad lliaws." Yr oedd Abraham yn dad yr Iuddewon, yr Ismaeliaid, hiliogaeth Ceturah, a'r Edomiaid. Yn ysbrydol, y mae yn dad yr holl ffyddloniaid.

HYDREF 26AIN. GEN. XVII. 1—14. PARHAD O'R WERS FLAENOROL.

Yn y wers hon rhoddir hanes y cyfammod rhwng Duw âg Abraham yn cael ei selio. Yr oedd selio unrhyw weithred yn cael ei ystyried yn orchwyl tra phwysig yn y dwyrain. Nid oes dim o hanes Abram yn cael ei roddi i ni yn ystod y tair blynedd ar ddeg rhwng geni Ismael a selio y cyfammod. Cawsant eu treulio yn ol pob tebyg o dan dderw ei gyfaill Mamre. Yn yr ymddangosiad hwn y mae yr Arglwydd yn edrych ar ei gyfammod fel rhodd i Abraham. Ystyr y gair a gyfieithir "wnaf" (adn. 2) yw *rhoddi*. Y mae y cyfammod i edrych arno gan hyny, nid fel bargen rhwng dau gyfartal, ond fel rhodd gan un uwchraddol i un israddol. Y mae dwy blaid yn perthyn i bob cyfammod. Y pleidiau yn y cyfammod hwn yw yr Arglwydd ac Abraham. Gan mai *rhodd* yw y cyfammod, y mae yn cynnwys addewidion o du y rhoddwr, a rhwymedigaethau o du y derbynydd. Y mae yr addewidion a'r rhwymedigaethau yn cael eu nodi yn fanwl yn y bennod hon wrth selio y cyfammod. Yn adn. 4—8 fe geir cynnwys y cyfammod o ochr Duw. 1. Addewir y byddai Abram yn dad lliaws o genedloedd; yn hynafiad cenedloedd a breninoedd. Bydd cael enwau llawer o freninoedd a ddaeth o hono yn orchwyl hollol hawdd i'r plant. 2. Fod yr Arglwydd trwy y cyfammod hwn yn rhoddi ei hun yn Dduw, nid yn unig i Abram, ond i'w had ar ei ol. 3. Fod gwlad Canaan i gael ei rhoddi yn etifeddiaeth iddynt. Yn adn. 9—14 y mae rhwymedigaethau Abraham, y blaid arall yn y cyfammod, yn cael eu rhoddi. Y mae y gair "dithau" (adn. 9) yn gyferbyniol i "myfi" (adn. 4). 1 Yr oedd Abraham a'i had i gadw cyfammod yr Arglwydd. 2. Fel arwydd o'r cyfammod yr oedd pob gwryw i gael ei enwaedu yn wyth niwrnod oed. Fe ddaw y gweddill o'r hyn a lefarodd yr Arglwydd wrth Abraham ar yr achlysur hwn o dan sylw yn y wers nesaf.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y GOLYGYDD.

SABBOTH, HYDREF 5ED. HEB. IV. 14—16.

ADN. 14: *Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r*

nefoedd, Iesu Mab Duw, glnwn yn ein proffes. Y cwestiwn cyntaf ydyw perthynas y geiriau hyn â'r adnodau blaenorol. Barna lläws o esbonwyr fod yr awdwr yn dychwelyd yma at yr hyn a grybwyllasai yn pen. iii. 1—Crist fel "Archoffeiriad ein cyffes," ei fod yn dechreu adran newydd, ac mai yma y dylasai pen. v. ddechreu. Barna eraill yn wahanol—fod "wrth hyny" yn dynodi casgliad uniongyrchol oddiwrth yr adnodau blaenorol, a bod 14—16 yn perthyn i'r ail adran, tra y mae y bennod nesaf yn briodol yn dechreu y drydedd. Yn yr adnodau blaenorol, gwneir cyferbyniad cryf rhwng Gair deddfol, marw, allanol Moses, yr hwn nis gallai symud anufudd-dod Israel na'u harwain i'r wir orphwysfa, â Gair bywiol, treiddiol y cyfammod newydd. "Wrth hyny" ni a welwn "fod i ni" *(genym* ni—"genym" yn bwysleisiol) yn Nghrist, nid ail Foses yn unig, ond mwy na deddfroddwr, un sydd wedi myned drosom ac o'n blaen i dragywyddol orphwysfa Sabboth y cysegr nefol, hyny yw *Archoffeiriad.*

Sylwa un esboniwr galluog fod y diwedd hwn i'r ail ran yn cyfateb i ddiwedd y rhan gyntaf: fel hyn—

Y rhan gyntaf.

Crist yn uwch na'r ANGYLION: (1) yn ei *Berson,* am mai ynddo Ef y daeth Mab Duw yn ddyn; (2) yn ei *waith,* oblegid fod dyn ynddo Ef, fel blaenffrwyth, wedi ei ddyrchafu i awdurdod dros yr holl greadigaeth a'r holl nefoedd; (3) gwnaed hyn am fod Crist nid yn unig yn "Apostol" fel cenad Duw at ddynion, ond hefyd yn "Archoffeiriad" fel cynnrychiolydd dynion at Dduw.

Yr ail ran.

Crist yn fwy na MOSES: (1) yn ei *Berson,* fel y mae y Mab yn y tŷ perffaith yn fwy na'r gwas yn y tŷ cysgodol; (2) yn ei *waith,* am mai efe oedd y cyntaf i agor y ffordd i ddynion i'r wir orphwysfa Sabbothol i'r hon yr aethai efe ei hunan o'r blaen; (3) y canlyniad oddiwrth hyn yw, ei fod Ef, nid yn unig yn llenwi y swydd o ail Foses, ond hefyd ei fod yn arweinydd dwyfol awdurdodedig allan o gaethiwed, neu yn "Archoffeiriad."

Dyma yr awdwr felly wedi ei arwain hyd ddau lwybr gwahanol i'r syniad o archoffeiriad. Y mae y ddwy ran gyntaf fel colofnau y bont. Yn y drydedd ran ä ymlaen i osod arnynt y gonglfaen —yr ymdriniaeth â Christ fel Archoffeiriad. *Archoffeiriad mawr.* Nid "mawr" mewn cyferbyniad i'r archoffeiriad Iuddewig; y mae i'r gair yn y lle hwn rym annibynol priodoledd: megys "Bugail mawr y defaid," xiii. 20. Nid y pethau oedd yn Nghrist yn anhebyg i'r archoffeiriaid gynt a nodir yma, er mwyn cyferbynu: gwneir hyny yn nechreu y bennod nesaf. Ond dangosir yma ei fod yn archoffeiriad trwy nodi y tebygrwydd. *Yr hwn a aeth i'r nefoedd.* Y cyfieithiad cywir yw—"wedi myned trwy y nefoedd." Aeth drwy bob nef îs—y wybrenol, y serenog, i'r nef uchaf, i'r wir nef, y gwir gysegr—fel y byddai yr arch-offeiriad gynt yn myned trwy y cyntedd a'r cysegr i'r sancteiddiolaf. *Iesu Mab Duw.* Symiad byr o'r ddwy bennod gyntaf—y "Mab Duw" wedi dyfod yn "Iesu," yn ddyn, a dyn ynddo wedi ei ddyrchafu i ddeheulaw Duw. *Glynwn yn ein proffes.* Nid ymaflyd, ond dal gafael yn dyn yn ei grefydd ef, neu yr Efengyl; y cyferbyniol i ii. 1, "gollwng i golli."

ADN. 15: *Canys nid oes i ni Archoffeiriad heb fedru cyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni; ond wedi ei demtio ymhob peth yr un ffunud a ninnau, eto heb bechod.* Arwydda y gair a gyfieithir yma "cyd-ddyoddef" yn hytrach "cydymdeimlo." Dyna yw yr adnod hon—eglurhâd ar y gosodiad (adn. 14) *y mae i ni Archoffeiriad.* Nid cymhelliad i lynu yn ein proffes, gan fod hyny eisoes yn adn. 14, yw y gosodiad fod i ni y fath Archoffeiriad; ond egluro a phrofi ymhellach y gwirionedd hwnw. Nid yw Iesu Grist yn ol yn y prif gymhwysder anhebgor i archoffeiriad—profiad o'n gwendidau a gallu i gydymdeimlo. *Wedi ei demtio ymhob peth.* "Ei brofi" gan Dduw, dynion, a diafol. Temtiwyd ef i bechu; y mae hyn yn bosibl i fôd sanctaidd. Yr oedd y Gwaredwr yn cyfranogi o deimladau natur, ac o'i holl wendidau dibechod, fel ninnau; a thrwy y rhai hyn y gweithiai y demtasiwn arno. Felly yr oedd yn bosibl fod *dyoddef* ynglŷn â'i gorchfygu, er nad oedd dim tuedd i gydffurfio â hi. *Yr un ffunud a ninnau.* Nid â phob math o demtasiwn â'r hon y temtir ni, ond ei fod wedi ei demtio yn ei holl demtasiynau ef yr un ffunud ag y temtir ni yn ein temtasiynau ninnau. Ein prawf ni a gymerodd Duw fel cynllun i drefnu prawf yr Iesu. (Edwards.) *Eto heb bechod.* Yn ol y gwreiddiol, "heb bechod." Temtiwyd ef *i* bechu, ond heb bechod. Credwn yn sicr gyda Principal Edwards nas gallasai bechu, ac eto fod ei demtasiynau, fel yr eglurwyd o'r blaen, yn wirioneddol. Yn ol geiriad yr Ysgolwyr, nid "yr oedd yn bosibl iddo beidio pechu," ond "nid oedd yn bosibl iddo bechu." Credwn nid yn unig yn y *posse non peccare* ond yn y *non posse peccare.*

Adn. 16: *Am hyny awn yn hyderus at orseddfainc y gras.* Dyma fraint neillduol goruchwyliaeth yr Efengyl, yn tarddu o archoffeiriadaeth Crist—y mae i'r holl gredinwyr ryddid i nesâu at Dduw. Y mae y ffordd i'r cysegr yn agored bellach trwy Iesu. Felly dyma un wedd neillduol a rydd yr awdwr ar ddefnyddio yr Efengyl, neu ddefnyddio cyfryngdod Crist, ydyw trwy *nesâu at Dduw.* Rhed y syniad trwy yr Epistol. Felly y mae y geiriau yn ddiweddglo tra chymhwys i'r ail ran, ac ar yr un pryd (fel y gwna yr awdwr yn fynych) y maent yn dwyn i mewn bwnc y rhan ddylynol. Gallai fod yma gyfeiriad at yr hyn a ddywedwyd am Air Duw fel barnwr. Sylwa rhai fod y gair a gyfeithir "awn" yn cyfeirio at waith yr offeiriad gynt yn nesâu at yr allor; tra y barna eraill na fuasai yr annogaeth i lynu wrth iawn Crist—yr elfen neillduol Gristionogol—ddim yn debyg o gael ei gwasgu at yr Hebreaid trwy ffugyr neu ymadrodd o'r defodau Iuddewig. Nid at y drugareddfa y cyfeiria y gair "gorseddfainc y gras," yr hon nid oedd ond cauadlen; ond at orseddfainc Duw pa un bynag ai fel Brenin ai fel Barnwr, canys y Brenin yma yw y Barnwr. Ond y mae y Brenin a'r Barnwr yn awr yn Dad cymmodlawn yn Nghrist. "Gras" yr orsedd yw ein sail i fyned ati yn "hyderus." *Fel y derbyniom drugaredd.* "Tosturi"—o gydymdeimlad yr Archoffeiriad â'n *gwendidau.* (Edwards.) Yn ol rhai, y drugaredd fawr gyntaf o faddeuant ac iachawdwriaeth. *Ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol.* Dealla Principal Edwards hyn am faddeuant a nerth. Yn ol eraill, ar ol derbyn y "drugaredd" fawr o faddeuant a chymmod â Duw, cael pob bendith fydd yn anghenrheidiol ar hyd yr yrfa yn ol yr anghen. Myn rhai fod y "cymhorth cyfamserol" yn gysylltiedig â'r "drugaredd" yn gystal a'r "gras"—trugaredd a gras yn y ffurf o gymhorth mewn pryd, yn ol yr amgylchiad. Gwna Principal Edwards y sylw prydferth fod peth gwahaniaeth rhwng y "derbyn" a'r "cael"—mwy yn y gwreiddiol nag yn y cyfeithiad. Myned at yr orsedd am drugaredd a'i derbyn, ond "cael"—dyfod o hyd i "ras" yr un pryd. Gallem feddwl fod y "derbyn" a'r "cael" yn awgrymu mai gweddi yw y prif syniad, o leiaf, mewn "myned at orseddfainc y gras."

Sabboth, Hydref 12fed. Adolygiad.

Sabboth, Hydref 19eg. Hebreaid v. 1—4.

Adn. 1: *Canys pob archoffeiriad wedi ei gymeryd o blith dynion, a osodir dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw, fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau.* Nid ymresymiadol yw y "canys" yma, ond eglurhaol, neu arweiniol i'r hyn sydd yn dilyn. Camsyniad mawr yw gosod "pob archoffeiriad wedi ei gymeryd o blith dynion" yn *gyferbyniol* i Grist, fel pe na buasai efe wedi ei gymeryd o blith dynion. Ni oddef yr iaith na'r ymresymiad y fath ystyr. Nid dangos y gwahaniaeth y mae yr awdwr yma rhwng yr archoffeiriaid Iuddewig a Christ, ond dangos y tebygrwydd. Noda y cymhwysderau a raid fod *ymhob* archoffeiriad. Un o honynt ydyw—ei fod "wedi ei gymeryd o blith dynion." Rhaid cael hyn, am ei fod yn cael ei "osod dros ddynion." Rhaid cael cydymdeimlad dynol. Fe'i gosodir dros ddynion gan ei fod wedi ei gymeryd o blith dynion. Y prif syniad yw—cael "ei gymeryd o blith dynion;" y rheswm dros fod hyny yn anghenrheidiol yw am ei fod yn cael "ei osod dros ddynion."

Dechreu rhan newydd sydd yma. Parotowyd y ffordd iddi yn iv. 14—16. Sonia yr awdwr yno am y pwynt uchaf ac olaf yn ngwaith archoffeiriadol Crist—ei fynediad i mewn (yn gyferbyniol i Moses a Josua) i orphwysfa Sabboth y cysegr nefol. Ond yma ail-ddechreua yn y pwynt isaf, gan esgyn i fyny. 'Rhaid i archoffeiriad dros ddynion fod ei hunan yn ddyn.' *Yn y pethau a berthyn i Dduw.* Neu "y pethau sydd tuag at Dduw," yr achosion ysbrydol sydd rhwng dyn â Duw. *Fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau.* Er fod y gair a gyfeithir "rhoddion" yn cael ei ddefnyddio weithiau am aberthau gwaedlyd, a'r gair a gyfeithir "aberthau" yn cael ei ddefnyddio weithiau am offrymau heb waed, eto pan y maent gyda'u gilydd megys yma, golyga y cyntaf y mae'n debyg, offrymau, sef rhoddion heb fod bywyd yn cael ei gymeryd, a'r olaf "aberthau" yn yr ystyr gyffredin, sef offrymau y byddai gwaed yn cael ei dywallt ynddynt. Y mae y geiriau "dros bechodau" i'w cysylltu, y mae'n debyg, â'r holl ymadrodd. Sylwa Principal Edwards fod y "rhoddion" a'r "aberthau" yn dangos fod cydymdeimlad archoffeiriad i gynnwys dau beth—teimlo *yr un fath* â'r pechadur, pan yn cyflwyno offrwm diolch; a theimlo *drosto* pan yn cyflwyno aberth am ei bechod.

Adn. 2: *Yr hwn a ddichon dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth ac amryfusedd.* Nid yw "tosturio" yn cyfleu ystyr y gair gwreiddiol yn hollol. Y gair yw *μετριοπαθεῖν*—gair a ffurfiwyd gyntaf gan ddysgyblion Aristotle, ac wedi hyny a gymerwyd i mewn i'r iaith gy-

ffredin. Golyga y gair yr agwedd gymedrol hono ar y meddwl sydd yn gorwedd yn y canol rhwng diffyg teimlad a gormod teimlad. Un yn barnu yn gymesur, yn deg, gan gymeryd pobpeth i ystyriaeth, heb orlymder ar un llaw na meddalwch gwan ar y llaw arall. Fel hyn yr oedd yr archoffeiriad i farnu am y troseddau a ddygid ger ei fron—a *ellid* rhoddi aberth trostynt ai ni ellid. Am bechodau mewn "anwybodaeth" neu "amryfusedd" (dan ddylanwad nwyd) y gellid rhoddi aberth; nid ellid am rai wedi eu cyflawni yn rhyfygus, sef yn ymwybodol a beiddgar. Nid digon i'r archoffeiriad oedd cyflawni y weithred o aberthu yn beirianyddol, yr oedd yn rhaid pwyso a barnu yr achos neillduol ger ei fron cyn hyny. *Am ei fod yntau hefyd wedi ei amgylchu â gwendid.* Gwendid pechadurus, fel y dengys yr adnod nesaf. Daw y geiriau i mewn fel rheswm paham y dylai yr archoffeiriad ymddwyn mewn cydymdeimlad a thynerwch tuag at "rai mewn anwybodaeth ac amryfusedd," am ei fod yn ymwybodol o'r un gwendidau ac mewn anghen am yr un tynerwch ei hunan.

Adn. 3: *Ac o achos hyn y dylai, megys dros y bobl, felly hefyd drosto ei hun, offrymu dros bechodau.* Neu, "ac am y dylai o achos hyn," &c. Yr oedd hyn nid yn unig yn profi ei fod yntau wedi ei amgylchu â gwendid fel dynion eraill, ond yr oedd yr ystyriaeth o hyn yn tueddu i'w wneyd yn bwyllog a thyner wrth farnu troseddau dynion eraill.

Adn. 4: *Ac nid yw neb yn cymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megys Aaron.* Neu "ond pan wedi ei alw gan Dduw," &c. Dyma yr ail gymhwysder hanfodol i archoffeiriad—galwad ddwyfol i'r swydd. O blith dynion y cymerir ef, a thros ddynion y gosodir ef; ond nid gan ddynion y mae ei appwyntiad, nac o hono ei hunan, ond gan Dduw. Dyma y drefn ddwyfol, fel y gwelir yn nechreuad y swydd yn Aaron, er fod llygredigaethau mawr wedi dyfod i mewn ar ol hyny. Rhaid cael y ddau—cymhwysder personol a gosodiad swyddol. Awgrymir yn y gair "anrhydedd" nad oes neb i'w gymeryd iddo ei hun, ond yr hwn y rhoddir ef iddo gan Dduw. Duw yw "ffynnon anrhydedd" yn yr Eglwys, fel y dywedir mai y penadur yw "ffynnon anrhydedd" yn y wladwriaeth, a rhoddydd teitlau.

Sabboth, Hydref 26ain. Hebreaid v. 5—7.

Adn. 5: *Felly Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn Archoffeiriad.* Cymhwysiad at "y Crist" o'r gosodiad cyffredinol a roddir i lawr yn adn. 4. "Gogoneddodd" a ddywedir, nid "anrhydeddodd," er mai y gair olaf sydd yn y 4edd adnod. Am mai anrhydedd allanol oedd y swydd ar Aaron, medd Principal Edwards, tra yr oedd archoffeiriadaeth y Mab yn cyfodi o'i gymhwys derau personol. Yr oedd Aaron yn offeiriad am iddo gael ei alw; galwyd Crist am ei *fod. Ond yr hwn a ddywedodd wrtho, Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genedlais di.* Gwelir fod y frawddeg hon yn ddiffygiol. Rhaid cyflenwi "efe a'i gogoneddodd ef." Y mae anhawsder yma. Profi y mae yr awdwr fod Crist wedi ei osod gan Dduw yn Archoffeiriad. Ond pa fodd y profa hyny trwy ddwyn ymlaen y dyfyniad o'r ail Salm, yr hwn a ddywed ei fod yn *Fab* Duw? Dull cwmpasog ydyw, medd rhai, o ddyweyd mai *y Tad* a'i gosododd yn ei swydd. Golyga eraill mai yr ystyr ydyw mai yr hwn a'i gosododd yn Frenin a'i gosododd hefyd yn Offeiriad, gan ystyried mai cyfeiriad ato fel Brenin yw yr ail Salm. Eglura rhai esbonwyr yr anhawsder trwy gymeryd yr ail Salm gyda'i gilydd fel mynegiad y byddai y Mab, nid yn unig yn Frenin, ond yn trin achosion dynion yn eu perthynas â Duw, trwy gyfryngiad offeiriadol—yn Offeiriad yn gystal ag yn Frenin, yr hyn a nodir yn fwy pendant yn yr adnod ganlynol. Ond paham, os felly y mae, y cyfunir y ddwy swydd yn yr ail Salm? A'r hyn sydd yn dywyllach fyth, paham y gosodir y ddwy allan trwy y datganiad ei fod yn *Fab* Duw? Atebiad Principal Edwards i'r cwestiwn cyntaf ydyw—am fod ei freniniaeth yn gynnwysedig yn ei archoffeiriadaeth. Ac yr ydym yn credu er's blynyddoedd y sylw dwfn o eiddo yr un awdwr sydd yn ateb yr ail gwestiwn—am fod y naill a'r llall yn gynnwysedig yn ei fabolaeth. Nid yn unig y mae pobpeth ei gyfryngdod yn gorphwys ar ei Dduwdod, ond hefyd yn tarddu o neillduolrwydd ei Berson dwyfol. Yn *Mab* Duw yn unig y gallasai ein hiachawdwriaeth fod.

Adn. 6: *Megys y mae yn dywedyd mewn lle arall, Offeiriad wyt ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.* Dyfynir Salm cx. 4. "Urdd" neu drefniad Melchisedec oedd ei fod yn offeiriad a brenin, ac heb "ddechreu dyddiau" na "diwedd einioes" yn perthyn iddo, yn swyddol, neu yn ddatguddiedig. Urdd o ddau—y cysgod a'r gwrthgysgod. Dyma brawf pellach a mwy eglur o osodiad dwyfol Crist yn Archoffeiriad, a hyny yn cynnwys ei freniniaeth, fel yr oedd y ddwy swydd yn un yn mherson Melchisedec.

Adn. 7: *Yr hwn yn nyddiau ei gnawd.*

Ei fywyd ar y ddaear, wedi ei wneuthur yn "gnawd." Defnyddir y gair "cnawd" yn y Bibl am y natur ddynol, ac weithiau yn neillduol, megys yma, am y ddynoliaeth yn ei gwaeledd a'i marwoldeb. *Gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddïau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth.* Cyfeiriad at ing ein Hiachawdwr yn yr ardd. "Gweddïau ac erfyniau:" y mae y gair olaf yn gryfach, ac yn dynodi taerineb ysbryd. "O farwolaeth" yw y cyfeithiad cywir. Nid *rhag* marw, ond *o* farwolaeth—trwy adgyfodiad a gogoneddiad, medd rhai. Ond nid am hyny y gweddïai, yn ol yr hanes yn yr Efengylau, ond am i'r cwpan fyned heibio oddiwrtho, na byddai iddo yfed o hono, Mat. xxvi. 42. Nid oes yno ychwaith son am "lefain cryf" na "dagrau," er eu bod yn hollol gyson â'r darluniad a roddir yno o ing ei enaid. Gallai fod traddodiad am ddull a mater y weddi yn yr Eglwys na cheir yno. Cyfeirir yn rhai o'r Salmau Messïanaidd at y Gwaredwr yn gweddïo am gael ei achub *o* farwolaeth, ac hefyd at ei ddagrau. Gallai fod yma gyfuniad o'r Hanes, a'r Salmau, a thraddodiad. *A chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd.* Tybia rhai mai "yr hyn a ofnodd" oedd nid angeu y groes, ond y byddai ei ddynoliaeth yn cael ei llethu i angeu o dan ingoedd ei ysbryd ar y pryd—marw cyn pryd, tori i lawr cyn gorphen y gwaith, marw cyn *y* marw mawr iawnol. Cadarnheir y dyb hon gan fynegiad yr Efengylwr—"Ac ymddangosodd angel yn ei nerthu ef." Anhawdd iawn penderfynu ystyr yr adnod hon. Dywed rhai mai "ofn angeu" oedd wedi syrthio ar yr Iesu, ac mai gweddïo yr oedd am gael ei achub oddiwrth farwolaeth. Nid pechod oedd hyn, os felly yr oedd, ond gwendid y ddynoliaeth yn yr amgylchiadau digyffelyb yr oedd ynddynt. Ac yn ol hyn, dywedir iddo gael ei wrando, nid y mae'n wir trwy gael ei waredu rhag marw, ond trwy gael ei waredu rhag *ofn* marw. Ymddengys iddo golli yr ofn ar ol gweddi yr ardd. Ymddangosodd yr angel yn ei nerthu.

Dyry eraill ystyr gwahanol iawn i'r geiriau "yn yr hyn a ofnodd"—o herwydd ei dduwiol barch. Cafodd ei wrando hyd at golli yr ofn oedd bron a'i lethu, o herwydd ei "dduwiol barch"—ei ymostyngiad perffaith i ewyllys ei Dad. Dywedir i ni mai dyma yr ystyr a ddyry yr holl dadau Groegaidd; a bod yr ystyr arall "yn yr hyn a ofnodd" wedi dyfod i'r cyfeithiad Cymraeg trwy Beza a chyfeithiad Geneva.

Barddoniaeth.

BOREU SABBOTH.

Foreu Sabboth,—dyma ddathliad
I ddymuniad plentyn Duw;
Boreu gwyn ei ymddeffroad
I orphwysfa dawel yw:
Pwy na chanai henffych iddo?
Na hiraethai am barhad
I'w fynydau nef-anedig
Yn eu gorchwyl arfaethedig,
Taenu heddwch dros y wlad!

Os oedd holl foreuau 'r wythnos
Iddo 'n llawn gofalon prudd,
Dyma foreu yn ymddangos
I sirioli 'i welw rudd;
Wedi meddwl am ei fwyniant,
Wedi dyfal barotoi
Yn yr ysbryd i gyfranu
O fwynderau crefydd Iesu,
O! 'r fath hedd yw ymddeffroi!

Cyfrin iaith y byd tragwyddol
Ddaw ar dânau 'r awel lefn,
Fel i gyfarch pob ystyriol;
Wedi 'r deffro hwn drachefn,
Egyr ddôr i lŷs cydwybod
Gyda llawn ymholiad rhydd,
Nes bydd gweithrediadau 'r wythnos
Yn eu lliwiau yn ymddangos
O dan sanctaidd wawr y dydd.

Os bu 'r Tad yn llwyr gyflawni
Dyledswyddau uwcha 'u bri,
Os ymdrechodd geisio codi
Plant i olwg Calfari;
Tiwy eu rhoi yn ngofal adnod
Fach i deithio 'r llwybr cul;
Llwyr goroni ei ymdrech galed
Trwy 'r mwynhad o'u gwel'd yn myned,
Ydyw gwaith y Boreu Sul.

Yntau 'r ieuanc wedi paentio
Aur-freuddwydion gwanwyn oes,
Ddeffry i'r mwynhad o geisio
Sylwedd gwell yn "Angeu 'r groes."
Tawdd ei foliant duwiolfrydig
I'r foreuol anthem fawr,
Nes mae 'i enaid iach yn esgyn
Fel yn nghôl ei ddwyfol emyn
Fry i fro 'r dragwyddol wawr.

Ond! i'r di-dduw poen yw deffro
I wynebu 'r Boreu hwn,
Trwy ei natur traidd rhyw gyffro,
Ar ei galon gorphwys pwn;
Ac ar fynwes oer ochenaid
Daw ei enaid llesg o'i flaen,
Yntau dry ei blygion ysig
Fel dalenau llyfr treuliedig,
Cenfydd arnynt staen 'r ol staen.

O! 'r fath gyfnewidiad rhyfedd
Ydyw hyn i ddynol ryw,
Cael y Sul yn llawn tawelwch
Wedi Sadwrn halog ryw:
Newid oriau ydynt dystiou
O wel'd myrdd yn myn'd ar goll,
Am yr oriau wnant ddystewi
Twrf y byd er mwyn cyhoeddi
Gobaith i'r ddynoliaeth oll.

Gras-genadon gerddant allan
I chwanegu at ei fri,
Trwy anadlu 'n udgyrn arian
Gwirioneddau Calfari,

Er mwyn dathlu adgyfodiad
Dwyfol ryfedd Iesu Grist,
'R adgyfodiad rhyfedd hwnw
A all dori hûn pob marw
Yn y bedd anghofus trist.

Etholedig oriau 'r meddwl
Ydyw 'r oriau tawel hyn,
Dyry rawd trwy nen ddi-gwmwl
I gopäon bythol-wyn
Bryniau tâl y cyfammodau,
Bryniau 'r golygfäoedd fyrdd,
Lle caiff ddarllen hedd-feddyliau
Yr Anfeidrol ar ddalenau
Addewidion bythol-wyrdd.

Calon masnach wedi sefyll
Gawn dan wenau 'r Boreu hwn,
Heb anifail dan y ffrewyll—
Heb un gweithiwr dan ei bwn:
Dwyfol ryddid yr Efengyl
Sydd yn dylyn rhawd y dydd,
O bellafoedd tragwyddoldeb
I orchfygu daearoldeb,
Fel caiff pawb anadlu 'n rhydd.

Foreu hyfryd, Foreu melus,
Cerdda rhagot yn dy fri,
Dywed dae'r a nef mai dilys
Ydyw dy genadaeth di;
Oes, mae tystion i'th ddylanwad
Yn nhyrfäoedd Sïon fryn;
Traethu gwerth dy oriau gloewon
Wrth finteioedd o angylion,
Y mae llawer enaid gwŷn.

BRYFDIR.

Blaenau Ffestiniog.

ER COF AM MR. EDWARD JONES, COLWYN, TREFEGLWYS.

AETH ein hanwyl dad o Golwyn
I orphwysfa 'r Ganaan glyd,
I ryfeddu ac addoli
Âm ei ddal a'i arwain c'yd,
Heb ymdd'rysu
Yn nhröadau anial fyd.

Bu yn un o brif sefydlwyr
Eglwys fechan y Berth las;
Gwnelai ffordd trwy anhawsderau
Fwy na mwy i foddion gras:
Ffyddlawn ydoedd
Yn yr holl dŷ megys gwas.

Mwy ni chlywir ei weddïau
Taerion iawn wrth orsedd Duw;
Arglwydd! cofia 'i blant a'i weddw
Sydd yn awr ar dir y byw:
Pen yr Eglwys
Byth yr un heb newid yw.

SIARL TRANNON.

Trefeglwys.

CUSAN JUDAS.

JUDAS fu 'n brad-fwriadu,—a cheisiodd
A chusan ei gelu;
Rhoes warthnod y dyrnod du
Ar rasol rudd yr Iesu.

DEINIOL DERFEL

BEDDARGRAFF Y BEDD.

(AR Y BEDD GWAG.)

(Cyfieithiad o Hen Awdwr Seisonig.)

FAN yma, lle unwaith bu 'n Harglwydd yn cysgu,
Y Bedd sydd yn gorwedd yn awr wedi ei gladdu.

G.

Adolygiad y Wasg.

PULPUD CYMRU. "Y Gair a'r Ysgol." *Pregeth ar* 2 *Tim.* iii. 16, 17. *Gan y Parch.* JOHN ELIAS HUGHES, M.A., *Llundain.* Davies & Evans, Bala. 1890.

CAWSOM ein boddhau yn fawr yn y Bregeth hon. Teimlem wrth ei darllen fod ynddi ragoriaethau anghyffredin. Un peth sydd yn myned ymhell i brofi hyny ydyw y graddau helaeth o newydd-deb sydd ar yr holl ymdriniaeth. Ond y mae mor sylweddol ag ydyw o newydd. Nid fel y newydd-deb y soniai Dr. Johnson am dano. Pan ofynodd rhywun iddo ei farn am lyfr oedd yn gwneyd cryn son am dano, ei ateb oedd:—"Llyfr sal iawn, syr, sal iawn. Yr hyn sydd yn wir ynddo, nid yw yn newydd; a'r hyn sydd yn newydd, nid yw yn wir." Nid felly newydd-deb y Bregeth hon. Caria y meddyliau sydd ynddi, pa mor newydd bynag eu ffurf, argyhoeddiad eu bod yn wir. Yn yr ystyr hon, da ydyw rhoddi hen win mewn costrelau newydd-ion. Goreu po hynaf fo y gwin, a goreu po fwyaf newydd y costrelau.

Dengys y Bregeth ôl coethder a diwylliad, ôl darllen a meddwl. Gwelir fod gan yr awdwr afael gref ar egwyddorion, dawn i'w hegluro, dychymyg i'w haddurno, a difrifwch amcan i'w cymhwyso at y galon a'r gydwybod. Gwnelai y Bregeth hon lês dirfawr pe cai ei darllen a'i hastudio gan filoedd athrawon a deiliaid Ysgolion Sabbothol Cymru. Y mae ei gwerth yn fawr, a'i phris yn fychan—dim ond un Geiniog.

THE EXPOSITORY TIMES. Vol. I. July and August, 1890. Edinburgh: T. & T. Clark.

Y MAE y ddau Rifyn hyn o'r cyhoeddiad hwn yn awr ger ein bron. Y mae yn gyhoeddiad bychan hynod o fuddiol a dyddorol, yn arbenig, fel y dengys ei enw, ynglŷn âg Esboniadaeth Ysgrythyrol. Gellir ffurfio syniad am ei natur trwy nodi ychydig benau o'i gynnwysiad:—Nodiadau o Esboniadaeth Ddiweddar (ceir dan y pen hwn sylwadau nodedig o ddyddorol, ac eglurhad ar adnodau neill-

duol sydd yn dygwydd tynu sylw mewn llyfrau diweddar, megys Malachi ii. 15—"yr ysbryd yn ngweddill ganddo," lle y dangosir y camddefnydd a wneir mor fynych o'r geiriau trwy eu cymhwyso at Dduw, fel pe byddent yn meddwl fod "gweddill" o'r Ysbryd Glân yn aros eto gan Dduw, er cymaint a gyfranodd! "gwydr gloew," Dat. iv. 6, &c.; Dr. Martineau ar berthynas Llyfr y Datguddiad âg Efengyl Ioan—Hunaniaeth Personol, gan Syr G. G. Stokes—Cystadleuaeth ar Esbonio adnodau anhawdd (perthynol i'r cyhoeddiad hwn), beirniad, Principal Moule, M.A.—Dr. Grosart ar yr Iesu a'i ddysgyblion yn Canu Hymn—Dagrau yr Iesu, gan y Parch. J. P. Kingsland—yr Ethiopiad a'r Hen Destament, gan y Parch. George Adam Smith, M.A.—Cwestiynau ac Atebion—Nodiadau ar Lyfrau, &c., &c. Nid yw hyn ond ychydig o lawer o bethau yn y cyhoeddiad hwn, nas gallant lai na gweinyddu budd a hyfrydwch mawr i'r efrydydd Biblaidd. Cyhoeddiad misol ydyw, a'i bris yn ddim ond Tair Ceiniog.

Llyfr Genesis, *gyda Nodiadau at wasanaeth Deiliaid yr Ysgol Sabbothol. Gan y Parch.* R. Humphreys, *Bontnewydd, Caernarfon.* Ail Argraffiad. Caernarfon: D. W. Davies & Co, 1890.

Y mae fod y llyfr hwn yn ei Ail Argraffiad yn dystiolaeth eglur i'w deilyngdod, ac ar yr un pryd yn dangos nad oes anghen ei gymeradwyo a'i gymhell, gan ei fod eisoes yn adnabyddus, ac yn cael ei ddefnyddio trwy ranau helaeth o'n gwlad. Credwn ei fod yn deilwng o'r derbyniad a gafodd, ac o'r derbyniad helaethach fyth, ni a ddysgwyliwn, sydd yn ei aros eto. Y mae yn Esboniad rhagorol, ac yn bobpeth a ellid ei ddymuno, feddyliem, at y pwrpas y bwriadwyd ef iddo. Y mae y Nodiadau yn eglur, yn fyr a chynnwysfawr, ac yn helaeth pan y mae anghen am hyny; ac y maent yn hollol at y pwrpas—yn cymeryd i fyny y pethau y mae anghen eu hegluro, yn hynod foddhaol. Gwnaeth yr awdwr ddefnydd o'r llyfrau goreu at yr amcan, lluaws o ba rai a enwa yn y Rhagymadrodd. Ond y mae yn sicr fod y llyfr yn ffrwyth meddwl dwys yn gystal â darlleniad eang a gofalus. Ac nid oes ar ein Hysgolion Sabbothol eisieu gwell arweinydd i'w dysgu yn y maes hwn o lafur yr Undeb. Pris y llyfr yw Tri Swllt, wedi ei rwymo mewn lliain hardd a chryf.

Bara Beunyddiol. *Trefniad er darllen y Testament Newydd trwodd unwaith mewn blwyddyn, a'r Hen Destament unwaith mewn blwyddyn, neu unwaith mewn dwy flynedd.* Bala: Davies ac Evans.

Y mae y llyfryn bychan hwn yn ei egluro ei hun, ac wrth wneyd hyny y mae yn ei ganmol ei hun wrth bob cydwybod. Cymhorth anhegor i fywyd crefyddol yw darlleniad dyfal o'r Ysgrythyrau; a chymhorth nid bychan at ddarllen yw cynllun i ddarllen. Gwir nad yw darllen y Bibl a gweddi ddirgel yn ddyledswyddau i'w cyflawni fel peirianwaith; ond y mae rheol a chynllun, yr un pryd, yn fesur o sicrhad i gyflawni yr hyn, heb hyny, a fyddai mewn mwy o berygl cael ei esgeuluso.

Y mae yn hysbys i lawer fod Cymdeithasau neu Undebau i'r dyben hwn yn Lloegr yn gweithio yn dda. Gwelir oddiwrth y Nodyn canlynol fod y Parch. Isaac Jones Williams, Llandderfel, yn ffurfio "Undeb" i'r dyben hwn yn Nghymru. Gobeithiwn y llwydda yn fawr. Gwelir ar unwaith fod y dull hwn o ddarllen y Bibl yn wahanol, o ran ei nodwedd a'i ddyben, i'r llafur ar gyfer yr Ysgol Sabbothol a'r Arholiadau. Y mae y ddau fath lafur yn gyson â'u gilydd ac yn gynnorthwy i'w gilydd.

Fel hyn yr ysgrifena y cyfaill a enwyd:—

"..... Ofnwn mai ychydig iawn o bobl ieuainc sydd yn meddwl am ddarllen y Bibl trwodd, a hyny yn benaf fe allai o ddiffyg cynllun i hyny. Dyma ein rheswm dros gyhoeddi y llyfryn bychan hwn, a ffurfio 'Undeb Ysgrythyrol.' Y mae Undebau o'r fath yn llwyddiannus iawn ymhlith y Saeson, ac nis gwelwn paham nas gallai symudiad o'r fath weithio yn Nghymru. Amser a ddengys. Gyda chofion caredig, yr eiddoch yn gywir,

Isaac Jones Williams."

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynaliwyd yn Cilgerran, Awst 5 a'r 6ed, wrth wneuthur sylwadau ar yr adroddiad o ystadegau y Sir am y flwyddyn ddiweddaf, cwynid wrth weled fod lleihâd yn nifer yr aelodau, ac hefyd yn yr

holl gasgliadau. Sylwid fod yn hyn alwad uchel ar yr eglwysi i nesâu at yr Arglwydd i ofyn am iddo fywhau ei waith yn nghanol y blynyddoedd hyn. Cafwyd anerchiadau gwresog ar y Genadaeth Dramor gan y Parch. G. Ellis, M.A., ac amryw o weinidogion y Sir.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Dysgwylfa, Awst 11 a'r 12fed, rhoddwyd cynghor o'r fath werthfawrocaf i'r pregethwyr ieuainc, yn cynnwys nifer o efrydwyr yn Athrofa y Bala, gan y Parch. J. Hughes, D.D., yn cynnwys annogaethau i adnabod eu hamser, adnabod eu gwaith, cymhwyso eu hunain i'w gwaith, a chyfaddasu eu gwaith i'w hamser. Diolchwyd yn unfrydol i Dr. Hughes am y Cynghor. Rhoddwyd hanes ymdrafodaeth faith a phwysig a fu rhwng yr Ysgrifenydd, ynghyd a Mr. Edwards, Caerhun, a Col. West, goruchwyliwr Arglwydd Penrhyn, ynghylch prydlesoedd amryw o'n capelydd yn Arfon. Cafwyd derbyniad caredig ac atebion boddhaol ar y cyfan gyda golwg ar estyn y prydlesoedd am dymmor llawer mwy boddhaol na'r rhai presennol, er mai am werthiant yr oll yr oeddid wedi gofyn ar y cyntaf. Diolchwyd i Arglwydd Penrhyn. Rhoddwyd croesawiad calonog i Dr. Harries, Chicago. Diolchwyd i'r Parch. J. Owen, M.A., Criccieth, am ei wasanaeth fel Arholwr Ysgol Clynnog; a dadgenid boddhad y Cyfarfod Misol wrth weled golwg mor ymroddgar ac addawol arni. Galwyd sylw at Adroddiad Pwyllgor Dirwestol y Gymanfa Gyffredinol, a phasiwyd annogaeth gref i'r holl eglwysi wneuthur pob ymdrech trwy foddion cyfreithlawn i wrthwynebu adnewyddiad trwyddedau a phob cais am drwyddedau neillduol i werthu diodydd meddwol mewn arddangosiadau, cystadleuaethau, &c. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i *Gofiant* rhagorol y Parch. Joseph Thomas, Carno; a galwyd sylw at y Llawlyfrau gwasanaethgar ar lyfr Genesis gan Mr. E. Jones, Bangor, a'r Parch. W. Lewis, Pontypridd.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn y Pistyll, Awst 18 a'r 19eg, darllenwyd Cylchlythyr oddiwrth Ysgrifenydd Cymanfa Ddirwestol Gwynedd, yr hon a gynnelir y flwyddyn hon yn Llanrwst, Hydref yr 21ain, yn dymuno ar i'r Cyfarfod Misol benodi cynnrychiolydd i'r Gymanfa, ac yn adgoffa y gweinidogion a'r eglwysi am y Sabboth Dirwestol (yr olaf yn Nhachwedd), ac am yr achos dirwestol ar y Sabboth hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Nhanyfron, Awst 14 a'r 15fed, penderfynwyd fod rhan dda o un Cyfarfod Misol ymhob blwyddyn i gael ei roddi i ymdrin â phob un o'r materion canlynol:—(1.) Yr Ysgol Sabbothol; (2.) Ystâd crefydd a moesoldeb yn Nghymru, yn enwedig o fewn cylch y Cyfarfod Misol; (3.) Rhwymedigaeth yr eglwysi i ymdrechion cenadol; (4.) Llênyddiaeth grefyddol a chyfundebol.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Rehoboth, Cann Office, Awst 21 a'r 22ain, penodwyd ymwelwyr â'r Eglwysi ddechreu y flwyddyn nesaf, a bod y pethau canlynol yn faterion yr ymweliad:—1. Rhwymedigaeth proffeswyr crefydd i gynnal addoliad teuluaidd; a gwneyd y teulu, trwy addysg ac esiampl, yn feithrinfa ac yn amddiffynfa i burdeb ein pobl ieuainc. 2. Rhwymedigaeth yr eglwysi i ymdrechu o blaid dirwest, ac i ymosod yn benderfynol yn erbyn yr arferiad o gyfeddach a diota sydd, y mae lle i ofni, yn cynnyddu yn ein gwlad. 3. Rhwymedigaeth yr eglwysi i gefnogi llênyddiaeth bur, ac ynglŷn â hyn—(1.) I ymofyn pa lyfrau a dderbynir ac a ddarllenir yn yr ardaloedd. (2.) Annog yr Ysgolion Sabbothol i sefydlu llyfrgelloedd, ac er mwyn hyn, i wneyd defnydd o'r cynnyg a roddir gan Ymddiriedolwyr y diweddar Mr. D. Jones, yn y ffurf o gynnorthwy i'w sefydlu. 4. Rhwymedigaethau yr eglwysi gyda golwg ar eu gwaith Cenadol.

ARHOLIAD ATHROFA TREFECCA: MEHEFIN 8–14, 1890.

Arholwr Duwinyddol: Y Parch. G. Parry, D.D.

Arholwr Clasurol: Y Parch. D. Charles Edwards, M.A.

(Papyrau yr Arholiad Duwinyddol, yn cynnwys Athroniaeth Foesol a Meddyliol.)

MENTAL PHILOSOPHY. *(Junior.)*
Hamilton: pp. 36–102.

I. What is Sir William Hamilton's conception of the primary problem of Philosophy? And show how that view leads up to the highest question of his Philosophy—the nature of our knowledge of the unconditioned.

II. On what ground does Hamilton hold that Deity as a cause not conditioned is inconceivable? And on what ground, on the other hand, does he justify our belief in a God at once personal, intelligent, causal and moral?

In other words, how does he exclude a philosophical knowledge of, and maintain a philosophical belief in, the ultimate or primary unity?

III. What is Hamilton's teaching, compared with Positivists and Agnostics, such as Comte or Spencer, with regard to their restriction of view to mere natural phenomena, and their negation or indifference as to problems of origin—*i.e.* the beginning of things?

IV. Mention the three great divisions, or questions, regarding Mind as the object of study in philosophy; and explain briefly what is included under each.

V. Explain what are called *inferences* or results, as pointing to an essential distinction in the doctrine of Hamilton: *e. g.* Are the identity and immutability of the Ego, the material world, and the existence and attributes of God, objects of immediate knowledge? Or, if not, in what way are they arrived at? Under which of the above divisions do these questions come?

VI. Explain the important place which *Consciousness* holds in the philosophy of Hamilton. How is it shewn to be essentially related to all our knowledge? And does this determine Hamilton's method to be analytic or synthetic?

VII. Give Hamilton's three rules to distinguish the really ultimate facts of consciousness from what is merely derivative and empirical.

VIII. The true meaning of the *conceivable* and *inconceivable* being essential to the understanding of Hamilton's system, explain his meaning of those terms; and show how they lead to his distinction between Knowledge and Belief, or philosophic faith. Point out Mill's mistake in his criticism on this part of the subject.

IX. Show the futility of Kant's "transcendental deduction"—whether as a process of logical subsumption or as a synthetic process—compared with the analytic method of psychology.

X. Point out the confusion of thought running through the whole of Mill's criticism of Hamilton's doctrine of presentative and representative knowledge.

XI. Reproduce as many as you can of Hamilton's "Conditions of Consciousness."

G. PARRY.

MENTAL PHILOSOPHY. *(Senior.)*
Hamilton: pp. 120--246

I. What are the three great classes into which the whole phenomena of Consciousness may be grouped? Give Veitch's reason for a four-fold division.

II. Give a brief summary of Hamilton's analysis of the phenomena of Knowledge.

III. State and contrast the features of immediate and mediate knowledge.

VI. What, according to Hamilton, is the testimony of consciousness in Perception proper?

V. What is the fundamental element of difference between the position of Hamilton and that of Kant, in relation to
a. Perception.
b. Time and Space.

VI. Explain the difference between the two rival theories of Natural Realism and Hypothetical Realism.

VII. What is the logical consequence of Brown's denial of the possibility of immediate perception? And how does he reconcile this denial with a belief in the reality of the external world?

VIII. Explain the difference between Realism and Idealism. What is meant by Egoistical and non-Egoistical Idealism? Which of these was Berkeley's doctrine?

IX. Mention some of the salient points of Hamilton's Philosophy (in addition to those referred to) in Phenomenal Psychology, under the following heads:—
a. The laws regulating Perception and Sensation.
b. Memory and Imagination.
c. The Laws of Association.
d. The psychology of the Feelings.
e. The Conations.

X. Briefly explain Hamilton's Conditions of Formal Laws of the Thinkable, viz.:—
1. The distinction of thought—Negative and Positive.
2. The laws of positive thought:—
(1) Identity.
(2) Non-contradiction.
(3) Excluded Middle.

XI. Point out how the philosophy of Hamilton stands opposed to philosophies of the Absolute—to Hegelianism, for example, and how it shows it to proceed on a subversion of all logical truth.

XII. In the conditions of the thinkable, we have seen that the first is the distinction of thought. Explain the *second* great condition—Hamilton's theory of Relativity (in its twofold aspect).

XIII. Define Hamilton's Doctrine of the Conditioned. Explain how he shows that the Unconditioned, as taken to combine the Absolute and the Infinite in one thought, is an inconceivable notion, and a contradiction.

XIV. Show how Hamilton's doctrine exposes the fallacy involved in Kant's "contradictory antinomies," and gives their true solution.

G. PARRY.

CYFARFODYDD PREGETHU.

GLYN-NEDD.

CYNNALIWYD Cyfarfod blynyddol y lle hwn Sabboth a Llun, yr 17 a'r 18fed o Awst. Gweinyddwyd gan y Parchn. E. Jones, Castellnedd, a D. Williams, Gowerton.

GLANDWR, ABERTAWE.

Cynnaliodd yr eglwys uchod ei Chyfarfod Blynyddol Sabboth a Llun, Awst 10 a'r 11eg, pryd y pregethwyd gan y gweinidogion canlynol:—Dr. Saunders, Dr. Cynddylan Jones, Parchn. J. Wyndham Lewis, Caerfyrddin, ac Abraham Oliver, Pontardulais.

SOAR, GIANT'S GRAVE.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol y lle hwn Sabboth a Llun, Awst 10 a'r 11eg, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. T. C. Phillips, Abercarn, a T. E. Edwards, Cwmafon.

TYLDESLEY.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn nos Sadwrn a Sabboth, Awst 30 a'r 31ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. William Jones, Trawsfynydd; Robert Roberts (A), Rhos; a D. O. Jones (W), Manchester.

STOCKTON-ON-TEES.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol y Methodistiaid yn y dref hon, Sabboth a Llun, Medi 14 a'r 15fed. Pregethwyd yn Saesoneg prydnawn Sabboth, ac yn Gymraeg boreu a nos Sabboth a nos Lun. Gweinyddwyd gan y Parch. G. Parry, D.D., Carno.

BONTNEWYDD, SIR FYNWY.

Cynnaliwyd y Cyfarfod Pregethu cyntaf gan yr eglwys newydd hon Sabboth a Llun, Awst 31 a Medi 1af. Pregethwyd gan y Parchn. W. Mydrim Jones, Llanelli; D. J. Beynon, Abercarn; J. Rhys, Abertillery; a'r Henadur Aaron Davies, Rhymni.

AMRYWION.

LLANDRINDOD.

Cynnaliwyd Cyfarfod Cenadol rhagorol yn y lle uchod, nos Iau, Awst 28ain. Llywyddwyd gan Edward Davies, Ysw., U.H., Llandinam. Areithiwyd gan y Parchn. R. H. Morgan, M.A., Menai Bridge; Moses Thomas, Resolven; H. Barrow Williams; T. Levi; a D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam. Nos drannoeth cynnaliwyd Cyngherdd yn yr un lle, yr elw at ddileu dyled y Capel.

GOWERTON.

Traddododd y Parch. E. Rees (Dyfed), Caerdydd, ei ddarlith boblogaidd ar y testyn "Mis yn Nghanaan," yn y lle uchod, nos Sadwrn, Awst 23ain.

LLANWRTYD.

Traddodwyd Darlith ragorol yn y lle hwn, yn niwedd mis Awst, ar "William Prydderch a'i hynodion," gan y Parch. H. T. Stephens, Birchgrove. Llywyddwyd gan y Parch. J. B. Jones, B.A., Aberhonddu.

TYDWEILIOG.

Anrhegwyd y Parch. R. Roberts, ar ei ymadawiad o eglwysi Tydweiliog a Phenllech, i gymeryd gofal eglwysi Morfa Nefyn, âg anerchiad hardd a gwerthfawr—cynnyrch teimladau caredig ac anmhrisiadwy. Gwasanaethodd Mr. Roberts, fel bugail, yr eglwysi hyn am ddeunaw mlynedd, a rhoddai eu holl swyddogion y gymeradwyaeth uchaf iddo mewn cymeriad a gwasanaeth. Traddodwyd anerchiadau yn y cyfarfod ymadawol gan y Parchedigion J. Jarrett, Nefyn; J. Hughes, Edeyrn; E. Hughes, Deunant; a H. Pugh, Penygraig; a rhoddai yr oll dystiolaeth uchel i Mr. Roberts fel dyn, pregethwr, bugail, cyfaill a chymydog.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. JOHN DAVIES, LLANYMDDYFRI.

Bu farw y gŵr hwn boreu dydd Iau, Awst 28ain, yn lled ddisymwth, er nad oedd yn hollol iach er ys rhai wythnosau. Dechreuodd bregethu tua deuddeng mlynedd yn ol; ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa Aberystwyth yn y flwyddyn 1887. Er na chawsai fanteision addysg athrofaol, ac er ei fod wedi priodi a chychwyn masnach cyn dechreu pregethu, yr oedd yn bregethwr cymeradwy a defnyddiol. Yr oedd yn ŵr hynaws, a'i dduwioldeb yn ddiammheuol. Cymerodd y gladdedigaeth le dydd Llun, Medi 1af.

Nodiadau Misol.

ESGOB LICHFIELD AC ANGHYDFFURFWYR.

Tua diwedd mis Awst anfonodd Esgob Lichfield wahoddiadau i tua chant o weinidogion Ymneillduol yn yr esgobaeth, yn eu gwahodd i'r palas esgobol yn Lichfield, ar ddydd gŵyl Fihangel, i gymeryd *luncheon* (ciniaw ganol dydd) gydag ef. Y mae yn ddealledig nad oes un bwriad i ymdrin â'r cwestiynau sydd yn eu gwahanu hwy oddiwrth yr Eglwys, nac o ystyried y pwnc o Undeb *(Home Reunion)*. Ond bydd cyfarfodydd ychwanegol yn y rhai y gwahoddir y gweinidogion Ymneillduol i gymeryd rhan; a chynnelir gwasanaeth hwyrol yn yr eglwys gadeiriol, yn yr hwn y gofynir iddynt ymuno.

CYNNADLEDD UNDEB Y GWEITHWYR.

Cymerodd Cynnadledd bwysig le yn

Liverpool ddechreu mis Medi berthynol i Undebau Gweithwyr. Yr oedd 4570 o gynnrychiolwyr yn bresennol, yn cynnrychioli 311 o gymdeithasau, a 1,470,191 o weithwyr. Yr oedd Araeth agoriadol y Llywydd, Mr. Matkin, yn obeithiol o ran ysbryd a chymedrol o ran tôn, ar y cyfan; ond nid yn ddigon ymarferol fe allai. Dadleuai rai pynciau na bydd galw am eu dadleu yn ol pob tebyg am ganrif neu ddwy eto. Yr oedd rhai o'r cyfarfodydd yn ystormus. Bygythiodd y Llywydd unwaith adael y gadair. Un o'r materion pwysicaf a fu dan sylw oedd y cynnygiad i ymdrechu cael cyfraith i gyfyngu diwrnod gwaith i wyth awr. Pasiwyd ef trwy fwyafrif o 38. Credwn mai camgymeriad oedd hyn. Nid oes eisieu cyfryngiad y Llywodraeth yn y mater hwn. Byddai y feddyginiaeth yn waeth na'r dolur. Y peth nesaf fyddai gofyn i'r Senedd gyfodi cyflogau. Y mae yn eu gallu hwy eu hunain gario pwnc yr wyth awr, fel y gwnaeth y mŵnwyr Ysgotaidd, a mŵnwyr Gogledd Lloegr. Ond nid yw yn eu gallu hwy mwy na neb arall benderfynu cyflogau yn annibynol ar ddeddfau masnach. Y mae Undeb y Gweithwyr yn dda, o fewn terfynau, ac yn anghenrheidiol er eu hamddiffyniad rhag dosbarth o feistriaid diegwyddor. Ond y maent mewn dau berygl:—credu gormod yn ngallu y Llywodraeth, a chredu gormod yn ngallu yr Undeb. Rhaid i'r bobl weithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain, yn hyn fel mewn pethau eraill. A chamsyniad o'r fath fwyaf yw tybied y gallant gael unrhyw beth a ddewisont mewn amser neu arian trwy *undeb*. Y mae deddfau masnach mor anorchfygol a deddfau natur. O ran hyny, deddfau natur ydynt mewn tiriogaeth benodol. Oferedd yw hawlio cyflog uwch nag a ellir ei roddi yn gyson âg elw rhesymol i'r rhai sydd yn anturio eu harian yn y gwaith, ac yn myned o dan yr holl gyfrifoldeb. Penderfynir hyn, wrth gwrs, gan ddeddfau masnach—yn arbenig deddf fawr gofyn a chyflenwad—*(demand and supply)*.

CANON LIDDON.

Bu farw y gŵr enwog hwn yn Weston-super-Mare, boreu ddydd Mawrth, Medi y 9fed, yn nhŷ ei chwaer. Clefyd y galon oedd yr achos o'i farwolaeth. Collodd Eglwys Loegr yn ei farwolaeth ef ei phregethwr mwyaf, a mwyaf poblogaidd. Yr oedd ei ddylanwad yn fawr ar feddwl yr oes. Yr oedd yn nodedig o fyw i symudiadau meddyliol yr amseroedd ynglŷn â phynciau crefydd. Ac yr oedd i raddau nodedig wedi ei gyflawn ddodrefnu i gyfarfod â gwahanol agweddau anffyddiaeth yr oes. Dywedir fod ei ddylanwad pan yn broffeswr yn Rhydychain yn fwy nag oedd yr eiddo Pusey, a bron cymaint a'r eiddo Newman. Trueni o beth ydyw fod y dyn enwocaf a feddai Eglwys Loegr wedi marw heb ei wneyd yn Esgob. Dywedir na chynygiwyd esgobaeth iddo erioed hyd nes y cynnygiodd Arglwydd Salisbury iddo esgobaeth ddmod ac israddol St. Albans. Gobeithiwn nad gwir yw y chwedl sydd ar daen er's hir amser, mai yr achos o hyn oedd rhyw ragfarn o du y person uchaf yn y wladwriaeth.

Byrnodion Amrywiaethol.

Nid oes neb yn y wlad hon yn meddwl fawr o'r gelfyddyd feddygol fel y mae yn cael ei harfer yn China. Ond dywed y *Consul* Prydeinig yn China fod yn werth chwilio peth iddi. Dywed fod ganddynt rai cyfferiau gwerthfawr anadnabyddus i ni. Allforwyd oddiyno y flwyddyn ddiweddaf yn agos i dair miliwn o bwysi o gyfferiau meddygol. Ymddengys fod ganddynt hwy fath o dê *(Pu urh tea)* meddygol, yr hwn sydd mor effeithiol, ac yn llawer haws ei gymeryd na *senna*—un o'r cyfferiau mwyaf annymunol mewn bod.

Ysgrifenodd Cardinal Manning lythyr at Ysgrifenydd Cymdeithas Eglwys Loegr i ddwyn ymlaen Ddiwygiad yn y dull o Gladdu, trwy wneyd i ffordd â gwychder a chostau afreidiol, a mabwysiadu arferion o symledd a chynnildeb. Cymeradwyai y Cardinal amcan y Gymdeithas yn fawr; sylwai yr un pryd mai ychydig o'r gwychder hwn oedd yn dyfod o dan ei sylw personol ef, o herwydd "tlodi ei bobl."

Y mae gweriniaeth Ffrainc newydd gychwyn ar ei hunfed flwydd ar hugain. Darfyddodd y Drydedd Ymherodraeth ar y 4ydd o Fedi, 1870. Yr oedd yn fyw yn y boreu, ac wedi marw erbyn yr hwyr. Aeth y Weriniaeth trwy dymmorau cynhyrfus er y pryd hwnw, ond daliodd ei thir yn rhyfedd. Goroesodd gwymp Thiers a marwolaeth Gambetta. Aeth drwy bob math o gyfnewidiadau yn y Cyfansoddiad. Aeth drwy chwyldroad yn heddychol. Nid yw ei gelynion byth er y pryd hwnw wedi gallu ei rhoddi mewn gwir berygl. Ymddengys fod Ewrop yn awr yn dyfod i gredu yr egwyddor a ddodai Thiers i lawr fel sylfaen ei wladlywiaeth, yn nhymmor olaf ei weinyddiaeth, mai gweriniaeth yw yr unig ffurf o lywodraeth sydd bellach yn bosibl i Ffrainc. Hellid meddwl fod y genedl ei hunan erbyn hyn wedi ei hargyhoeddi o hyny. Rhaid i ewyllyswyr da Ffrainc feily ewyllysio yn dda i'w Gweriniaeth.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA YSTRADGYNLAIS,

MEHEFIN 10FED, 11EG, A'R 12FED, 1890.

Llywydd:—Y Parch. E. PHILLIPS, Castell-newydd-Emlyn.

DYDD MAWRTH, Y 10FED.

Am 6 o'r gloch, Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa.

DECHREUWYD trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. J. E. Davies, M.A., Llundain.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

Yn absennoldeb y Llywydd, etholwyd y Parch. D. Edwards, Casnewydd, i lywyddu nes y deuai.

II. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. W. Morris, Llandudoch, yn cydnabod derbyniad llythyr oddiwrth y Gymdeithasfa yn dadgan cydymdeimlad âg ef yn ei gystudd, a phenderfynwyd anfon llythyr yn ol ato yn dadgan ein llawenydd a'n diolchgarwch wrth glywed ei fod yn well, ac mewn gobaith o gael ei adferu i'w iechyd a'i ddefnyddioldeb arferol.

III. *Derbyn Materion ar y pryd.*—Rhoddwyd caniatâd—1. I'r Parch. W. Dickens Lewis, D.D., i alw sylw y Gymdeithasfa at gofgoloffn y diweddar Dr. Morgan, Esgob Llanelwy, a chyfeithydd y Bibl i'r Gymraeg.—2. I'r Parch. W. James, M.A., i alw sylw at safon yr Arholiad Cymdeithasfäol.—3. I ddwyn ger bron gasgliad y Genadaeth Gartrefol, rhag i'r amrywiol gasgliadau beri i'r eglwysi anghofio y casgliad tra phwysig hwn yn ei amser.—4. Penderfynwyd fod y Parchn. M. Morgan, Abertawe, a W. Evans, M.A., Pembroke Dock, i dynu allan benderfyniadau a deiseb ar fater *Compensation Clauses* y Mesur sydd yn awr ger bron y Senedd.

IV. Derbyniwyd Cenadwriaethau o'r Cyfarfodydd Misol.

V. Gyda golwg ar genadwri o Sir Frycheiniog, rhoddwyd caniatâd i werthu rhan o'r eiddo perthynol i'r achos yn Aberhonddu.

VI. *Ewyllys y ddiweddar Miss Blanche Evans.*—Cafwyd eglurhad gan y Parch. D. Edwards ar ryw anhawsder a deimlid i fyned ymlaen gyda'r achos hwn yn hollol fel y penderfynwyd yn y Gymdeithasfa ddiweddaf, a dangosid y gellid cyrhaedd yr amcan mewn dull arall, a phenderfynwyd, —Ein bod yn cyflawn awdurdodi y Parch. D. Edwards i fyned ymlaen i godi yr arian o'r Canghell-lys yn ol y cynllun olaf a nodid ganddo.

VII. *Adroddiad Pwyllgor ar Addysg ein Pregethwyr.*—Galwyd sylw at yr adran *(b)* 2, ac ar ol cryn lawer o ymddyddan, cynnygiwyd fod yr ymadrodd "neu Logic," ar ol y gair Mathematics, yn y drydedd linell o'r gwaelod, i gael ei adael allan. Derbyniwyd y gwelliant hwn, a phenderfynwyd,—Ein bod yn derbyn ac yn cadarnhau yr Adroddiad gyda'r gwelliant uchod, sef yn y ffurf a ganlyn:—Yn Nghymdeithasfa Crughywel, a gynnaliwyd Ebrill 14 a 15, 1890, penodwyd pwyllgor i ystyried sefyllfa bresennol ein pregethwyr ieuainc gyda golwg ar eu haddysgiaeth mewn Duwinyddiaeth, ac i awgrymu rhyw gynllun i sicrhau iddynt yr addysg angheurheidiol hon.

Yn unol â'r penderfyniad uchod, cyfarfu y Pwyllgor yn Festri Capel Penuel, Pontypridd, ar ddydd Sadwrn, y 3ydd o Fai, pan yr oedd yn bresennol, o aelodau y Pwyllgor, y Parchn. Thomas Rees, Cefncoed; J. M. Jones, Caerdydd; R. Morgan, Aberdar, a Mr. R. W. Jones, B.A., Gelligaer. Cafodd y Pwyllgor y budd o brofiad a chynghor Professor Powell, o Goleg Caerdydd, yr hwn oedd yn bresennol trwy wahoddiad.—1. Etholwyd y Parch. Thomas Rees yn Gadeirydd, a Mr. R. W. Jones yn Ysgrifenydd.—2 Wedi ystyriaeth faith a phwyllog o'r cwestiwn, cymeradwyodd y Pwyllgor y Penderfyniadau canlynol i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa nesaf.—*(a)* Ein bod yn anghefnogi pregethwyr ieuainc na fyddont wedi myned trwy *gwrs* o addysg reolaidd mewn Duwinyddiaeth i gymeryd gofal bugeiliol o eglwysi, ac yn annog y Cyfarfodydd Misol i gymeryd y peth i'w hystyriaeth fwyaf difrifol ac i ymwneyd yn fwy uniongyrchol â'r pregethwyr ieuainc ac â'r eglwysi.—*(b)* Tuag at gario allan y penderfyniad blaenorol,—1. Ein bod yn barnu y dylai y Gymdeithasfa ganiatâu i efrydwyr fyddo wedi myned trwy *gwrs* penodol o addysg, gael myned i mewn i Drefecca am addysg Dduwinyddol yn unig, am ddwy flynedd neu ychwaneg. 2. Fod efrydwyr fyddo wedi bod mewn un o'r Colegau Cenedlaethol am ddwy flynedd neu ychwaneg, ac wedi bod yn ystod yr amser hwnw yn efrydwyr ffyddlawn mewn Groeg, Lladin a Saesoneg, ac hefyd mewn Cymraeg a *Mathematics*, ac yn meddu tystlythyr oddiwrth y Prif Athraw eu bod wedi pasio arholiad llwyddiannus yn y materion hyny, yn cael eu derbyn i Drefecca heb fyned trwy arholiad rhagarweiniol.—*(c)* Ein bod yn awgrymu i'r Gymdeithasfa y priodoldeb o ymgynghori â'r Athrawon yn Nhrefecca ac â'r Arholwyr Cymdeithasfäol, ai ni ellid, trwy gyd-ddealltwriaeth rhyngddynt, benodi yr un pynciau i fod yn faterion yr Arholiad Duwinyddol terfynol yn Nhrefecca a'r arholiad am ordeiniad y flwyddyn hono.—ROGER W. JONES, *Ysg.*

VIII. *Cais amryw o Efrydwyr am fyned i Drefecca.*—Hysbyswyd fod tri o efrydwyr o Goleg Caerdydd, sef Mri. T. Watkins, J. P. Millward, a J. R. Evans, yn gofyn am ganiatâd i fyned i mewn i Athrofa Trefecca o dan y rheolau uchod, a phenderfynwyd,—Yn gymaint nad yw y Gymdeithasfa yn arfer ystyried achos ymgeiswyr, ein bod yn eu cyfarwyddo hwy at Bwyllgor yr Athrofa, a bod yr Ysgrifenydd i

anfon eu llythyrau hwy a chopi o'r penderfyniadau hyn i'r Pwyllgor hwnw, gyda golwg ar i'r ymgeiswyr gael eu derbyn i'r Athrofa yn ol y drefn newydd hon.

IX. *Cydymdeimlad â Brodyr Cystuddiol.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn anfon llythyrau yn cyflwyno cofion a chydymdeimlad y Gymdeithasfa i'r brodyr canlynol yn eu cystudd a'u gwendid:—Parchn. W. Evans, Tonyrefail; Ebenezer Jones, Castellnedd; T. Job, Cynwil; Jenkin Jenkins, Pontrhydyfen; W. Morgan, Treharris; Rees Morgan, Llanddewibrefi; a D. Davies, Ysw., Y.H., Llandinam.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. D Jones, M.A., Brynsadler.

Dydd Mercher, am 8 o'r Gloch.

Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa (parhâd).

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. L. Williams, Aberystwyth.

Cenadwriaethau o'r Gymanfa Gyffredinol:—

X. *Derbyn Aelodau i'r Eglwysi.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn dymuno galw sylw y Cymdeithasfäoedd at y dull o dderbyn aelodau i'r eglwysi, ac awgrymir y priodoldeb o fod Swyddogion Eglwysig yn arfer eu doethineb gyda hyn, a'u bod hwy yn ymddyddan âg ymgeiswyr, ac adrodd i'r eglwys yr hyn a gawsant ganddynt wrth gynnyg eu derbyniad, yn hytrach na'u holi o flaen yr holl eglwys, a thrwy hyny beri i lawer o rai gwylaidd gadw draw oddiwrthynt. [Llangollen, 1889.]

Penderfynwyd ymhellach,—Yn gymaint a bod y mater hwn heb gael sylw y gwahanol Gyfarfodydd Misol, ein bod yn dymuno arnynt ei ystyried a dwyn eu barn arno i Gymdeithasfa Hydref.

XI. *Gweinyddu yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn derbyn ac yn cymeradwyo y penderfyniad canlynol o eiddo Cymdeithasfa y Gogledd a gyflwynwyd i ni gan y Gymanfa Gyffredinol:—"Yn wyneb y cynnydd mawr sydd wedi cymeryd lle mewn blynyddoedd diweddar yn nifer yr aelodau perthynol i liaws o'n heglwysi; ac wrth weled fod y drefn bresennol o weinyddu yr Ordinhad dan sylw yn tueddu at wneyd y gwasanaeth yn faith ac yn hytrach yn feichus i'r gynulleidfa yn ogystal ag i'r gweinidog; a chan edrych yn ol at ysbryd eang a Christionogol y geiriau canlynol yn ein *Cyffes Ffydd* ar y mater,—'Fod y dull presennol o weinyddu y Swper sanctaidd yn gyffredinol yn cael ei arferyd, can agosed ag y gellir, heb osod defodau caethion ar neb yn nghylch pethau dadleuol ac ammheus, ond goddef eangder yn ein holl drefniadau, cyfatebol i eangder yr oruchwyliaeth efengylaidd, fel y gallo pawb gyduno â'u gilydd heb ddim petrusder cydwybod,'—Ein bod yn ystyried y gellir ei adael i ddoethineb yr eglwysi i'w benderfynu yn unol â'r amgylchiadau, a chan gadw yn ofalus mewn golwg drefn weddus ac urddas teilwng y gwasanaeth, pa un a fydd i un neu ychwaneg o'r blaenoriaid gynnorthwyo y gweinidog yn ngweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd neu beidio."

XII. *Cylchlythyrau y Gymdeithasfa, &c.*—Darllenwyd y penderfyniad canlynol:—Yr oedd cydsyniad cryf a chyffredinol yn y Pwyllgor y dylid chwilio am ryw ffordd i wneyd ymaith â'r draul ddwbl, os nad mwy na dwbl, sydd yn cael ei hachlysuro trwy fod yr Adroddiadau Cymdeithasfäol a Chymanfäol yn cael eu lledaenu trwy y Cylchlythyrau, tra y maent hefyd yn cael eu hargraffu yn y Drysorfa a chyhoeddiadau eraill. [Liverpool, 1890, Pen. xxiv., Is-Bwyllgor y Llyfrfa, 8, tu dalen 16.]

Penderfynwyd,—Fod y mater hwn yn cael ei gyflwyno i ystyriaeth Pwyllgor o un o bob Cyfarfod Misol, ac i ddwyn Adroddiad arno i Gymdeithasfa Hydref. Gelwir ar y gwahanol Gyfarfodydd Misol i enwi un o'u cynnrychiolwyr i eistedd ar y Pwyllgor hwn yn Nghymdeithasfa Awst nesaf yn Nhregaron, am 2 o'r gloch prydnawn Mawrth y 12fed.

XIII. *Y Gymanfa Gyffredinol a'r Cymdeithasfäoedd Chwarterol.*—Yn wyneb cyd gyfarfyddiad amryw o'n Cymdeithasfäoedd yn y ddwy dalaeth oddeutu adeg cynnaliad y Gymanfa Gyffredinol,—Ein bod yn dymuno cyflwyno i ystyriaeth y ddwy Gymdeithasfa, Ai nid buddiol fyddai gwneyd i ffwrdd âg un o honynt yn flynyddol yn y dalaeth lle cynnelir y Gymanfa Gyffredinol, er mwyn rhoddi lle i'r olaf, ond na byddo materion talaethol yn cael eu dwyn i mewn iddi, oddieithr fod Cymdeithasfa y Dalaeth yn dymuno hyny? [1890, XL. 2.]

Pasiwyd,—Fod y penderfyniad i gael ei gyflwyno i'r gwahanol Gyfarfodydd Misol, ac i ddwyn eu barn arno i Gymdeithasfa y Gwanwyn.

XIV. *Rhybudd i gynnyg uno Cyfarfod y Blaenoriaid â Chyfarfod y Gweinidogion.*—Rhoddodd y Parch. R. Morgan, C.C., Aberdar, y rhybudd canlynol:—Yn gymaint ag mai Materion Ysbrydol yn benaf a drinir yn Nghyfarfod y Blaenoriaid yn ein Cymdeithasfäoedd er ys cryn amser bellach, gelwir sylw yn un o'r Cymdeithasfäoedd nesaf at y buddioldeb o uno Cyfarfod y Blaenoriaid a Chyfarfod y Gweinidogion â'u gilydd (oddieithr fod amgylchiadau neilldnol yn codi yn galw am iddynt eistedd ar wahan), fel y caffer y fantais o ddoethineb a phrofiad unedig yr holl frawdoliaeth, yn flaenoriaid a gweinidogion, wrth ymdrin â'r materion tra phwysig hyn.

XV. Gyda golwg ar y Genadwri o Orllewin Morganwg o barth ordeinio Mr. T. Salmon, penderfynwyd,—Yn gymaint a bod y priodoldeb o wneyd eithriadau i'r rheol o beidio ordeinio heb fyned trwy yr Arholiad Cymdeithasfäol wedi codi mewn cysylltiad âg enw Mr. T. Salmon, ein bod, o dan yr amgylchiadau, yn ei gymeradwyo ef i'w ordeinio, ar y dealltwriaeth clir na wneir eithriad mwyach ar un cyfrif tra y byddo y rheol bresennol ar hyn yn bodoli.

XVI. *Sylwadau ar Frodyr Ymadawedig.*—Darfu i'r Parch. G. Ellis, M.A., wneyd sylwadau ar fywyd a chymeriad y Parch.

J. Pritchard, Amlwch—Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd—yr hwn a fu farw pan ar ei daith adref o'n Cymdeithasfa yn y Borth; a'r un modd gwnaeth y Parch. D. Saunders sylwadau ar y Parch. D. Anthony; Parch. D. Jones, M.A., ar y Parch. D. James, gynt o Laneurwg; Parch. D. G. Owen ar y Parch. A. Evans, Cydwely; Parch. D. Williams ar y Parch. D. Morgan, Llandilo; Parch. T. Levi ar y Parch. D. Morgan, Ystradgynlais; Parch. W. Jones, Garnddiffaeth, ar y Parch. J. Lewis, Llwynhendy; a phenderfynwyd fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyrau at berthynasau y brodyr ymadawedig yn dadgan cydymdeimlad y Gymdeithasfa â hwy yn eu galar a'u tristwch.

Am 10 *o'r gloch, Cyfarfod y Gweinidogion.*

Mater—"A oes modd denu ein pobl ieuainc oddiwrth chwareuon ynfyd yr oes?" Siaradodd y Parchn. D. Saunders, D.D., Ezeciel Thomas, T. Rees, D. Edwards, Joseph Evans, T. Levi, W. Williams, G. Ellis, M.A., Dr. Harries, Chicago; a diweddwyd trwy weddi gan yr olaf a enwyd.

Cyfarfod y Blaenoriaid.—Mater—Crist fel Prophwyd.

Am 1 *o'r gloch, Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.*

Dechreuwyd gan y Parch. D. Williams, Trecastell.

XVII. Trefnu lle ac amser y Gymdeithasfa nesaf; hefyd, amser y Gymanfa Gyffredinol.—Penderfynwyd,—Fod y Gymdeithasfa nesaf i fod yn Nhregaron, Awst 12, 13, a'r 14eg. Cyfeisteddfod cyntaf y Gymdeithasfa am 6 o'r gloch, Mawrth 12.

Am 6 *o'r gloch, Cyfeisteddfod cyntaf arferol y Gymdeithasfa.*

XVIII. *Adroddiad Cyfarfod y Blaenoriaid.*—Penderfynwyd, Fod yr adroddiad canlynol yn cael ei dderbyn a'i gadarnhâu:—Cafwyd ymddyddan buddiol a chynhes ar y mater gosodedig, sef "Crist fel Prophwyd," a phenderfynwyd yn laf, Ein bod yn annog yr eglwysi i roddi pob cefnogaeth i lafur, ymhlith yr ieuenctyd yn neilldnol, ar Ddysgeidiaeth Crist; ac hefyd, i ddwyn swyddau Crist yn fater ymddyddanion yn y cyfeillachau crefyddol. 2. Y dymunem yn garedig, yn enwedig yn y cyfnod presennol, gael mwy o arbenigrwydd yn y weinidogaeth ar swyddau Crist.—Cafwyd ymdriniaeth ar "Ein pobl ieuainc a chwareuon yr oes," a gohiriwyd er cael siarad pellach yn y Gymdeithasfa nesaf.

XIX. Darllen a chadarnhau holl benderfyniadau y Cyfeisteddfod.—Galwyd sylw at y Pen. V., a gofynwyd a oedd prynwyr yr eiddo ynglŷn â chapel Aberhonddu yn Ddarllawyr Diodydd Meddwol, ac atebwyd yn gadarnhaol, pryd y pasiwyd, Ein bod yn oedi cadarnhau y penderfyniad hwn hyd y Gymdeithasfa nesaf, a bod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at eglwys Aberhonddu yn egluro teimlad y Gymdeithasfa ar y mater hwn, sef nad yw yn barod i werthu yr eiddo i "*Brewery Company*," heb gael sicrwydd cyfreithiol na ddefnyddir ef byth, mewn unrhyw fodd, at ddarparu na gwerthu diodydd meddwol

XX. Penderfynwyd,—Fod yr holl benderfyniadau gyda'r eithriad o'r uchod yn cael eu derbyn a'u cadarnhau.

XXI. *Mesur Trethiad Lleol ac Ad-daliad i Dafarnwyr.*—Penderfynwyd, Fod y Gymdeithasfa hon yn edrych gyda thristwch dwfu ar gynllun trwyddedol y Llywodraeth yn Mesur Trethiad Lleol, yn ngwyneb penderfyniadau Uchel Lysoedd Cyfreithiol y deyrnas nad oes buddiant soddedig (*vested interest*) mewn trwyddedau tafarnau, yn gystal a dadganiad teimlad y wlad ddwy flynedd yn ol ynglŷn â chynnygion cyffelyb yn Mesur Llywodraeth Leol; a bod y Gymdeithasfa yn dadgan ei barn yn gryf nad oes hawl foesol na chyfreithiol gan berchenogion tafarndai i ad-daliad pe gwrthodid adnewyddu eu trwyddedau, ac nas gall y Gymdeithasfa gydnabod darbodion Mesur y Llywodraeth fel cynnorthwy i sobrwydd a dirwest, eithr yn hytrach fel amddiffyniad i fasnach niweidiol. 2. Fod y Gymdeithasfa yn taer annog yr holl eglwysi a'r cynnulleidfaoedd i ddeisebu yn ddioed yn erbyn adranau trwyddedol y Mesur uchod, yn gystal ag arfer pob moddion cyfreithlawn er gwrthwynebu y fath fesur camarweiniol a pheryglus. 3. Fod deiseb yn cael ei harwyddo gan y Llywydd, a'i hanfon i'r Senedd yn ngofal Mr. David Randell, A.S.

Cyflwynwyd y ddeiseb trwy Mr. D. Randell, A.S., yr hwn a ddychwelodd yr atebiad canlynol:—

[Yr ateb.] June 13th, 1890.

My Dear Sir,—I have duly presented to the House the Petition of the South Wales and Monmouthshire Calvinistic Methodist Association, held at Ystradgynlais.—Yours faithfully,

Rev. W. James. D. Randell.

XXII. *Derbyn Brodyr o'r America.*—Cyflwynwyd y Parch. D. Harries, D.D., Chicago, America, i'r Gymdeithasfa, a phenderfynwyd gyda brwdfrydedd mawr,—Ein bod yn rhoddi y derbyniad mwyaf croesawus sydd yn bosibl i'r Parch. D. Harries, D.D., Chicago, i'n mysg, ac yn ei wahodd i gymeryd ei le yn gyflawn fel aelod o'r Gymdeithasfa yn ystod ei arosiad yn Nghymru, ac yn dymuno ar i'w ymweliad â gwlad ei enedigaeth fod yn adnewyddiad i'w iechyd, ac yn llonder i'w ysbryd, ac ar i nodded ac amddiffyn y Goruchaf Dduw fod drosto yn ystod ei holl deithiau nes y cyrhaeddo ei gartref; a'n bod ymhellach yn dymuno ar i fendith y nefoedd barhau i ganlyn ei lafur gyda'n cydgenedl yn yr Unol Dalaethau fel y mae wedi gwneyd hyd yn hyn; a'n bod yn gofyn iddo ef gyflwyno ein cofion mwyaf serchog ac anwyl i'n brodyr y Methodistiaid Calfinaidd yn America, gan sicrhau iddynt fod eu llwyddiant moesol ac ysbrydol yn agos iawn at

ein calonau. Yr oedd y Parch. R. Thomas, o'r America, gynt o Aberaman, yn bresennol, a rhoddwyd derbyniad hefyd iddo yntau. Darfu i'r Parch. D. Harries, D.D., mewn araeth dra chynhes, ddadgan ei deimladau wrth gael ei dderbyn a'i roesawu gan y Gymdeithasfa, a chyfeiriai at y cyfnewidiadau lawer oedd wedi cymeryd lle er pan y talodd yr ymweliad diweddaf â gwlad ei enedigaeth, ac at yr hen dadau oeddynt wedi myned adref i ogoniant, a rhoddodd gipdrem ar sefyllfa yr achos yn ngwlad y gorllewin yn gyffredinol, ac yn arbenig yn ninas fawr Chicago, lle y mae efe yn awr yn llafurio. Desgrifiai y cynlluniau oedd ganddynt i weithio yno, a'r ysbryd rhagorol oedd yn meddiannu yr ieuenctyd o'r ddau ryw yn ngwasanaeth eu Harglwydd, nes ennyn awyddfryd ynom am weled rhywbeth cyffelyb yn Nghymru.

XXIII. Cafwyd anerchiad tra rhagorol gan y Parch. G. Ellis, M.A., Bootle, ar Jiwbili y Genadaeth Dramor, yn yr hwn y rhoddodd hanes manwl o ddechreuad ein cenadaeth ar Fryniau Khasia, a goleuni ar rai amgylchiadau mewn cysylltiad â'i chychwyniad oeddynt yn dywyll o'r blaen. Rhoddodd gipdrem ar y gwaith mawr oedd eisoes wedi ei wneyd, a'r meusydd sydd yn bresennol yn wynion i'r cynhauaf, a'r haelfrydedd mawr sydd yn cael ei ddangos mewn amryw gymydogaethau yn Nghymru tuag at Gronfa y Jiwbili. Penderfynwyd,—Ein bod fel Cymdeithasfa yn cyflwyno ein diolchgarwch diffuant i'r Parch. G. Ellis, M.A., am dalu ymweliad â ni, ac am yr araeth a draddodwyd ganddo, ac hefyd i'r Parch. T. Levi am ei ymdrechion a'r gwaith mawr sydd wedi ei gyflawni ganddo mewn cysylltiad â'r Drysorfa hon, a'n bod o galon yn dymuno arnynt fyned ymlaen yn wrol nes cyrhaedd yr amcan mewn golwg. Ein bod ymhellach yn anfon cenadwri trwy y gwahanol Gyfarfodydd Misol at yr holl eglwysi i'w hannog i ddyfod allan o ddifrif i gyfranu yn deilwng o'r llwyddiant sydd wedi bod ar ein cenadaeth, ac o'r gwaith mawr sydd eto o'n blaen ar Fryniau Khasia ac yn Sylhet.—Dys gwylir y bydd Cronfa y Jiwbili o leiaf yn ddeng mil ar hugain o bunnoedd.

XXIV. Darfu i'r Parch. W. Dickens Lewis, D.D., draddodi anerchiad cynhes ar gofgolofn y diweddar Esgob Morgan, cyfieithydd y Bibl i'r Iaith Gymraeg.

XXV. *Hanes yr Achos o fewn cylch y Cyfarfod Misol.*—Rhoddodd y Parchn. M. Williams, W. James, M.A., a D. M. Davies, hanes yr Achos yn Ngorllewin Morganwg.

XXVI. *Y Trychineb yn Johnstown, America.*—Penderfynwyd,—Fod yr adroddiad ar y mater hwn yn cael ei dderbyn, a bod diolchgarwch y Gymdeithasfa yn cael ei gyflwyno i Mr. T. Phillips, Y.H., y Trysorydd, am ei lafur gyda'r achos.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod Cenadol Cyhoeddus.

Cadeirydd, y Parch. D. Edwards. Areithwyr, y Parchn. G. Ellis, M.A., W. Williams, a D. Saunders, D.D.

W. James, *Ysgrifenydd.*

Bywgraffiaeth.

MR. DAVID JENKINS, CERYG-CURANAU, TALIESYN, SWYDD ABERTEIFI.

Gan y Parch John Bowen, *Pontrhydfendigaid.*

Brodor o Pontrhydfendigaid oedd gwrthddrych ein coffâd, ac yno y treuliodd y nifer fwyaf o flynyddoedd ei fywyd. Mab yddoedd i William a Mary Jenkins, Cefnmeurig, ger Pontrhydfendigaid. Gellir dyweyd am ei rieni, "Ac yr oeddynt ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd." Bu ei fam farw "mewn tangnefedd heddychol," pan yr oedd ef yn gymhariaethol ieuanc; ond bu ei dad byw hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth yntau. Hir y cofiwn yr olygfa a gawsom yn ei breswylfod yn mis Mai, 1887. Yn un ystafell gorweddai y tad ar ei glaf wely, yn ei bedwar ugain a naw mlwydd oed; ac yn yr ystafell nesaf ati, gorweddai y mab ar ei glaf wely yntau, yn ei un ar bymtheg a deugain mlwydd oed. Wrth edrych arnynt ill dau, nis gallem lai na meddwl am linellau toddedig *Ieuan Glan Geirionydd*—

"Ar lan Iorddonen ddofn
'R wy 'n oedi nychlyd,
Mewn blys myn'd trwy ac ofn
Ei stormydd enbyd."

Ar y 27ain o fis Mehefin canlynol, fe ddygpwyd yr hynaf o'r ddau "trwy ei dyfroedd dyfnion," ac fe'i dilynwyd gau yr ieuengaf ar y 24ain o fis Medi yr un flwyddyn. Claddwyd y ddau yn yr un fonwent, a dyddiad yr un flwyddyn ar eu heirch. Estynwyd oes un flynyddoedd lawer y tu hwnt i ddyddiau yr addewid, fel y dywedir, a chwtogwyd oes y llall gan yn agos yr un nifer. Disgynodd holl ragoriaethau y rhieni i'r mab a mwy. Perthynai garictor ddau allu—gallu adferiadol a gallu diriwiadol. Y mae yn ddigon posibl ei wellhau, ac y mae yr un mor bosibl ei waethygu. Y mae ambell i gymeriad yn gwellhau yn awr, fel y mae yn cael ei drosglwyddo o dad i fab, ac o fam i ferch; ac eraill yn gwaethygu yn enbyd. Y cyntaf gymerodd le yn yr achos o dan sylw. Yr oedd y llinellau da ag oedd mor amlwg yn nghymeriad y rhieni, yn fwy amlwg fyth yn ngharictor y mab. Darfu i'r rhinweddau a'r grasusau a addurnent eu cymeriad hwy â'r fath brydferthwch moesol, dyfu yn uwch ac ymagor yn llawnach ynddo ef. Fe'i planwyd yn ieuanc yn "nhŷ yr

Arglwydd," a pharhaodd am weddill ei oes i" fl odeuo yn nghynteddoedd ein Duw," ac i ffrwytho yn ngwinllan ein Harglwydd Iesu Grist. Cyfranogodd i fesur helaeth o bethau cadwedigol yr efengyl, yn ystod y diwygiad yn y flwyddyn 1859. Disgynodd arno y pryd hwnw ddafnau pur freision o'r gwlaw graslawn, ag sydd yn arferol o ddisgyn ar etifeddiaeth Duw. Dan effeithiau y gawod aeth yr "anialwch yn ddoldir a'r doldir yn goed-tir" yn ei hanes ef. O'r adeg hono hyd ddydd ei farwolaeth, oes o ddefnyddioldeb fu ei holl oes a gyrfa o wasanaethgarwch fu ei holl yrfa. Fe drodd bob cam o bwys a gymerodd mewn bywyd, allan yn fantais i'w grefydd bersonol, ac i'w ddefnyddioldeb yn gyffredinol. Hawdd oedd gweled pan yr ydoedd yn myned trwy wahanol "droion yr yrfa" ei fod o dan arweiniad "y golofn," a bod prif symudiadau ei fywyd yn cael eu rheoleiddio gan rhyw ddirgel law. Ni wiriwyd geiriau Solomon yn well yn hanes neb erioed nag yn ei hanes ef, "Ond rhodd yr Arglwydd yw gwraig bwyllog." Ac nid llai amlwg chwaith oedd llaw yr Arglwydd yn ei symudiad ef a'i deulu o gymydogaeth Pontrhydfendigaid i ardal Taliesyn. Bu y naill gyfnewidiad fel y llall yn foddion i'w dysgu i weled llaw yr Arglwydd yn amgylchiadau cyffredin bywyd, i deimlo eu rhwymedigaethau iddo, ac ymgysegru yn llwyrach i'w wasanaeth.

Bu am flynyddoedd lawer yn un o brif arweinyddion yr achos crefyddol yn Ffair Rhos—cangen ysgol perthynol i eglwys y Methodistiaid yn Mhontrhydfendigaid; a chyda llawer o fedrusrwydd, gofal, a ffyddlondeb, llanwodd y swydd o drysorydd i'r eglwys am gyfnod hir. Yn Hydref, 1875, symudodd ef a'i deulu i Ceryg-curanau, Taliesyn, ac ymaelodasant yn Eglwys Rehoboth. Nid hir y bu yr eglwys cyn gweled rhagoriaethau Mr. Jenkins, fel y dewiswyd ef yn flaenor ganddi. Gellir dyweyd am dano fel swyddog, yn gystal ag fel aelod, iddo fod "yn ffyddlawn yn ei holl dŷ megys gwas." Gwir nad oedd tymmor ei swyddogaeth ond byr, eto cyflawnodd gryn lawer o waith ynddo. Nid yn unig cyflawnodd lawer o waith ynglŷn â'i swydd yn yr eglwys gartref, ond hefyd dros y Cyfarfod Misol ar wahanol achlysuron.

Yr oedd yn ei gymeriad gyfuniad prydferth o amryw rinweddau a grasusau, Ceid ynddo i fesur helaeth y rhinweddau gweithredol ag sydd yn nodweddu bob amser y gwir gymeriad Cristionogol; ac nid oedd yn amddifad chwaith o'r rhinweddau goddefol ag sydd mor nodweddiadol o hono. "Y mae mawredd carictor," meddai Pascal, "yn gynnwysedig, nid mewn fod un yn meddu ar rhyw un dosbarth o rinweddau i'w perffeithrwydd mwyaf, ond hefyd ar ei fod yn meddu ar y rhinweddau gwrthgyferbyniol i'r un perffeithrwydd. Pe profid ein brawd wrth y cyfryw safon, ni cheid ef yn briu, gan y ceid ynddo amryw rinweddau wedi tyfu i gryn uchder; ac hefyd y rhinweddau gwrthgyferbyniol iddynt wedi cyrhaedd yn agos i'r un perffeithrwydd. Yr oedd ei rinweddau yn amryw o'i ragoriaethau yn llawer, a thrigent ynddo yn agos i'r un cyfartaledd. Perthynai i'w garictor rhyw fath o gydbwysedd nodedig. Gwelsom rai yn gewri mewn rhyw rinweddau, ond yn gorachod yn y lleill; yn gyfoethog mewn rhyw un gras, ond yn bur brin yn y grasusau eraill. Sonir llawer yn y dyddiau hyn am *specialists* yn y gwahanol gangenau o wybodaethau. Ceir dynion yn graddio yn uchel yn mhrif Athrofeydd y deyrnas, mewn rhyw un gangen o'r *sciences*, heb fod dim neilldnol ynddynt yn y cangenau eraill. Nid ydym heb feddwl nad oes llawer o *specialists* crefyddol yn ein heglwysi hefyd yn y blynyddoedd hyn. Ceir dynion yn rhagori mewn rhyw un cyfeiriad, heb fod dim neilldnol ynddynt mewn cyfeiriadau eraill. Yr ydym yn ammheus y graddia y dosbarth hwn o grefyddwyr yn uchel yn yr arholiad yn y dydd diweddaf. Hwyrach y llwyddant i ennill eu *diploma*, ond ni chânt hwynt gydag *honours* yr Athrofa. O bosibl y cânt fynediad i mewn "i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist," ond ni chânt fynediad helaeth i mewn. Nid rhyw fath o *specialist* crefyddol oedd Mr. Jenkins, ond dyn crwn a llawn, "wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." Pa ryfedd ei fod ef felly, o ran hyny, gan fod yn ei hanes brofion amlwg ei fod wedi bod am flynyddau dan law y Gŵr sydd yn mesur "y dyfroedd yn ei ddwrn," a'r "nefoedd â'i rychwant."

Wedi taflu golwg cyffredinol ar ei garictor, carem alw sylw y darllenydd at rhyw bethau neilldnol a berthynai iddo. Un nodwedd amlwg a berthynai i'w garictor ydoedd—*Ffyddlondeb i'w rwymedig aethau fel pen teulu.* Y mae y pen-teulu, meddir, wedi ei eneinio i dair o swyddau i'w gweinyddu ganddo o fewn y cylch teuluaidd. Y mae i fod yn brophwyd, offeiriad a brenin i'w deulu. Y mae natur a gras yn uno â'u gilydd i'w eneinio a'i osod yn ei swyddau. Y mae defnyddiau yr olew sanctaidd â pha un yr eneinir ef, yn gynnyrchion teyrnas gras yn ogystal a theyrnas natur. Y mae y cylch y mae ef yn troi ynddo yn un eang, y gwaith sydd i'w gyflawni ganddo yn un mawr, a'r rhwymedigaethau gorphwysedig arno yn rhai pwysig. O fewn cylch ein hadnabyddiaeth ni, nis adwaenasom neb a lanwodd ddrychfeddwl y swyddogaethau yn y cylch teuluaidd, yn well na'r Gŵr yr ydym yn ysgrifenu gair yn ei gylch. Yr oedd ei dŷ bob amser fel ysgol y prophwydi yn Israel gynt, yn lle yr esbonid y gyfraith ynddo i'r teulu. Neilldnai hefyd rhyw drydedd, chweched a nawfed awr o'r dydd i gyfleu eu hanghenion ger bron yr Arglwydd, ac i eiriol ar eu rhan.

Clywsom un ag oedd yn bur gydnabyddus âg arferion y teulu yn dyweyd y byddai yn rhaid i'r medelwyr bob amser yn nghanol prysurdeb y cynhauaf, roddi eu crymanau i lawr i roddi lle i'r awr weddi. Yr oedd

gŵr ag oedd yn rhoddi y fath le i'r Bibl ar ei fwrdd ag ef, ac yn plygu mor aml ger bron yr allor deuluaidd ar yr aelwyd, yn sicr o fod yn frenin hefyd yn ei deulu. Yr oedd yn ei dŷ lywodraeth, cyfreithiau a llŷs barn, lle y penderfynid pwy oedd wedi troseddu deddf y teulu. Yr oedd ôl yr addysg a'r ddysgyblaeth deuluol i'w gweled yn amlwg ar ei blant, ar yr heol, yn yr ysgol ddyddiol, yn y cyfarfod gweddi, a'r cyfarfod eglwysig. Y mae yr hâd a hauwyd er ys blynyddau bellach yn dwyn ffrwyth eto, peth ar ei ganfed, arall ar ei driugeinfed, ac arall ar ei ddeg ar hugain. Y mae ei feibion heddyw fel "planwydd yn tyfu yn eu hieuenctyd, a'i ferched fel conglfaen nadd wrth gyffelybrwydd palas."

Nodwedd arall a berthynai iddo oedd—*Ffyddlondeb i'w rwymedigaethau fel aelod o gymdeithas.* Un defnyddiol iawn mewn cymydogaeth oedd David Jenkins. Edrychid arno gan ei gymydogion, a'i gydwladwyr, fel gŵr o farn ac ymddiried. Ac un felly ydoedd hefyd. Nid oedd y byd yn rhoddi mwy o *credit* nag a haeddai i un o'i sefyllfa ef. Yr oedd yn ddarllenwr mawr ar y newyddiaduron wythnosol, a'r cylchgronau misol, yn Gymraeg ac yn Saesoneg. Fel y gellid dysgwyl, cadd ei alw gan ei gydwladwyr i amryw swyddau yn ei ddiwrnod. Bu yn warcheidwad y tlodion am rai blynyddau, ac yn aelod o'r Bwrdd Ysgol droion. Ond i ba swydd bynag y gelwid ef, a pha ymddiriedaeth bynag a roddid iddo, ceid ef bob amser yn gweithredu yn gydwybodol, yn onest, ac yn gyfiawn. Cyflawnai ei ddyledswyddau bydol gyda'r un cydwybodolrwydd ag yr addolai ei Dduw. Actiai yr un fath yn y dirgel ag yn y cyhoedd, yn y farchnad ag yn nhŷ Dduw. Dywedai Dr. Dale, Birmingham, am y diweddar Mr. Henry Richard, A.S.:—"*He was Christ's servant in the House of Commons as well as in the ministry of the gospel.*" Un felly oedd Mr. Jenkins mewn cylchoedd llai. Pa un bynag ai yn y tŷ gartref, ynte ar y maes yn gweithio, ai yn y cyfarfod gweddi yn Taliesyn, ynte yn nghwrdd Bwrdd y Gwarcheidwaid yn Aberystwyth y byddai, cyflawnai ei rwymedigaethau i'w Dduw a'i ddyledswyddau tuag at ei gyd-ddynion yn y naill achos fel y llall.

Nodwedd arall a berthynai iddo oedd—*Ffyddlondeb i'w rwymedigaethau fel aelod a swyddog eglwysig.* Un ydoedd ag oedd yn gwir ofalu am yr achos. Yr oedd achos Mab Duw yn agos iawn at ei galon. Am dano ef y meddyliai fwyaf, drosto ef y gweddïai fynychaf, ac yn ei gylch ef y siaradai amlaf. Yr oedd ei feddyliau a'i serchiadau fel nodwydd cwmpawd y morwr yn tynu tua rhyw un pwynt. Gwir ei fod fel nodwydd y cwmpawd yn agored i ddylanwadau lleol effeithio arno; ond yr oedd tueddfryd gwastadol ei feddwl tuag at Dduw a'i drefn. Yr oedd ar delerau digon heddychol â'r byd hwn, ac fe fu'r byd ar y cyfan yn ddigon caredig wrtho. Dadguddiodd iddo gryn lawer o'i gyfrinach, agorodd iddo ei goffrau, ac anrhegodd ef â chryn symiau o'i gyfoeth. Ond nid dyn y byd hwn oedd efe. Nid oedd gwenau y byd iddo yn ddim amgen na ffafrau meibion Heth i Abram, pan yr oedd ar daith o bererindod trwy eu gwlad. Er i'r byd, fel y dywedir, "ddyfod gydag ef," eto ni roddodd ei galon arno. Gofalai bob amser na chai gofalon y byd hwn ddim sangu ar iawnderau y byd arall. Yr oedd ei fywyd yn atebiad llawn i deitl llyfr y Parch. Thomas Binney—"*Is it possible to make the best of both worlds?*" Ydyw, y mae yn bosibl. Gwnaeth gwrthddrych ein sylwadau y goreu o'r ddau fyd. Sylwasom arno droion yn ystod y blynyddau y bu yn byw ar ein pwys, pan oedd adeg myned i'r cyfarfod gweddi, neu y cyfarfod eglwysig i fyny, troai y praidd fel Moses o'r tu cefn i'r anialwch ac esgynai i fynydd Duw. Treuliodd lawer o amser gyda Duw ar y mynydd. Edrychai ar dŷ Dduw fel ei gartref Yr oedd wedi cyfarfod â Duw mor aml yn ei dŷ fel yr oedd yn gallu ei gyfarfod yn angeu gyda rhyw ddwyfol dawelwch. "Ni frysia yr hwn a gredo," meddai y prophwyd. Nid oedd yntau yn brysio dim. Pan oedd angeu yn dattod y cylymau agos a thynion ag oedd rhyngddo ef a'i anwyl briod, rhyngddo ef a'i blant, a rhwng ei enaid a'i gorff, ni frysiai. Gollyngwyd ef mewn tangnefedd, a'r "Mab bychan" yn ei freichiau, a'i lygaid wedi gweled "Crist yr Arglwydd" cyn iddo weled angeu. Hebryngwyd ei gorff gan lu o gyfeillion iddo i "dŷ ei hir gartref" yn mynwent Nazareth, Talybont, a diau i'w enaid ef gael ei ddwyn gan yr angelion i fynwes Abraham.

MR. THOMAS EDWARD JONES, CAERGWRLE, LLANTRISANT, MÔN.

Gan y Parch. GRIFFITH ROBERTS, *Carneddi.*

GELLIR dyweyd am Thomas Edward Jones, "yn nhoriad ei ddyddiau aeth i byrth y bedd, difuddiwyd ef o weddill ei flynyddoedd." Machludodd ei haul cyn llawn gyrhaedd hanner dydd. Gostyngwyd ei nerth ar y ffordd; byrhawyd ei ddyddiau, a chymerwyd ef ymaith yn nghanol ei nerth a'i ddefnyddioldeb. Mab ydoedd i Mr. a Mrs. Edward Jones, Caergwrle, Llantrisant, Môn. Ac y mae ei rieni eto yn fyw. Ni chafodd Thomas Edward Jones ei fagu yn hollol yn y seiat, fel y dywedir. Un rheswm am hyny oedd, fod y ffordd i'r capel ymhell ar draws caeau, gwlybion yn fynych yn y gauaf, a gwlithog yn yr haf; peth arall, nid oedd ei dad y pryd hwnw yn proffesu crefydd, er yn wrandawr cyson, ac yn co'eddu parch mawr i grefydd, ac yn ofalus am dani yn y pethau allanol. Ac y mae yn haws, hwyrach, gan y bechgyn, fel rheol, ddilyn y tad pan yn blant, na'r fam. Felly y bu gyda Thomas Edward Jones modd bynag. Ni arferai fyned i'r seiat pan yn bleutyn. Ond er hyny cafodd ei ddwyn i fyny yn dyner a gofalus; addysgwyd llawer arno ar yr aelwyd, fel yr oedd

yn gwybod yr Ysgrythyr Lân er yn fachgen. Sylwodd ei heu athraw, Mr. Thomas Jones, Gadfa, pan nad oedd efe ond bachgenyn, fod rhywbeth ynddo, ac y gwnai lawer o ddaioni os cai fyw. Yr oedd efe yn eginyn gobaith y pryd hwnw yn tyfu allan o ddaear yr Ysgol Sabbothol yn Elim.

Pan oddeutu 15 mlwydd oed anfonwyd ef gan ei rieni i'r ysgol i Ddublin, fel yr arferai llawer o amaethwyr parchus Môn wneyd ugain a deg ar hugain mlynedd yn ol, gan nad oedd ysgolion o'r natur hwnw i'w cael ar y pryd yn Nghaergybi, Porthaethwy, a manau eraill, fel yn awr. A chai y bechgyn well ymarferiad mewn siarad Saesoneg yn Dublin nag a allasent gael yn nhrefi Môn. Ac felly yr anfonwyd Thomas Edward Jones i Dublin. Ac yno yr ymunodd yn ffurfiol â chrefydd, a dyna paham yr ydym yn son am ei fynediad yno i'r ysgol. Gofelid am yr achos Cenadol Cymreig yn Nublin, ar y pryd, gan y diweddar (erbyn hyn) Barch. Edward Jones, a theimlai y brawd ieuanc o Gaergwrle ymlyniad cryf wrth, a pharch mawr i Mr. Edward Jones tra y bu efe byw, ac i'w goffadwriaeth wedi iddo farw. Pwy sydd yn gwybod pa faint o ddaioni a wneir trwy ein hachosion Cenadol Cymreig yn y trefi mawrion a manau eraill, lle y mae aml i ŵr a merch ieuanc yn cael lloches a chartref crefyddol wedi iddynt adael aelwyddydd eu rhieni am y tro cyntaf yn eu hanes. Dyna yr hanes, modd bynag, am Thomas Edward Jones. Mae yr hadau a hauwyd gan ei fam ac eraill, pan yn ei fagu, yn gwreiddio, ac yn eginio dan ofal y cenadwr Cymreig yn Dublin. Faint bynag o gynnydd a wnaeth mewn addysg fydol—a diau iddo wneyd ei oreu yn y cyfeiriad hwnw, oblegid yr oedd segura a diogi yn beth na wyddai am dano gyda dim—daeth adref, modd bynag â "thocyn aelodaeth eglwysig" i'w ganlyn, er mawr lawenydd i'w deulu a'r cyfeillion oll yn Elim. A bu yn aelod ffyddlawn a gweithgar yn eglwys Elim am y gweddill o'i oes. Yr oedd ei fam a'i chwiorydd yn aelodau ffyddlawn yno yn flaenorol. A chyn hir cafodd y fraint o weled ei anwyl dad yn ymuno â'r eglwys, yr hyn oedd yn achos o lawenydd mawr iddo, yn gystal ag i'r cyfeillion oll yn Elim. Cofiwn yn dda y floedd a roddodd dros y capel y noswaith yr arosodd ei dad am y waith gyntaf yn y cyfarfod eglwysig. "Mae nhad," meddai, "wedi aros." Yr hyn sydd yn dangos y pryder a deimlai yn ei gylch, a'r llawenydd mawr oedd iddo ei weled yn ymuno â'r eglwys. Yr oedd hyna yn fuan wedi iddo gael ei ddewis yn flaenor.

Wedi ei ddyfodiad o Dublin ymroddodd â'i holl egni i weithio gyda'r Ysgol Sabbothol, ac ymhob cylch y gallesid dysgwyl i fachgen ieuanc fod yn ddefnyddiol ynddo. Cerddai dair gwaith i'r capel bob Sabboth, er fod ganddo ffordd faith, a'r llwybr yn fynych, fel y cryb yll wyd, yn ddigon anghyfleus. A gellir dy weyd am dano fel am Samuel, "Efe a gynnyddodd, ac a aeth yn dda gan Dduw a dynion hefyd."

Oddeutu 11 mlynedd yn ol dewiswyd ef yn flaenor yn Elim, y lle y magesid ef. Petrusai ar y cyntaf ufuddhau i'r alwad, ac ymgymeryd â'r swydd, o herwydd ei fod yn teimlo ei hun yn rhy ieuanc a dibrofiad; ond cymerodd ei berswadio, ac ufuddhaodd, a derbyniwyd ef yn aelod o Gyfarfod Misol Môn, yn Nghaergeiliog, Hydref, 1879. Ymdaflodd â'i holl enaid i wasanaeth crefydd gartref, ac yn y capel, ac ennillodd yn fuan, fel diacon, radd da a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu—y tu hwnt, hwyrach, i ddysgwyliad y penaf o'i gyfeillion. O herwydd marwolaeth rhai a llesgedd eraill o'r brodyr ffyddlon oedd yn ddiaconiaid yn Elim pan ddewiswyd ef, disgynodd pwys a gofal yr achos mewn modd arbenig arno, a gwnaeth achos yr Arglwydd yn achos iddo ei hun, a dyna y rheswm, yn ddiau, iddo ennill y fath hyfder yn y gwaith yn ddyn mor ieuanc. Ac y mae yr Ysgoldy newydd ynglŷn â'r Capel, a'r adnewyddiad diweddar ar y Capel, yn gofgolofn i'w zel a'i ymroddiad ef ac eraill gyda'r achos mawr yn Elim.

Ond yn nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb disgynodd mewn moment, megys, i'r bedd. Torwyd ef i lawr pan i olwg dynion yr oedd yn fwyaf anhawdd ei hebgor yn Elim, ac yn ei gartref yn Nghaergwrle. Prydnawn Gwener, Mawrth 21ain, cyfarfu â damwain difrifol, trwy i'r drol droi arno wrth fyned trwy yr adwy, yr hon a brofodd yn angeuol iddo y nos Fawrth dilynol, y 25ain. Am yr amser y bu yn fyw ar ol y ddamwain, arbedwyd ei synwyr iddo, a chafodd fodd, hamdden, a nerth i roddi tystiolaeth eglur fod pob peth yn dda gyda golwg ar y dyfodol mawr. Tystiai fod y graig ganddo "yn merw'r lli'," a bod y gŵr a rodiodd yr afon o'i flaen gydag ef. Gwyddai o'r dechreu nad oedd obaith iddo gael byw ond ychydig. Dywedai wrth ei dad, "Nhad bach, mi wnes fy ngoreu i chwi ymhob peth." "Do, machgen I," atebai ei dad, "a chei fendio eto i wneyd llawer." "Na," meddai yntau, "y mae ar ben arnaf fi ar y ddaear." Erfyniai ar ei gyfaill Mr. John Jones, Bodynolwynhir, wedi iddo gael ei garlo i'r tŷ ar ol y ddamwain, gan ddywedyd, "Rhoddwch un ochenaid gyda mi am i Iesu Grist beidio fy ngadael yn y glyn." A chafodd atebiad amlwg a diammheuol. Cynghorai y llanciau a'r gweision i beidio tyngu a rhegu, ac i beidio myned i'r tafarnau. "Cofia," meddai wrth y gwas bach, "am ddal ati i ddysgu adnodau, ac i fod yn fachgen da." Ac er ei fod mewn poenau arteithiol, cynghorodd lawer ar ieuenctyd eglwys a chymnulleidfa Elim, pa rai wrth yr ugeiniau oeddynt yn cyrchu i edrych am dano, i gwbl roddi eu calon i geisio yr Arglwydd, ac i fod yn ffyddlon yn ei wasanaeth. Dywedai wrth ei fam am roddi Esboniad Dr. Thomas Charles Edwards ar yr Hebreaid i fachgen ieuanc oedd yn aros gydag ef braidd yr holl amser y bu yn fyw ar ol y

ddamwain. Ffarweliai â phawb y noswaith cyn iddo farw—ei dad a'i fam, ei frodyr a'i chwïorydd; a'i eiriau olaf oeddynt, "Neb ond Iesu." Felly y bu farw y brawd ieuanc a gobeithiol Thomas Edward Jones cyn llawn cyrhaedd ei 38 mlwydd oed, pryd i'n golwg ni yr oedd yn anhawdd iawn gwneyd hebddo yn ei gartref yn Nghaergwrle. Fel plentyn gyda thad y gwasanaethodd efe ei dad yn ol y cnawd, ac anwyl iawn oedd y ddau o'u gilydd. Yr oedd efe hefyd yn dyner ac yn anwyl yn ngolwg ei fam, a'i fam yn ei olwg yntau; ac felly ei ddwy chwaer sydd eto yn aros adref, yn gystal a'r brodyr a'r chwïorydd sydd wedi priodi, un o ba rai yw Mr. Robert Edward Jones, yr hwn sydd yn flaenor ffyddlon a gweithgar yn eglwys Holt Road, Liverpool. Trwm oedd edrych ar ei rieni oedranus ar ddiwrnod ei gladdedigaeth, yn syllu i lawr i'r bedd y rhoddwyd gweddill ion un mor anwyl ganddynt. Anhawdd iawn hefyd oedd ei hebgor o'r eglwys yn Elim; yr oedd wedi dyfod yn fath o anghenrhaid yn y lle. Ond nid fel yr edrych dyn yr edrych Duw. Disgyned ysbryd cau yr adwy ar y rhai sydd wedi eu gadael ar ol, ac na fydded iddynt ddigaloni, er yr holl golledion trymion y mae yr eglwys wedi gael yn ddiweddar. Mae y Pen Mawr eto yn fyw, ac yn aros gyda'i bobl.

Dydd Sadwrn, Mawrth 29ain, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o'n hanwyl frawd i fynwent henafol Llantrisant gan dyrfa fawr a galarus iawn. Yr oedd yn un o'r angladdau mwyaf a welwyd erioed yn Môn. A phob peth megys wedi sefyll yn y gymydogaeth am y diwrnod, er ei bod yn amser hau. Dygid y gwasanaeth yn y fynwent ymlaen yn ol y "Drefn Newydd," y cyntaf o'r fath yn Llantrisant. Paham y mâe gwŷr grymus Môn mor annyben yn mabwysiadu y dull Ymneillduol o gladdu yn mynwentydd y plwyf? Rhoddodd teulu Ymneillduol Caergwrle esiampl dda iddynt, a hyderwn y bydd llawer yn eu dilyn. Gwasanaethwyd wrth y tŷ ac ar làn y bedd gan y Parchn. Robert Thomas, Llanerchymedd; J. R. Jones, Llangristiolus; Robert Edwards, Llanfechell; Ebenezer Evans, Bodedeyrn; a Griffith Roberts, Carneddi; a chanwyd amryw weithiau gyda theimlad a dwysder. Traddodwyd pregeth angladdol iddo yn Elim gan y Parch. G. Roberts, nos Fercher, Ebrill 9fed, i gynnulleidfa alarus a hiraethus. Y Nefoedd a fyddo yn nodded, ac a roddo nerth i'w berthynasau trallodus yn eu profedigaeth lem.

Etholion.

EDIFEIRWCH.

Edifeirwch ysgrythyrol ydyw y cyfnewidiad dwfn a gwreiddiol hwnw trwy yr hwn y mae pechadur yn troi oddiwrth eilunod pechod a hunan at Dduw, ac yn cysegru pob ysgogiad o eiddo y dyn oddimewn a'r dyn oddiallan, gan eu caethiwo i ufudd-dod Crist.—*Chalmers.*

OFN MARW.

Ysgrifenai clerigwr yn ddiweddar fel hyn:—"Dywedai meddyg medrus wrthyf fi unwaith, 'Yr ydych chwi bersoniaid yn gwneyd llawer o ddrwg trwy wneyd i bobl ofni marw. Dylech yn hytrach ddysgu iddynt edrych ar angeu fel eu cyfaill goreu." Wrth gwrs, dywedais wrtho mai nid clerigwyr, ond eu cydwybodau eu hunain, sydd yn gwneyd i bobl ofni marw, ac mai ein gwaith ni yw eu cyfeirio at yr Hwn a ddaeth i waredu "y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed." Yr wyf yn dygwydd gwybod, trwy y meddygon a weinient arno, fod y boneddwr hwn, yr hwn mewn iechyd a soniai mor wrol am angeu fel cyfaill goreu dyn, pan gymerwyd ef yn glaf yn ddiweddar, yn yr arswyd mwyaf ei hunan rhag marw. Adgofia y ffaith hon fi o'r hyn a welais mewn llyfr am yr Arabiaid, sef, er eu bod yn credu yn ddiysgog mewn tynged, eto pan ymwelodd y pla â Medina, ffôdd lliaws o bobl y dref i'r anialwch. A dyna oedd eu hesgusawd—er fod y clefyd yn ymwelydd o'r nefoedd wedi ei anfon i'w galw i fyd gwell, eto eu bod yn teimlo cymaint oddiwrth eu hannheilyngdod, ac nad oeddynt yn rhyglyddu yr arwydd hwn o ras, fel y barnent mai doethach oedd iddynt beidio derbyn y ffafr ar hyn o bryd, ond gwneyd eu ffordd allan o'r dref gyda phob brys."

TEIMLAD CYNHYRFUS GYDA CHREFYDD.

Nid ystâd gyffredin y meddwl yw bod yn gyffrous, ond yr un anghyffredin, yr ystâd yn awr ac eilwaith. Ië, mwy na hyn, *ni ddylai* fod yn ystâd gyffredin y meddwl; ac os ydym ni yn meithrin o'n mewn y cynhyrfiad hwn, y rhuthr a'r cyfnewidiad didor yma o deimladau, ac yn meddwl mai hyn, a hyn yn unig, yw bod o ddifrif gyda chrefydd, yr ydym yn niweidio ein meddyliau, ac (mewn un ystyr) yn tristâu Ysbryd tangnefeddus Duw, yr hwn a garai ddwyn ei waith dwyfol ymlaen yn ein calonau yn ddystaw a thawel. —*Newman.*

Cronicl Cenadol.

DOSBARTH JIWAI.

Llythyr oddiwrth y Parch. John Jones.

Jiwai, Gorphenaf 28, 1890.

Gan brysurdeb gyda y naill beth a'r llall, hyd yma ni chefais hamdden i ysgrifenu atoch am y gwaith yn y dosbarth hwn. Yr oedd yn agos i ddiwedd Ionawr cyn y gellais ddechreu ymweled â'r pentrefi. Y lle cyntaf yr aethum iddo oedd Bhoi Lasa i gyfarfod Mr. a Mrs. Jerman Jones, gan fod U Kiang

Pasah a minnau wedi ein penodi yn Henaduriaeth Shangpoong i fyned yno i gymeryd llais yr eglwys mewn dewis blaenoriaid. Cymerodd i ni dri diwrnod i fyned yno. Yr oedd Mr. a Mrs. Jones wedi cyrhaedd yno o'n blaen. Priodwyd yno gwpl gan Mr. Jones, a chawsant wledd er dathlu y briodas, ac ymddangosai pawb fel yn ei mwynhau yn ngoleuni y goelcerth oedd wedi ei chynneu yn nghanol y pentref. Wedi bwyta eu gwala a gadael y gweddill, galwodd y gloch ni i fyned i'r ysgoldy, lle y cefais y fraint o bregethu yr Efengyl iddynt. Boreu drannoeth cawsom gyfarfod eglwysig i ddewis blaenoriaid, pryd y dewiswyd tri o'r dynion mwyaf blaenllaw gyda'r achos yn y lle. O Bhoi Lasa aethom i Bhoi Lymbong, yr hwn le a gyrhaeddasom cyn yr hwyr. Yr oedd y cyfeillion yn y lle hwn yn brysur lladd moch a buchod ar gyfer y dyeithriaid oeddynt yn eu dysgwyl i'r cyfarfod dosbarth ag oedd i'w gynnal yno dydd Sadwrn a'r Sabboth. Gyda'r hwyr nos Wener a boreu dydd Sadwrn yr oeddynt yn dyfod i mewn o'r gwahanol bentrefi i'r wyl, a chawsant bob croesaw gan y pentrefwyr, y rhai oeddynt wedi darparu digon o luniaeth ar eu cyfer.

Foreu ddydd Llun, wrth ddychwelyd gartref, rhag newynu o honom ar y ffordd, rhoisant *lunch* i bob un yn ei walat, gan ysgwyd llaw yn gyntes cyn ffarwelio a dyweyd "Khublei." Cawsom dri o gyfarfodydd ddydd Sadwrn. Yn y cyfarfod cyntaf cafwyd hanes yr achos yn y pentrefi yn y cylch hwn, a'r modd yr oedd yr athrawon ac eraill yn cario y gwaith yn ei flaen. Ymddengys fod y cyfeillion hyn yn weithwyr ymroddedig, rhai o honynt yn myned am ddyddiau yn olynol, gan gario eu bwyd gyda hwy, i bentrefi eraill lle nid oes ysgolion i ddysgu y bobl am Iesu Grist. Byddant yn fynych yn llwyddo i gael un neu ddau o deuluoedd i fyned yn ol gyda hwy a threio bod yn Gristionogion, gan gario yr ychydig sydd ganddynt gyda hwy. Cyn dechreu yr ail gyfarfod priodwyd tri neu bedwar o gyplau gan U Dorkha. Wedi gorphen y seremoni hon, aed ymlaen at waith y cyfarfod, a'r rhai a unwyd yn aros ynddo. Dechreu da, onidê? Yn y cyfarfod hwn yr oeddynt yn ystyried beth fyddai oreu ei wneyd gyda'r gwahanol bentrefi, ac yn cymeryd golwg gyffredinol ar y gwaith. Yn nghyfarfod yr hwyr cafwyd cyfarfod eglwysig. Testun yr ymddyddan oedd "Offeiriadaeth Crist." Yn y cyfarfod blaenorol gosodwyd arnynt i chwilio am adnodau yn dwyn cysylltiad â'r pwnc. Yr oeddwn yn cael pleser mawr yn gwrando arnynt yn adrodd mor dda gynifer o adnodau yn dal cysylltiad â'r pwnc. Yr oeddwn yn mawr fwynhau symledd ac unplygrwydd y bobl hyn. Yr oedd ambell un yn methu a chofio yr oll o'r adnod, ac yn tori i lawr ar y canol. Eisteddai i lawr am eiliad, codai drachefn gan geisio myned trwyddi eilwaith, a byddai ambell un yn llwyddo; ond os methai nid oedd yno neb yn chwerthin am ei ben. Y Sabboth cafwyd pump o gyfarfodydd. Yn gyntaf cyfarfod i weddio; am 10 i bregethu, pryd y cymerwyd rhan genyf fi; am 1 cyfarfod i fedyddio a gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Traethwyd ar y ddwy ordinhad gan U Kypa U Nissing, diacon yn eglwys Shillong, ac eraill. Yr oedd nifer y rhai a fedyddiwyd yn fawr, gan fod nifer da o honynt yn blant, hâd a gobaith yr eglwys. Derbyniwyd y rhai mewn oed yn gyflawn aelodau. Yn y tryddydd cyfarfod pregethodd U Joel, Shillong, ac U Kiang Pasah, Jiwai. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod eglwysig. Y mater a fu dan sylw oedd "Yr Ysgrythyrau, a'n dyledswydd i'w chwilio." Yr oedd hwn yn gyfarfod hyfryd a buddiol iawn.

Yn un o'r cyfarfodydd pasiwyd yn unfrydol fod cofion cynhes y cyfarfod yn cael eu hanfon at Mrs. Evans, Llanwrtyd. Fel y gwyddoch, âg arian a anfonwyd gan Mrs. Evans y dechreuwyd yr achos yn Bhoi Lymbong, a dyma arian wedi eu bendithio ar eu canfed ac ychwaneg. Buasai yn dda genyf pe buasai Mrs. Evans yno yn gweled y gynnulleidfa lïosog ac astud o tua phum' cant yn gwrando yr efengyl y Sabboth hwnw. Yn ystod un o'r cyfarfodydd dewiswyd tri brawd yn flaenoriaid gan yr eglwys yn Bhoi Lymbong. Boreu dydd Llun ymadawsom â'r cyfeillion anwyl hyn, gan ddymuno Duw yn rhwydd iddynt. Dyma y cyfarfod cyhoeddus olaf i mi fod gyda'm diweddar anwyl gyfaill a chydlafurwr Mr. Jerman Jones. Nid oedd yn teimlo ei hun yn alluog i bregethu, ond cymerodd ran flaenllaw, fel arfer, yn y cyfarfodydd eraill. Pan y gwelais ef ddiweddaf cyn cychwyn am Loegr yr oedd wedi gwanychu gryn lawer er adeg y cyfarfod yn Bhoi Lymbong. Y mae efe yn awr ymhlith y rhai a sancteiddiwyd ar fynydd Sïon yn moli'r Oen i dragywyddoldeb mwy.

Wrth ddychwelyd yn ol o Bhoi Lymbong aethum i Larnai, pentref yn Nosbarth Jiwai. Er nad ydym yn gallu llwyddo i gael ysgol ddyddiol na moddion Sabbothol llewyrchus yn y lle hwn, eto y mae un neu ddau o deuluoedd agos bob blwyddyn yn symud o hono ac yn myned i Wahiajer neu Mawkhla i fyw, ac yn uno â'r Cristionogion yn y pentrefi hyn.

Mawdymai oedd y lle nesaf i mi fyned iddo. Y mae y Cristionogion yn y lle hwn yn parhau yn ffyddlawn. Yr oedd yr ysgol ddyddiol yn lled isel; ond erbyn hyn y mae gwell golwg arni, gan fod genym athraw mwy profiadol ac ymroddgar yn gofalu am dani yn awr.

Ddechreu Chwefror aethom i Nongjingi a Morpassa. Pobl o Nongjingi ydyw y cyfeillion sydd yn byw yn Morpassa, ac y maent oll o'r bron yn Gristionogion, ac yn perthyn i eglwys Nyrtiang. Mae eu symudiad i Morpassa wedi gwanychu yr achos yn fawr yn Nongjingi. Prin y gellir dyweyd fod yno achos yn awr. Yr oedd gan y cyfeillion yn Morpassa, bron yr oll o honynt, eisieu cael eu bedyddio a'u derbyn yn gyflawn aelodau. Darfu i U Kiang Pasah a minnau eu holi ar y ddwy ordinhad, a chawsom mad oeddynt yn gwybod digon am danynt i'n cyfiawnhau i'w derbyn yn gyflawn aelodau. Rhoisom ar yr athraw i'w hyfforddi yn fanylach a chymeryd yr *Hyfforddwr* fel llaw-

lyfr. Gwnaeth hyny, a phan oeddym yn Nyrtiang mis Mai, cawsom yr hyfrydwch o dderbyn tri o'r bobl hyn yn gyflawn aelodau. Yr oedd yn amlwg eu bod wedi gwneyd ymdrech ganmoladwy i ddeall amcan y ddwy ordinhad.

Ymwelsom hefyd â Nongmawlih (pentref y gareg wen). Cawsom gyfarfod yma a chymerwyd rhan ynddo gan U Kiang Pasah, U Jeremiah, athraw Nyrtiang, a minnau. Yr wyf yn hyderu y ceir achos yn y lle hwn cyn hir. Aethom hefyd i Bambyttong. Pur anwadal ydyw pobl y pentref hwn gyda golwg ar gadw y Sabboth. Y maent yn addaw gwella yn hyn a phethau eraill.

Treuliasom dri diwrnod yn Nyrtiang. Nos Sadwrn cawsom gyfarfod gweddi a chyfarfod eglwysig er parotoi ar gyfer y Sabboth. Bedyddiwyd chwech o blant, a chyfranogasom o Swper yr Arglwydd. Bob tro y byddaf yn myned i'r lle hwn y mae rhyw beth neu gilydd eisieu ei unioni; felly y tro hwn. Gan fod y tir, y lle y mae y Cristionogion yn byw, o dan y Genadaeth, heblaw gwneyd gwaith cenadwr, y mae yn disgyn i ran y cenadwr i weithredu fel y *Magistrate*. Bu gorfod i ni anfon ymaith un teulu o'r *compound* am gamfuchedd a lladrad.

Y lle nesaf yr aethom iddo oedd Wahiajer, lle y cawsom gyfarfod eglwysig er cymhell y rhai a ddylai gael eu bedyddio a'u derbyn i gymundeb i gydymffurfio â gorchymyn ein Harglwydd Iesu Grist. Dipyn yn araf yw y bobl yn y dosbarth hwn i gynnyg am gyflawn aelodaeth er iddynt gael eu cymhell i hyny.

Wedi dychwelyd ac aros yn Jiwai am ychydig ddyddiau, cychwynasom i Ddyffrynoedd Jaintia, gan ddechreu yn Pontydong. Ysgol lled newydd sydd yn y lle hwn, ac y mae yn argoeli y gwna waith da yndd o. Cawsom gyfleusdra i ddyweyd am yr iachawdwriaeth ag sydd yn Nghrist Iesu, a cheisiasom wneyd y goreu o hono.

Oddiyma aethom i Padw, a chawsom gyfarfod eglwysig er ein parotoi i gyfranogi o Swper yr Arglwydd drannoeth, pryd y pregethodd U Iang, yr efengylydd, y bedyddiwyd un plentyn, ac y gweinyddwyd Sacrament Swper yr Arglwydd. Yn y *Society* y noson flaenorol diarddelwyd un am briodi un allan o'i byd.

Drannoeth aethom i Nongbareh. Isel iawn yw y gwaith yn y lle hwn, ond nid wyf yn tybio y dylid cymeryd yr athraw oddiyno, pe na b'ai ond i gadw yr ychydig Gristionogion ag sydd yno ynghyd. Y mae fod athraw gyda hwynt yn gryn gryfhad iddynt. Wedi cyrhaedd yma clywsom fod y *cholera* wedi tori allan yn Dewkui, Japlem, a Sohkha. Aethom i lawr i Shnong Pyddeng, a phan yn myned cyfarfuasom âg amryw o bobl Nongbareh yn troi yn ol â golwg ddifrifol arnynt (pan y mae y *cholera* oddiamgylch y mae yn difrifoli pawb o honom). Ychydig o beilder oddiwrthynt yr oedd dyn wedi ei daro gan y *cholera* yn cael ei gario yn ol i'w bentref gan ei berthynasau. Aethom ymlaen i Shnong Pyddeng. Yr oedd dychryn yn teyrnasu yno, eto daeth llon'd yr ysgoldy o bobl ynghyd, a phan oeddym yn cario y cyfarfod yn ei flaen daeth rhywun â'r newydd fod y dyn a darawyd gan y *cholera* wedi marw. Cyn ymadael â hwy gorchymynasom y pentrefwyr i ofal Duw rhagluniaeth ac iachawdwriaeth dyn, a da genyf ddyweyd na fu un farw o'r pentref o honi. I Dduw y byddo y diolch am hyn!

Kudeng oedd y lle nesaf. Wedi edrych pa gynnydd yr oedd yr ysgo'heigion wedi ei wneyd, canasom amryw o benillion, a chymhellasom y bobl i gredu yn Mab Duw. Yr oeddym yn cael lle i hyderu fod rhai o honynt yn agoshau gryn lawer at grefydd Iesu Grist.

Yr oeddym wedi bwriadu treulio y Sabboth yn Sohkha, ond anfonodd y cyfeillion oddiyno fod y *cholera* wedi tori allan yn eu plith, a'u bod hwythau yn dianc am eu bywyd i'r coedwigoedd. Wedi derbyn y newydd hwn, penderfynasom droi yn ol i Pontydong, a threulio y Sabboth yno, ac felly y gwnaethom, gan geisio dysgu y pentrefwyr am ffordd iachawdwriaeth.

Mewn llythyr arall dan yr un dyddiad, rhydd Mr. John Jones hanes taith a gymerodd i ymweled â rhai o bentrefi dyffrynoedd Jaintia.

"Ar y 18fed o'r mis hwn (Gorphenaf) aeth U Solomon cymysgydd cyffyriau Dr. Hughes yn Jiwai, yr hwn sydd hefyd yn Efengylydd, a minnau am ychydig ddyddiau i Sohkha, Lamin, a Nongtalang. Yr oedd y cyfeillion yn y lleoedd hyn heb gymundeb er ys dros dwy flynedd a hanner, ac yr oeddwn innau, er pan y dychwelais yn ol, wedi methu ymweled â hwy cyn hyn. Y mae teithio yn y dyffrynoedd, yn enwedig yr amser hwn o'r flwyddyn, yn nghanol y gwres a'r gwlaw, yn waith llafurus a blinderus; eto yr oeddwn yn ei theimlo yn ddyledswydd arnaf ymweled â'r cyfeillion hyn y cyfleusdra cyntaf a gawn. Y peth cyntaf a welais wedi dyfod yn agos i Sohkha oedd y capel, y darfu iddynt ei adeiladu rhyw dair blynedd yn ol, yn ei adfeilion, wedi ei losgi gan feilten flwyddyn i'r mis diweddaf. Dygwyddodd hyn ar nos Sabboth, yn ystod ystorm o fellt a tharanau. Parodd ddychryn mawr i'r pentrefwyr druain, ac y mae yn ofid llygaid a chalon iddynt hyd heddyw. Bu y cyfeillion hyn mewn cryn helbul yn ei godi y tro cyntaf, a theg yw dyweyd iddynt wneyd eu heithaf mewn cyfranu arian tuag ato, codi ceryg, cario calch, darparu coed, &c.; ac wele eu llafur cariad ar darawiad amrant wedi ei chwilfriwio a'i losgi gan dân o'r nefoedd. Fel y gellwch feddwl, y maent dipyn yn ddigalon o herwydd yr anffawd hon, ac yn ymdeimlo â'u tlodi. Da genyf ddyweyd i rai o bob dosbarth ar y Bryniau gyfranu rhyw gymaint tuag at helpu a chalonogi y cyfeillion hyn gyda golwg ar ailadeiladu eu capel, ac y maent hwythau yn gwerthfawrogi y prawf hwn o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Ond drwg genyf ddyweyd nad yw y cynnorthwy a gawsant yn ddigon ar gyfer ail-godi y capel; y maent yn fyr o tua £20. Diau genyf fod yna yn Nghymru a threfi Lloegr rai a garent helpu y cyfeillion hyn yn y cyfwng presennol. Gwnaent garedigrwydd

mawr â'r achos yn y lle hwn, a diau y bydd iddynt ddcrbyn cymeradwyaeth y Meistr mawr am eu caredigrwydd i'r achos trallodus yn y lle hwn. Ymwelodd y *cholera* â'r pentref hwn mis Chwefror diweddaf, a bu farw saith o'r pentrefwyr, tri o honynt yn Gristionogion. Yn ol eu harfer diangasant i'r *jungles*, a buont yno am gryn amser nes cael sicrwydd ei fod wedi ymadael â'r lle. Bellach y mae pethau yn dechreu dyfod i drefn. Rhwng y naill beth a'r llall y mae y gwaith wedi dyoddef cryn lawer yma, ac o herwydd hyny y mae y cyfeillion hoffus hyn wedi colli cryn lawer o'r ŷni hwnw ag oedd ynddynt gyda y gwaith da. Y mae yr eglwys yn dangnefeddus.

"Yr oeddym yno dros y Sabboth. Cafwyd cyfarfod gweddi am saith y boreu, a phregeth am ddeg. U Solomon oedd y pregethwr. Ar ddiwedd y bregeth cafwyd cyfarfod eglwysig i ymddyddan â phedair oedd yn ymofyn am gyflawn aelodaeth. Yr oedd un o honynt yn hen wraig dros ei phedwar ugain. Hyfryd oedd clywed yr hen chwaer hon yn dadgan mor groew ei hyder a'i gobaith am fywyd trwy haeddiant angeu y Groes. Atebodd y pedair y cwestiynau a roddwyd iddynt yn dra boddhäol. Am un o'r gloch pregethais innau, ac ar ddiwedd yr odfa bedyddiwyd tair o'r rhai oedd i'w derbyn i gymundeb, a phump o blant. Yr oedd un o'r rhai mewn oed wedi ei bedyddio pan yn blentyn.

Tua phedwar o'r gloch aethom oll o'r bron o Sohkha i Lamin i gynnal cyfarfod yn yr awyr agored, a buom wrthi am ddwy awr yn canu, cyfarch, a gweddïo, nifer lled dda o honom yn cymeryd rhan yn y cyfarfod. Yr oedd genym gynnulleidfa o 200 rhwng y Cristionogion a'r pentrefwyr. Nid yw yr achos mor lewyrchus ag y bu yn Lamin. Un rheswm am hyny yw fod rhai teuluoedd wedi symud oddiyno i fyw yn Juplem, a'r rheswm arall yw fod rhai o'r Cristionogion heb fod yn byw mor heddychol â'u gilydd ag y buasai yn ddymunol.

Dydd Llun aethom i Nongtalang. Llwyddaidd iawn yw yr achos yn y lle hwn ar hyn o bryd. Y mae rhyw fath o ddifaterwch a digalondid wedi dyfod dros rai o'r Cristionogion yn y lle hwn. Collodd un o'n dynion blaenaf yno ei wraig rhyw chwe' mis yn ol, ac y mae efe ei hun wedi bod yn wael, ac nid yw yn mwynhau cysuron yr Efengyl ond i raddau bychain. Ceisiasom helpu y brawd trallodus hwn, a gweddïasom gydag ef. Hyderaf y cyfyd yr Arglwydd et drachefn o ran ysbryd ei feddwl, ac yr adferir ef i'w gynnefin iechyd. Cawsom gyfarfod eglwysig nos Lun er cael tipyn o brofiad y brodyr, ac hefyd i gydymddyddan â'r rhai ag oedd yn ymgynnyg am gyflawn aelodaeth—tri mewn nifer. Nos Fawrth cawsom gyfarfod i bregethu a gweinyddu yr ordinhadau. Bedyddiwyd tri mewn oed a phump o blant. Ychydig heblaw y Cristionogion a ddaeth i'r cyfarfod. Yr oedd yn bur ddrwg genyf weled yr achos mor isel ei wedd yn Nongtalang. Y mae yn amlwg y bydd yn rhaid i ni wneyd ymdrech neilltuol yn y pentref hwn,—y mwyaf yn Nyffrynoedd Jaintia. Y mae yma rai ugeiniau, os nad rhai cannoedd, yn gallu darllen eu Testamentau, a llawer o honynt wedi bod yn yr eglwys rywbryd neu gilydd, ond wedi syrthio, ac y maent wedi aros allan heb ddychwelyd yn ol. Nid yw y rhai hyn yn gallu ymgymmodi â'r grefydd Gasi, ac nis gallant oddef dysgyblaeth fanwl ac athrawiaeth iachus; nid rhyfedd gan hyny fod yn y pentref hwn ddeuddeg o ddynion sydd yn galw eu hunain yn Undodiaid, ac yn byw fel y mynont heb neb i'w galw i gyfrif am eu drwg fuchedd. Y mae y mwyafrif o'r pentrefwyr yn methu gweled dim gwahaniaeth rhyngddynt hwy â hwy eu hunain o ran buchedd. Yr ydych, meddant wrthynt, yn cymeryd llwgrwobrwyaeth, yn godinebu, yn meddwi, &c., ac yn gwneyd fel y mynoch, ond eich bod yn dyweyd nad oes ond un Duw yn bod. Y mae yn amlwg mai ysgubion y Cristionogion ydych, wedi eich gwrthod ganddynt hwy. Er fod y rhai hyn yn peri blinder i'r Cristionogion, y mae y pentrefwyr yn ddigon llygadog i weled y gwahaniaeth rhwng y gwir a'r gau. Duw a drugarhao wrth ei waith, ac a fendithio ei bobl yn y lle hwn. Cofion serchog atoch oll.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Capel Webster Road, Liverpool	19	6	0
Tuag at Ysbytty Jiwai, trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester:—			
Mr. W. Jones	0	10	0
Mrs. Jenkyns	1	0	0
Tuag at Gofgolofn ar fedd y Parch. T. Jerman Jones:—			
Mr. E. Jones, 12, Stanley Street, Seacombe	0	5	0
Y Parch. W. Evans, M.A., Pembroke Dock.....	0	5	0

Medi 11*eg*, 1890.

Yn y rhifyn diweddaf dylasai y symiau a dderbyniwyd tuag at Ysbytty Mawphlang fod fel y canlyn:—Trwy law Mrs. W. R. Jones, Preswylfa, Holyhead.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P. 4, *William Moult Street*, *Liverpool*.

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank*, *to the credit of Mr. David Hughes*, *Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society*. Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings*, *North John Street*, *Liverpool*.

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South*, *Liverpool*.

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON